



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
15/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:
10 MAWRTH 2016

GWERTHUSIAD O'R STRATEGAETH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

ADRODDIAD TERFYNOL

Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Adroddiad Terfynol

10 Mawrth 2016

Brett Duggan, Hefin Thomas ac Eirlys Pritchard Jones



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Catrin Redknap
Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn. 0300 025 5720

ISBN: 978-1-4734-5981-6

© Hawlfraint y Goron 2016



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

Rhestr ffigurau.....	2
Rhestr tablau	4
Rhestr termau.....	6
1 Cyflwyniad.....	8
2 Dulliau ymchwil.....	15
3 Cefndir a chyd-destun	24
4 Gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	30
5 Cynllunio darpariaeth	53
6 Datblygu'r gweithlu	101
7 Cymorth canolog	122
8 Sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg.....	134
9 Casgliadau ac argymhellion	152
Atodiadau	174

Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Crynodeb o gamau ac amserlen y gwerthusiad	13
Ffigur 2: Prif elfennau'r model rhesymeg	16
Ffigur 3: Gweithredu'r Strategaeth: y cysylltiadau rhwng gwahanol haenau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	31
Ffigur 4: Llinellau atebolrwydd addysg cyfrwng Cymraeg.....	37
Ffigur 5: Cynnydd yn erbyn targed 2020 ar gyfer canran y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysg yn y Gymraeg	43
Ffigur 6: Data ar y ganran o'r dysgwyr sy'n dilyn Cymraeg iaith gyntaf, a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 drwy'r Gymraeg yn 2014-2015, fesul awdurdod lleol*	47
Ffigur 7: Data ar y ganran o'r dysgwyr sy'n dilyn Cymraeg iaith gyntaf, a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 drwy'r Gymraeg yn 2014-2015, fesul awdurdod lleol*	48
Ffigur 8: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi gwella yn yr awdurdod lleol ers 2010'</i>	68
Ffigur 9: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg'</i>	69
Ffigur 10: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn effeithiol i'r galw gan rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'</i>	70
Ffigur 11: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010'</i>	78
Ffigur 12: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod 14-19 wedi gwella yn yr awdurdod lleol/rhanbarth ers 2010'</i>	88
Ffigur 13: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi gwella ers 2010'</i>	94
Ffigur 14: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae nifer ddigonol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd/uwchradd/addysg bellach'</i>	109
Ffigur 15: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae hyfforddiant i'r gweithlu yn diwallu anghenion ein sefydliad ni o ran cefnogi sgiliau iaith Gymraeg'</i>	117

Ffigur 16: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r ystod o gymwysterau cyffredinol cyfrwng Cymraeg (e.e. TGAU a Safon Uwch) wedi gwella ers 2010'</i>	126
Ffigur 17: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r ystod o gymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010'</i>	127
Ffigur 18: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010'</i>	129
Ffigur 19: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r iaith Gymraeg fel pwnc (iaith gyntaf neu ail iaith) wedi gwella ers 2010'</i>	130
Ffigur 20: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella ers 2010'</i>	137
Ffigur 21: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: <i>'Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith wedi gwella ers 2010'</i>	142

Rhestr tablau

Tabl 1: Dyraniad cyllid Uned y Gymraeg mewn Addysg, 2009-10 i 2014-15 (£)	34
Tabl 2: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg (iaith gyntaf), 2009-2014	40
Tabl 3: Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg	44
Tabl 4: Canran y dysgwyr o gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.....	45
Tabl 5: Canran y dysgwyr o gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.....	45
Tabl 6: Gweithgareddau addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fesul sector.....	49
Tabl 7: Dangosydd 5a: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg iaith, ddwy flynedd yn gynharach.....	50
Tabl 8: Dangosydd 5b: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Ail iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg Ail iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach.	50
Tabl 9: Canran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf wrth symud o Gyfnodau Allweddol 2 i 4 (yn seiliedig ar ddysgwyr a oedd yn 11 oed yn 2008)	75
Tabl 10: Cyllid grant 14-19 ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	82
Tabl 11: Nifer y pynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigiwyd yng Nghyfnod Allweddol 4 2010/11 – 2012/13	84
Tabl 12: Myfyrwyr yn cwblhau cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru 2005/06 i 2013/14	104
Tabl 13: Athrawon mewn ysgolion cynradd yng Nghymru 2005/06 i 2013/14	105
Tabl 14: Athrawon mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru 2005/06 i 2013/14	106
Tabl 15: Canran y dysgwyr yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r ganran yn cyrraedd gradd A*-C yng Nghyfnod Allweddol 4 (%)	136
Tabl 16: Canran y dysgwyr yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 5+) mewn Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, 2007-2014 (%).....	140

Tabl 17: Data Cyfnod Allweddol 4 - canran y dysgwyr yn cyrraedd A*-C mewn Cymraeg ail iaith cwrs llawn a chwrs byr 2009 i 2014 (%).....	141
Tabl 18: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg (iaith gyntaf), 2009-2014	155
Tabl 19: Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg, 2009-2014.....	155
Tabl 20: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, 2009-2014.....	156
Tabl 21: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, 2009-2014.....	156
Tabl 22: Gweithgareddau addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fesul sector, 2009-2014	157
Tabl 23: Dangosydd 5a: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg iaith, ddwy flynedd yn gynharach, 2004-2014.....	157
Tabl 24: Dangosydd 5b: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch ail iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach, 2004-2014	158

Rhestr termau

Acronym/Term	Diffiniad
AB	Addysg bellach
ACCAC	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
AdAS	Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Adroddiad interim	Adroddiad interim y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
AU	Addysg uwch
CACHE	Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal, Addysg a Iechyd (Council for Awards in Care, Health and Education)
CBAC	Corff dyfarnu Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CDP	Cymuned Dysgu Proffesiynol
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg
CiO	Cymraeg i Oedolion
CSGA(au)	Cynllun(iau) Strategol y Gymraeg mewn Addysg
CYDAG	Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg: yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i hyrwyddo a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
Cynllun Sabothol iaith Gymraeg	Rhaglen hyfforddiant, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer ymarferwyr addysg i wella'u sgiliau iaith Gymraeg
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
ELWa	Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

GCaD	Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu
GGA	Grant Gwella Addysg
HCA	Hyfforddiant cychwynnol athrawon
Hwb	Hwb yw'r storfa cynnwys digidol genedlaethol
Mudiad Meithrin	Darparwr mwyaf darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae Mudiad yn cynnig ystod o ddarpariaeth ledled Cymru, yn cynnwys cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd, cylchoedd Ti a Fi a chlybiau ar ôl ysgol
PLASC	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (Pupil Level Annual School Census)
Rhaglen Weithredu	Rhaglen Weithredu y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
Sgiliaith	Sefydliad sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant i diwtoriaid addysg bellach a dysgu'n seiliedig ar waith
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

1 Cyflwyniad

Trosolwg o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

- 1.1 Cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ('y Strategaeth') gan Llywodraeth Cymru yn mis Ebrill 2010 a cheir ymrwymiad ynddi i '*dwf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ystod oedran*'. Gweledigaeth y Strategaeth yw:

'cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle' (Llywodraeth Cymru, 2010:4).

- 1.2 Mae'r Strategaeth yn anelu at adeiladu ar y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a welwyd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif gan sicrhau y '*caiff fframwaith a seilwaith polisi cryfach eu sefydlu a'u datblygu*' (t.5). Gosodir pwyslais hefyd ar flaengynllunio effeithiol er mwyn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod o addysg a hyfforddiant, asesu'r galw am addysg Gymraeg yn gywir, ac ymateb i'r galw hwnnw.

- 1.3 Mewn datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn mis Ebrill 2010 nododd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd:

'Am y tro cyntaf, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer dysgu'r iaith yn ein system addysg a hyfforddiant.'¹

Yn yr un datganiad disgrifiodd y Gweinidog y broses o lunio'r Strategaeth fel '*carreg filltir hanesyddol yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg*'.²

- 1.4 Ceir cydnabyddiaeth yn y Strategaeth bod hon yn agenda bolisi hirdymor. Pennwyd targedau pum mlynedd a deng mlynedd yn y Strategaeth, gyda'r bwriad o'u hadolygu yn 2015. Bydd y gwerthusiad hwn yn bwydo'r broses o adolygu'r targedau hyn ac yn adnabod meysydd blaenoriaeth at y dyfodol.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y Trafodion 20 Ebrill 2010: Datganiad ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*. Ar gael yma: www.senedd.cynulliad.cymru [cyrchwyd ar 10 Gorffennaf 2015]

² Ibid.

Y rhaglen ymchwil

- 1.5 Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad o'r Strategaeth ar ran Llywodraeth Cymru yn mis Hydref 2012. Nod y gwerthusiad oedd mesur effeithiolrwydd a thraweffaith y Strategaeth, gan ystyried i ba raddau y mae'r Strategaeth wedi gwireddu'r nodau, yr amcanion a'r deilliannau disgwylidig.
- 1.6 Rhestrwyd cyfres o amcanion ar gyfer y gwerthusiad yn y fanyleb ymchwil wreiddiol. Yn dilyn trafodaethau rhwng y tîm ymchwil a Grŵp Llywio'r gwerthusiad ynglŷn â sgôp yr astudiaeth, cytunwyd i ganolbwyntio ar y cwestiynau ymchwil canlynol:
- p'un a yw'r nodau a'r amcanion strategol yn addas;
 - y graddau y mae'r Strategaeth wedi rhoi platfform i Lywodraeth Cymru hyrwyddo twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg;
 - y graddau y mae'r Strategaeth yn galluogi'r newidiadau a ddymunir o fewn y system addysg a hyfforddiant;
 - effeithiolrwydd rhaglenni penodol a weithredir yn enw'r Strategaeth.
- 1.7 Mae strwythur yr adroddiad hwn yn cyfateb i Nodau Strategol y Strategaeth (gweler 1.14, isod) ac mae ystyriaeth o'r cwestiynau uchod yn rhedeg drwy'r drafodaeth ym Mhenodau 4-9 yr adroddiad.
- 1.8 Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar raglen ymchwil eang sy'n cyfuno amrywiaeth o ddulliau gwerthuso (gweler Pennod 2 am ragor o fanylion ar y dulliau ymchwil). Ceir gwerthusiad o'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, ochr yn ochr ag adolygiadau o rai o'r rhaglenni penodol sy'n rhan o Raglen Weithredu'r Strategaeth. Fel rhan o'r rhaglen ymchwil cyhoeddwyd eisoes adolygiadau o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol, y rhaglen gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg, a phrosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn addysg bellach. Cwblhawyd adroddiadau ar ddau brosiect ym maes Cymraeg ail iaith hefyd, sef adolygiad o brosiect peilot *Cymraeg Bob Dydd* ac adolygiad o brosiect i annog addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Cynigiodd y ddau adolygiad dystiolaeth ddefnyddiol ynghylch agweddau ar weithrediad a dylanwad y ddau brosiect. Fodd bynnag, gan

mai prosiectau peilot ar raddfa gymharol fach ydynt, nid yw'n bosibl mesur eu cyfraniad tuag at gyflawni nodau'r Strategaeth.

Adroddiad interim

1.9 Ym mis Tachwedd 2014 cyhoeddwyd adroddiad interim ar werthusiad o'r Strategaeth ('adroddiad interim') yn cyflwyno diweddariad ar gynnydd y rhaglen ymchwil, ynghyd â dadansoddiad o'r dystiolaeth a gasglwyd rhwng Ionawr 2013 a Chwefror 2014 mewn perthynas â nodau ac amcanion y Strategaeth.³ Daeth yr adroddiad interim i'r casgliadau canlynol:

- Ceir cefnogaeth i weledigaeth a nodau'r Strategaeth ymysg ymarferwyr a rhanddeiliaid.
- Mae'r Strategaeth wedi arwain at ystod eang o weithredoedd sy'n cefnogi ysgolion a datblygiad y seilwaith addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth nad yw'r Strategaeth yn gymaint o flaenoriaeth i ysgolion â rhai blaenoriaethau a pholisïau eraill ym maes addysg.
- Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) wedi creu fframwaith cynllunio a monitro mwy cadarn na'r un oedd yn bodoli cyn iddynt ddod i rym. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i draweffeithiau'r gyfundrefn gynllunio newydd amlygu'u hunain yn llawn yn ystod oes y Strategaeth hon (2010- 2015).
- Mae'r pŵer sydd gan Weinidogion i ymyrryd a mynnu gwelliannau i'r CSGAau yn cyfrannu tuag at system o atebolrwydd mwy ffurfiol rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.
- Mae arweinyddiaeth gadarn gan unigolion ac uwch-dimau rheoli awdurdodau lleol yn hollbwysig i gefnogi prosesau cynllunio a gweithredu effeithiol.
- Mae cynnydd yn erbyn deilliannau a thargedau'r Strategaeth wedi bod yn arafach na'r disgwyl.

³ Gweler adran 1.13 am grynodedb o amserlen camau'r gwerthusiad.

- Mae'r Strategaeth yn anelu at greu twf yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gynllunio mewn ymateb i'r galw. Nid yw cynllunio ar sail ymateb i alw o angenrhaidd yn sicrhau twf yn y ddarpariaeth. Cafwyd rhai enghreifftiau o sefydliadau addysg yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio symbylu galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn hytrach nag ymateb i'r galw gan fyfyrwyr fel sail ar gyfer cynllunio darpariaeth.
- Mae ansawdd y ddarpariaeth ac ansawdd profiad dysgwyr o'r gyfundrefn addysg yn debygol o ddylanwadu ar ystod eang o nodau'r Strategaeth, gan gynnwys: dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg; lefel y galw am addysg Gymraeg; sgiliau iaith Gymraeg; a chyrhaeddiad academaidd. Fodd bynnag, mae ansawdd yn ystyriaeth gymharol ymylol yng nghyd-destun nodau ac amcanion y Strategaeth.
- Ystyria rhanddeiliaid ac ymarferwyr bod y gyfundrefn addysg Gymraeg yn dlotach o ran y seilwaith sydd ar gael i'w chefnogi (yn cynnwys maint y gweithlu, nifer y cymwysterau ac adnoddau). Ceir heriau eraill sydd ynghlwm ag addysgu drwy gyfrwng iaith nad yw'n famiaith i gyfran helaeth o ddysgwyr.
- Un o nodau'r Strategaeth yw creu cyfundrefn addysg Gymraeg sy'n llwyddo i feithrin pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog. Mae ystod o ffactorau yn dylanwadu ar ddatblygiad sgiliau iaith pobl ifanc sydd y tu allan i gylch dylanwad ysgolion, yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, argaeledd cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith, arferion cymdeithasol ymysg cyfoedion ac, yn hollbwysig, ewyllys i ddefnyddio'r iaith.

1.10 Mae'r adroddiad hwn yn ychwanegu at y sylfaen tystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad interim ac yn cyflwyno casgliadau terfynol mewn perthynas â chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg; arweinyddiaeth ac atebolrwydd; ansawdd darpariaeth; a'r defnydd o sgiliau iaith Gymraeg gan bobl ifanc. Mae casgliadau'r adroddiad yn seiliedig ar waith maes a gwblhawyd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2015. Mae'r tîm ymchwil yn ymwybodol o ddatblygiadau polisi sy'n berthnasol i addysg Gymraeg ers

cwblhau'r rhaglen ymchwil. Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at rai datblygiadau perthnasol, nid yw'n rhoi ystyriaeth lawn iddynt.


Cwmpas yr adroddiad

- 1.11 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno asesiad cyfannol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o wahanol ffynonellau a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad. Mae Ffigur 1 yn crynhoi amserlen gwahanol gamau'r gwerthusiad, gan gynnwys dyddiadau cyhoeddi'r adroddiadau a gwblhawyd eisoes. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r camau ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn (*Dulliau ymchwil*).
- 1.12 Mae rhai elfennau o'r Strategaeth y tu allan i gwmpas y gwerthusiad. Nid yw Cymraeg i Oedolion, addysg uwch, a dysgu yn y gweithle wedi eu cynnwys oherwydd iddynt fod yn destun adolygiad neu werthusiad unigol. Cyhoeddwyd adolygiad o faes Cymraeg i Oedolion, *Codi Golygon*,⁴ ym mis Gorffennaf 2013; cyhoeddwyd gwerthusiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mis Ionawr 2015,⁵ ac roedd proses dendro ar gyfer darparwyr dysgu yn y gweithle yn mynd rhagddi yn ystod cyfnod y gwerthusiad.

⁴ <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/review-welsh-for-adults/?lang=cy>

⁵ http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/welsh_medium/centre_wm_he_cy.aspx

Ffigur 1: Crynodeb o gamau ac amserlen y gwerthusiad



* Dechreuwyd y gwaith hwn yn 2014, cyn i'r adroddiad interim gael ei gwblhau. Cyhoeddwyd yr adroddiadau ym mis Ionawr 2016.

1.13 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg rhwng Medi 2014 ac Ionawr 2015. Defnyddiwyd data 2013/14 ar gyfer deilliannau'r strategaeth gan mai hwn oedd y data diweddaraf oedd ar gael yn ystod cyfnod y gwaith maes. Dyma'r data sydd wedi ei gyflwyno felly yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag mae data 2014/15 bellach ar gael ar gyfer rhai deilliannau'r strategaeth ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru/ystadegau).

Strwythur yr adroddiad

1.14 Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

Pennod	Diben	
1. Cyflwyniad	Cynnig trosolwg o'r astudiaeth gan gyfeirio at gyhoeddiadau blaenorol y rhaglen ymchwil	
2. Dulliau ymchwil	Amlinellu'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y gwerthusiad, gan gynnwys yr astudiaethau o raglenni unigol.	
3. Cefndir a chyd-destun	Cyfleu'r cyd-destun hanesyddol a'r hinsawdd polisi sy'n gefndir i'r Strategaeth a'r gwerthusiad	
4. Gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	Amlinellu strwythur y Strategaeth, a'r trefniadau monitro a chyllido. Ceir sylwebaeth ar effeithiolrwydd y gweithredu; cyflwynir hefyd ddata ar y cynnydd a welwyd yn erbyn targedau'r Strategaeth yn sgil ei gweithredu.	
5. Cynllunio darpariaeth	Tystiolaeth yn cyfateb i chwe Nod Strategol y Strategaeth: crynhoir y dystiolaeth a gasglwyd drwy wahanol ffynonellau a chyflwynir casgliadau ar gynnydd yn erbyn nodau a deilliannau perthnasol.	Nodau Strategol 1,2 a 3.
6. Datblygu'r gweithlu		Nod Strategol 4
7. Cymorth canolog		Nod Strategol 5
8. Sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg		Nod Strategol 3 a 6
9. Casgliadau ac argymhellion	Cyflwyno casgliadau'r astudiaeth ac argymhellion at y dyfodol.	

2 Dulliau ymchwil

- 2.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno amlinelliad o'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod y rhaglen ymchwil. Mae hefyd yn cyflwyno'r rhesymeg dros ddewis y fethodoleg ac yn nodi cryfderau a chyfyngiadau'r dulliau.

Y rhesymeg dros y fethodoleg

- 2.2 Mewn trafodaethau gyda Grŵp Llywio'r gwerthusiad ar ddechrau'r prosiect, cytunwyd ar nifer o egwyddorion a lywiodd y broses o gynllunio'r fethodoleg:

- Yr angen i ddatblygu a theilwra gwahanol ddulliau ymchwil ar gyfer gwahanol elfennau'r rhaglen ymchwil;
- Ceisio cyrraedd darlun cynhwysfawr o draweffeithiau'r Strategaeth drwy ystyried tystiolaeth feintiol yn seiliedig ar ddata gweinyddol ochr yn ochr â thystiolaeth gan wahanol garfannau o ymatebwyr (ymarferwyr, cynllunwyr polisi lleol a rhanddeiliaid);
- Adeiladu sylfaen tystiolaeth sy'n cyfuno ymchwil dwys mewn ardaloedd penodol gyda data gan benaethiaid ysgolion a cholegau ledled Cymru;
- Yr angen i wneud defnydd o ddogfennaeth eilaidd i gyfoethogi'r dystiolaeth.

Adeiladu ar y Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig

- 2.3 Cyhoeddwyd *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* ('y Fframwaith') yn 2011 fel offeryn ar gyfer adolygu dylanwad y Strategaeth ac ymchwilio traweffeithiau, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y polisiâu a weithredwyd yn ei sgil (Llywodraeth Cymru, 2011). Cyflwynodd y *Fframwaith* fodel rhesymeg er mwyn dangos y cysylltiadau a ddisgwylir rhwng y buddsoddiadau a wneir yn y system addysg (mewnbynnau), y gweithgareddau a gynhelir wrth weithredu'r Strategaeth, a'r deilliannau a'r traweffeithiau a ddisgwylir.

Adroddiad terfynol

2.4 Yn ystod cyfnod cwmpasu'r gwerthusiad mireiniwyd y model rhesymeg gan y tîm ymchwil er mwyn adnabod y prif elfennau a materion i'w harchwilio ond heb hepgor nifer o'r cwestiynau ymchwil pwysig a nodwyd yn y *Fframwaith*. Mae Ffigur 2, isod, yn crynhoi'r model rhesymeg terfynol.

Ffigur 2: Prif elfennau'r model rhesymeg



2.5 Mae'r *Fframwaith* hefyd yn cynnig gwahanol ddulliau ar gyfer ymgymryd â rhaglen ymchwil a gwerthuso, ac mae'r dulliau a fabwysiadwyd yn ystod y rhaglen ymchwil yn dilyn nifer o'r awgrymiadau hyn. Mae'r is-adrannau sy'n dilyn yn crynhoi dulliau ymchwil gwahanol elfennau'r rhaglen ymchwil:

- cyfnod cwmpasu a mireinio'r fframwaith gwerthuso;
- cyfweiliadau â rhanddeiliaid, arolwg penaethiaid, chwe astudiaeth ardal ac ymchwil desg a gwblhawyd fel rhan o brif werthusiad y Strategaeth;
- *Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru* (Adolygiad o Adnoddau);
- *Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* (Astudiaeth Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd);

- *Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol* (Adolygiad o'r Cynllun Sabothol);
- adolygiadau o ddau brosiect ym maes Cymraeg ail iaith: prosiect annog addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg; a phrosiect peilot *Cymraeg Bob Dydd*.

Gwerthuso'r Strategaeth

- 2.6 Mae'r dadansoddiad sydd yn sail i'r adroddiad terfynol hwn yn gwneud defnydd o'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad o'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, ynghyd â chasgliadau'r adolygiadau unigol a restrir yn 2.5. Ceir disgrifiad byr isod o'r dulliau a ddefnyddiwyd ynghyd â'r rhesymeg dros eu defnyddio, eu manteision a'u cyfyngiadau.
- 2.7 Wrth adrodd ar dystiolaeth, rydym wedi archwilio'r newidiadau a welwyd (ynghyd â chanfyddiadau o newid) mewn perthynas â deilliannau'r Strategaeth ers ei chyhoeddi yn 2010. Mae rhai ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn o asesu cynnydd, fodd bynnag, sef:
- bod rhai o ymyriadau'r Strategaeth ar waith cyn 2010;
 - bod rhai o ymyriadau'r Strategaeth yn debygol o gymryd yn hirach nag eraill i'w gweithredu ac i ddylanwadu ar allbynnau a deilliannau;
 - na fyddai'r rheiny a gyfrannodd eu safbwyntiau yn ystod y gwerthusiad o reidrwydd yn ystyried 2010 fel blwyddyn arwyddocaol neu fel gwaelodlin.
- 2.8 Mae angen cadw mewn cof, felly, y cyfyngiadau sydd ynghlwm â gosod 2010 fel gwaelodlin ar gyfer mesur cynnydd.

Ymchwil desg

- 2.9 Cwblhaodd y tîm gwerthuso adolygiad o ddogfennau cefndirol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth, sef y *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig*, Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg

mewn Addysg.⁶ Adolygwyd hefyd Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) pob un o'r 22 awdurdod lleol yn eu ffurf drafft ynghyd â'r cynlluniau terfynol a gytunwyd, ac adroddiadau cynnydd gan awdurdodau lleol. Adolygwyd dogfennaeth berthnasol arall, sef: strategaethau Llywodraeth Cymru ym maes polisi addysg, cynlluniau gweithredu a chanllawiau cynllunio'r Llywodraeth; adroddiadau adolygiadau a gwerthusiadau rhaglenni a phrosiectau; cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cymru; adroddiadau blynyddol a thematig Estyn; cynlluniau ac adroddiadau monitro awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Ceir rhestr gyflawn o'r dogfennau a adolygwyd yn y llyfryddiaeth (gweler Atodiad 1).

Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid

- 2.10 Cytunwyd ar restr o randdeiliaid cenedlaethol i'w gwahodd i gyfweiliad i'w holi am draweffaith a dylanwad y Strategaeth. Diben hyn oedd archwilio cwestiynau'r gwerthusiad mewn manylder gydag unigolion profiadol a chanddynt drosolwg strategol o addysg cyfrwng Cymraeg. Lluniwyd canllaw cwestiynau fel sail ar gyfer y cyfweliadau lled-strwythuredig. Cwblhawyd cyfweliadau gyda 37 o unigolion yn cynrychioli 14 o randdeiliaid i gasglu tystiolaeth ar lefel strategol mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth. Cynhaliwyd ail gyfweliadau gyda nifer o'r unigolion hyn er mwyn ystyried traweffeithiau ac effeithiolrwydd gweithredoedd penodol yr oeddynt yn gysylltiedig â hwy. Ceir copi o'r canllaw cwestiynau a ddefnyddiwyd yn Atodiad 2 a rhestr o'r sefydliadau cenedlaethol y cyfwelwyd â hwy yn Atodiad 3.

⁶ Gweler canllawiau *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg* (<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/welshstrategicplan/?lang=cy>) a *Grant y Gymraeg mewn Addysg* (<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131108-welsh-in-education-grant-cy.pdf>)

Astudiaethau ardal

2.11 Nod yr astudiaethau ardal oedd cynnal ymchwil dwys ar lefel leol, er mwyn ystyried dylanwad y Strategaeth ar ddarpariaeth, cynllunio a chyrhaeddiad dysgwyr mewn gwahanol ardaloedd. Dewiswyd chwe ardal ar gyfer yr astudiaethau ar sail samplo bwriadus er mwyn sicrhau trawstoriad daearyddol, ieithyddol a gwledig/trefol, gydag ymchwil ym mhob ardal yn seiliedig ar ystod o ddulliau:

- Dadansoddiad o ddata ar lefel leol (gan gynnwys blaenoriaethau a thargedau ar gyfer cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn CSGAau yr awdurdodau lleol perthnasol);
- Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol ym mhob un o'r ardaloedd (12 o swyddogion awdurdodau lleol);
- Ymweliadau ag ysgolion uwchradd a chynradd er mwyn cyfweld â phenaethiaid, athrawon a dysgwyr ar draws y gwahanol gyfnodau addysg. Ymwelwyd â 10 o ysgolion uwchradd ac 20 o ysgolion cynradd ar draws y chwe ardal.
- Grwpiau trafod a chyfweiliadau gyda 27 o rieni (cyfuniad o rieni cynradd ac uwchradd). Trefnwyd y rhain mewn pump o'r chwe ardal, gan ddefnyddio dau ddull recriwtio. Mewn tair ardal recriwtiwyd rhieni drwy ddull canfod rhydd (recriwtwyr yn canfod rhieni gan ddefnyddio holiadur sgrinio);⁷ yn y ddwy ardal arall defnyddiwyd rhwydweithiau lleol i gefnogi'r recriwtio (e.e. Mentrau Iaith). Diben yr elfen hon oedd archwilio barn a phrofiadau rhieni o'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd dan sylw, fel cyfraniad tuag at y ffynonellau tystiolaeth eraill. Mae cyfyngiadau clir i'r dystiolaeth gan rieni yn yr adroddiad hwn, gan mai sampl fach iawn o rieni a gyfrannodd.

2.12 Seiliwyd yr astudiaethau ardal ar brif themâu'r Strategaeth, sef cynllunio darpariaeth, dilyniant, sgiliau iaith, y gweithlu, cymorth canolog addysg

⁷ Pwrpas yr holiadur sgrinio oedd sicrhau bod cyfranogwyr yn rhieni â phlant oed ysgol a oedd yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o fewn yr ardal leol. Penderfynwyd hepgor unigolion a oedd yn gweithio mewn meysydd yn ymwneud ag: addysgu neu ddarlithio; gweinyddu addysg; cynghorwyr lleol; llywodraeth genedlaethol; gweinyddu plaid wledyddol.

Gymraeg, a chysylltiadau gyda theuluoedd a'r gymuned. Rhoddwyd, pwyslais ar gasglu tystiolaeth ansoddol yn bennaf (gweler Atodiad 4 ar gyfer rhagor o fanylion ar yr astudiaethau ardal a'r canllaw cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith).

- 2.13 Prif fantais yr astudiaethau ardal oedd eu bod yn cynnig dull o gasglu tystiolaeth ansoddol o ddylanwad y Strategaeth ar lefel leol, gan amrediad o randdeiliaid (yn ymarferwyr, dysgwyr a rhieni). Un o nodweddion allweddol ymchwil ansoddol yw ei fod yn archwiliadol ac yn cynnig darlun o argraffiadau a phrofiadau. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn seiliedig ar samplau cynrychioliadol, ac er bod yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn cynnig trawstoriad eang (o ran sector cynradd/uwchradd, lleoliad daearyddol a maint), ni chynlluniwyd yr astudiaethau ardal i gynnig data sy'n ystadegol ddibynadwy. Y bwriad, yn hytrach, oedd cefnogi gwell dealltwriaeth o'r materion a oedd yn wynebu ymarferwyr ar lefel leol mewn gwahanol gyd-destunau.

Arolwg penaethiaid

- 2.14 Gwahoddwyd penaethiaid holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru, gan gynnwys ysgolion arbennig a cholegau addysg bellach, i gymryd rhan mewn arolwg yn ystod hydref 2014. Nod yr arolwg oedd casglu data meintiol ac ansoddol ar ganfyddiadau penaethiaid o'r cynnydd a welwyd wrth weithredu'r Strategaeth. Mae'r data, sydd yn seiliedig ar ymatebion gan 331 o benaethiaid ac uwch reolwyr ysgolion a cholegau, yn atgyfnerthu'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy ddulliau ac elfennau eraill y gwerthusiad. Ceir rhagor o fanylion am fethodoleg yr arolwg a chopi o'r holiadur yn Atodiad 4.
- 2.15 Defnyddiwyd yr arolwg i gasglu gwybodaeth a chanfyddiadau gan ystod ehangach o benaethiaid nag oedd yn bosibl yn yr astudiaethau ardal. Roedd hefyd yn cynnig cyfle i gasglu data meintiol gan sampl gynrychioliadol o benaethiaid ar draws sectorau gwahanol. Mae'r sampl yn ein galluogi i adrodd â sicrwydd o 95 y cant bod y canlyniadau o fewn 10 y cant i'r 'gwir' ddarlun o ganfyddiadau holl benaethiaid Cymru.

- 2.16 Pwysolwyd y sampl i fod yn gynrychioliadol fesul sector a chyfrwng a defnyddiwyd dull cwota i sicrhau bod modd dadansoddi'r canlyniadau fesul is-sector. Ni chynlluniwyd y sampl gyda'r bwriad iddi fod yn gynrychioliadol yn ddaearyddol nac o ran maint yr ysgolion. Serch hynny, cafwyd trawstoriad da o ymatebion gydag o leiaf pump o ymatebion gan benaethiaid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- 2.17 Prif gyfyngiad yr arolwg penaeithiaid oedd ei fod yn casglu tystiolaeth o ganfyddiadau penaeithiaid ynglŷn â dylanwad y Strategaeth yn hytrach na thystiolaeth gadarn o gynnydd. Dylid felly ystyried canfyddiadau'r arolwg ochr yn ochr â'r data meintiol sy'n dangos cynnydd yn erbyn deilliannau a thargedau'r Strategaeth.
- 2.18 Holwyd penaeithiaid ynglŷn â'r cynnydd a wnaed mewn sawl maes ers 2010 (blwyddyn cyhoeddi'r Strategaeth) mewn ymgais i fesur y cynnydd hwnnw. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, nad oedd penaeithiaid o reidrwydd yn ymwybodol o arwyddocâd y flwyddyn honno. Ceisiwyd mynd i'r afael â hyn drwy gynnwys nodyn i egluro'r rheswm dros gyfeirio at 2010 (gweler yn ogystal 2.7 uchod).

Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012

- 2.19 Seiliwyd yr adolygiad hwn ar gyfuniad o ymchwil desg a gwaith maes. Cwblhawyd arolwg o gyn-gyfranogwyr y Cynllun, gyda 158 allan o 268 a dderbyniodd holiadur yn ymateb. Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gyda 21 o gyfranogwyr er mwyn holi barn yn fanylach am eu profiadau, a chwblhawyd cyfweiliadau hefyd gyda sampl o reolwyr llinell y cyfranogwyr hyn. Casglwyd barn 12 o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn colegau addysg bellach ar y Cynllun a'i ddylanwad ar eu gwaith hwy mewn colegau. Yn olaf, er mwyn gosod sylwadau'r cyfranogwyr mewn cyd-destun ehangach cynhaliwyd cyfweiliadau â chynrychiolwyr o chwe chanolfan hyfforddi, a gyda phedwar swyddog addysg o awdurdodau lleol (un o bob consortiwm). Fe'u holwyd am gynllunio a recriwtio, ôl-ofalaeth ac am eu hargymhellion am ddyfodol y Cynllun. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ym mis Ionawr 2014.

Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru

2.20 Roedd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys cyfnod cwrmpasu ac ymchwil desg, ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a dysgwyr, ac arolwg ymarferwyr (cynradd, uwchradd ac addysg bellach). Yr arolwg ymarferwyr oedd elfen allweddol yr astudiaeth, gyda 313 yn cwblhau'r holiadur, gan ateb cwestiynau ar ddefnydd adnoddau penodol o fewn eu maes pwnc. Casglwyd barn cyhoeddwy yn ogystal trwy gynnal arolwg yn holi barn ar eu profiadau hwythau o'r broses gomisiynu. Dadansoddwyd data'r Gangen Comisiynu Adnoddau ar werthiant a gwariant ar brosiectau adnoddau. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2014.

Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach

2.21 Adolygwyd cynlluniau strategol sefydliadau addysg bellach, adroddiadau monitro prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru, a dogfennaeth arall sy'n berthnasol i'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Cwblhawyd cyfweiliadau gydag 16 o Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd (13 yn ystod ymweliadau â cholegau a thri dros y ffôn), naw o gyfarwyddwyr neu reolwyr colegau, 13 o diwtoriaid a 33 o ddysgwyr. Cwblhawyd cyfweiliadau hefyd gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ColegauCymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r astudiaeth hon ym mis Medi 2014.

Adolygiad o brosiectau Cymraeg ail iaith

2.22 Cwblhawyd adolygiadau o ddau brosiect sydd â'r nod o gefnogi gweithgareddau Cymraeg ail iaith. Mae'r cyntaf o'r rhain, sef prosiect *Cymraeg Bob Dydd*, yn anelu at ymestyn y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Ymwelodd Arad â phump o'r 11 ysgol a gymerodd ran yn y prosiect yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14. Yn ystod yr ymweliadau cynhaliwyd

trafodaethau gyda grwpiau o ddysgwyr (36 o ddysgwyr ar draws y pum ysgol) a oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect, yn ogystal â chyfweliadau gydag athrawon ac aelodau o'r uwch-dîm rheoli.

- 2.23 Mae'r ail adolygiad yn canolbwyntio ar draweffaith prosiect sy'n darparu cyrsiau i athrawon Cyfnod Allweddol 2 (CA2) mewn dwy ardal rhwng 2013 a 2016. Casglwyd data drwy ymweliadau â phump o'r ysgolion cynradd sy'n rhan o'r prosiect a thrwy holiadur a ddosbarthwyd i athrawon a oedd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiadau hyn ym mis Ionawr 2016.

3 Cefndir a chyd-destun

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'n gryno'r cyd-destun i'r astudiaeth. Cyfeiria at rai o'r cerrig milltir allweddol yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ac at y prif ddatblygiadau polisi perthnasol.

Trosolwg o'r cyd-destun hanesyddol

- 3.2 Noda'r Strategaeth mai *'twf addysg cyfrwng Cymraeg oedd un o ddatblygiadau mwyaf nodedig system addysg Cymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif'* (Llywodraeth Cymru, 2010:4). Sefydlwyd yr ysgolion Cymraeg cyntaf mewn ymateb i alw ac ymgyrchu rhieni ac ewyllys unigolion allweddol (aelodau etholedig a swyddogion) (Williams, 2002:11). Gellir dweud mai organig fu twf addysg Gymraeg mewn rhai ardaloedd yn y degawdau ar ôl agor yr ysgol gynradd wladol cyfrwng Cymraeg gyntaf yn 1947. Mewn ardaloedd eraill bu awdurdodau lleol yn fwy rhagweithiol (Llywodraeth Cymru, 2010:5) a chafwyd ymdrechion blaengar i lunio a gweithredu polisiau iaith '[c]yfansawdd ac uchelgeisiol' i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (Williams, 2002:266). Serch hynny, nid oedd strategaeth genedlaethol yn ei lle i yrru twf mewn ffordd wedi'i chynllunio.
- 3.3 Dros amser, pasiwyd deddfwriaeth a roddodd yr hawl i ddysgwyr dderbyn addysg yn ôl dymuniadau eu rhieni (Deddf Addysg 1944), ac a sicrhodd le mwy blaenllaw i addysg Gymraeg (Deddf Diwygio Addysg 1988). Crëwyd sefydliadau cenedlaethol a lwyddodd i gefnogi a chryfhau statws addysg Gymraeg, yn cynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) ac ELWa (Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru). Cryfhawyd y seilwaith a'r strwythurau i gefnogi addysg Gymraeg yn genedlaethol.
- 3.4 Ers datganoli, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb am lunio a gweithredu polisi addysg yn genedlaethol. Cafwyd ymrwymiad i greu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol yn rhaglen

lywodraethu Llywodraeth Cymru yn 2007.⁸ Roedd cyhoeddi'r Strategaeth dair blynedd wedi hynny yn ddatblygiad hanesyddol wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno gweledigaeth strategol a Rhaglen Weithredu ar gyfer sicrhau twf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

- 3.5 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol am ddarparu llefydd ysgol ac o'r herwydd maent yn gyfrifol am bennu hyd a lled y ddarpariaeth o ran llefydd ysgol cyfrwng Cymraeg. Cyfeiria'r Strategaeth at amrywiaethau yn y ffordd y mae gwahanol awdurdodau yn ymateb i'r galw, gyda rhai yn blaengynllunio yn fwy effeithiol nag eraill. Y mae hyn wedi arwain at '*nifer o anghysonderau*' yn y ddarpariaeth (Llywodraeth Cymru, 2010:5). Cynigia'r Strategaeth gyfle i ymateb i'r sefyllfa hon drwy greu fframwaith cynllunio i gefnogi darpariaeth sydd yn fwy cydlynol a chyd-gysylltiedig.

Y cyd-destun polisi

- 3.6 Gweithredir y Strategaeth yn ystod cyfnod o newid yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Ers cyhoeddi'r Strategaeth cyhoeddwyd ystod o bolisiâu newydd ym maes addysg. Cyflwynwyd deddfwriaeth; gwnaed newidiadau i gyfluniad gwasanaethau cefnogi a gwella ysgolion; diwygiwyd systemau cyllido; a chynhaliwyd adolygiadau polisi cenedlaethol. Amlinellir isod y datblygiadau mwyaf arwyddocaol a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cyfleu ehangder y newidiadau i'r tirlun polisi addysg. Mae'r gwaith o weithredu nifer o'r polisiâu isod yn parhau. Cyfeirir at ddatblygiadau diweddar mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Codi Safonau Ysgolion (Chwefror 2011)

- 3.7 Ym mis Chwefror 2011 cyhoeddwyd cynllun polisi cynhwysfawr *Codi Safonau Ysgolion* a arweiniodd at sawl datblygiad polisi arwyddocaol, gan gynnwys system newydd o 'fandio' ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2011b).

⁸ *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* (Mehefin 2007), Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhanbartholi (2011-12)

- 3.8 Sefydlwyd pedwar consortiwm addysg rhanbarthol i fod yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu cynlluniau gwella ysgolion gan ganolbwyntio ar godi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r gwasanaethau a gynigir gan gonsortia rhanbarthol yn 'sicrhau bod modd cyflawni nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru drwy wneud yn siŵr bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg wedi'u halinio ar draws pob un o'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r consortia rhanbarthol'. (Llywodraeth Cymru 2014e:6)

Adolygiad o gymwysterau (Tachwedd 2012)

- 3.9 Nod yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru oedd sicrhau argaeledd cymwysterau gwerthfawr a dealladwy sy'n bodloni anghenion Cymru. Argymhelliad canolog yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru.

Adolygiad cynllunio a chyllido ôl-16 (Mai 2013)

- 3.10 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad ar gynllunio a chyllido ôl-16 yng Nghymru. Wrth wraidd y system newydd mae'r symud tuag at gyllido sefydliadau yn seiliedig ar raglenni dysgu yn hytrach nag ar gymwysterau. Un o egwyddorion cynllunio'r system newydd yw 'hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg' er mwyn cefnogi nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

- 3.11 Mae'r Ddeddf yn rhoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu) ar sylfaen statudol ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fesur y galw ymysg rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg o dan amgylchiadau penodol. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol yn mis Chwefror 2013. O dan ddarpariaethau'r Ddeddf, cyflwynwyd hefyd *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*.

Adroddiad Hill (Mehefin 2013)

- 3.12 Comisiynwyd yr ymgynghorydd Robert Hill i gynnal adolygiad o wasanaethau addysg yng Nghymru ac i edrych yn benodol ar effeithiolrwydd y system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau addysg, ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol. Cyhoeddwyd yr adroddiad '*Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol*' ym mis Mehefin 2013, ac mae'n cynnwys cyfres o argymhellion mewn perthynas â'r modd yr addysgir y Gymraeg a dulliau o wella ansawdd y gefnogaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg (Robert Hill 2013:33).

Adolygiad o Gymraeg i Oedolion (Gorffennaf 2013)

- 3.13 Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddwyd *Codi Golygon*, adolygiad o Gymraeg i Oedolion. Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion gyda'r nod o sicrhau bod cyfleoedd digonol i bobl ddod yn siaradwyr Cymraeg. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddwyd ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad *Codi Golygon*. Erbyn hyn, dechreuwyd ar y broses o weithredu'r argymhellion hynny.

Adolygiad o Gymraeg ail iaith (Medi 2013)

- 3.14 Cyhoeddwyd *Un iaith i bawb*, adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, ym mis Medi 2013. Amlinellodd yr adroddiad hwn gyfres o argymhellion er mwyn ceisio mynd i'r afael â safonau a chyrhaeddiad isel yn y pwnc (Llywodraeth Cymru, 2013c). Mae adolygiad Donaldson (gweler isod) yn ystyried y ffordd ymlaen wrth weithredu argymhellion *Un iaith i bawb*.

'Cymwys am Oes' (Hydref 2014)

- 3.15 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru ym mis Hydref 2014. Mae pedwar amcan strategol y cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithlu proffesiynol rhagorol; cwrwclwm sy'n datblygu gallu dysgwyr i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn annibynnol; pobl ifanc yn ennill cymwysterau sy'n cael eu parchu'n genedlaethol; ac arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio er mwyn codi safonau ym mhob ysgol.

Adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu (Chwefror 2015)

- 3.16 Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yn cael ei arwain gan yr Athro Graham Donaldson. Cyhoeddwyd *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* ym mis Chwefror 2015 a chyflwynwyd y casgliad bod '*angen cryfhau lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm*' (Llywodraeth Cymru, 2015:108).

Adroddiad Furlong, 'Addysgu athrawon yfory' (Mawrth 2015)

- 3.17 Comisiynwyd yr Athro John Furlong i gyflwyno opsiynau ynglŷn â dyfodol hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015, yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg gychwynnol athrawon. Mae hefyd yn cyflwyno amryw o opsiynau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth (Furlong, 2015).

Adroddiadau Estyn

- 3.18 Mae Adroddiadau Blynyddol Estyn yn cyflwyno gwybodaeth ar safonau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg a cholegau addysg bellach. Maent yn adrodd hefyd ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr, gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, mynediad a chynllunio llefydd ysgol ac arweinyddiaeth. Cyhoeddwyd adroddiadau thematig eraill gan Estyn sy'n berthnasol i'r gwerthusiad hwn, yn benodol *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen* (Ionawr 2013) *Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen* (Rhagfyr 2013); *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog* (Tachwedd 2014).

Datblygiadau polisi iaith Gymraeg

- 3.19 Ers cyhoeddi'r Strategaeth yn 2010 gwelwyd datblygiadau pwysig hefyd yn neddfwriaeth a pholisi iaith Gymraeg, gan gynnwys:

- cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sydd wedi creu fframwaith cyfreithiol newydd ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- cyhoeddi *iaith fyw: iaith byw* yn 2012, strategaeth pum mlynedd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r iaith Gymraeg;
- datganiad polisi *iaith fyw: iaith byw – Bwrw Mlaen (2014)* sy'n gosod amcanion polisi o ran y Gymraeg ar gyfer y cyfnod hyd at 2017;
- cyflwyno cylch cyntaf Safonau'r Gymraeg er mwyn rhoi 'sylfaen gadarn i'r iaith' yn y sefydliadau hynny y mae'r safonau'n cyfeirio atynt, sef Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.⁹

Rhoddwyd cryn sylw i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r data ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn benodol. Er gwaethaf cynnydd ym mhoblogaeth Cymru, dengys y data gwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011, sef lleihad o 20.8 y cant yn 2001 i 19.0 y cant yn 2011. Gwelwyd cwmp yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn llawer o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith.

- 3.20 Tanlinella'r datblygiadau uchod, ar draws y gyfundrefn addysg a thu hwnt, natur ddeinamig a chymhleth y cyd-destun polisi sy'n gefndir i weithrediad y Strategaeth. Dengys yn glir hefyd bod yr amcanion a'r prosiectau a weithredir yn enw'r Strategaeth yn bodoli ochr yn ochr ag ystod eang o bolisiâu, cynlluniau a rhaglenni eraill ym maes addysg ac ym maes cynllunio iaith yn ehangach. Mae adrannau eraill yr adroddiad yn ystyried goblygiadau gweithredu'r Strategaeth mewn cyfnod o newid.

⁹ <http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2015/welshlangstandards/?lang=cy>

4 Gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg


4.1 Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o weithrediad y Strategaeth. Mae tair rhan i'r bennod sef:

- amlinelliad o strwythur y Strategaeth a throsolwg o'i gwahanol elfennau, y dyraniadau cyllid a'r trefniadau monitro;
- sylwebaeth, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, ar effeithiolrwydd y gweithredu;
- data a sylwebaeth ar y cynnydd a welwyd yn erbyn targedau'r Strategaeth yn sgil ei gweithrediad.

Strwythur y Strategaeth

4.2 Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer addysg Gymraeg, ynghyd â chyfres o nodau strategol, Rhaglen Weithredu, a deilliannau penodol. Mae Ffigur 3, isod, yn crynhoi'r gwahanol haenau hyn a'r gyd berthynas sydd rhyngddynt. Noda'r Strategaeth yr angen am gysondeb a chyd gysylltu rhwng y cyfeiriad strategol cenedlaethol a'r gweithredu. Mae Rhaglen Weithredu'r Strategaeth yn nodi'r disgwyliadau ar bartneriaid, gan gynnwys mudiadau cenedlaethol, awdurdodau lleol, darparwyr addysg a hyfforddiant a fforymau ardal. Cyfeiria'r Strategaeth at bwysigrwydd *'rhannu cyfrifoldebau'* a *'chynllunio integredig'* a disgwylir gweld yr holl bartneriaid perthnasol yn ymgorffori gweledigaeth y Strategaeth yn eu gwaith, er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol ar *'dair lefel y system addysg'* – yn genedlaethol, gan awdurdodau lleol a chan ddarparwyr.

Ffigur 3: Gweithredu'r Strategaeth: y cysylltiadau rhwng gwahanol haenau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg



Nodau strategol

4.3 Mae chwe nod strategol y Strategaeth yn anelu at gryfhau dulliau cynllunio a gwella'r seilwaith i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac ar lefel leol. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y nodau strategol yn yr Adroddiadau Blynnyddol ar y Strategaeth.¹⁰

Nod strategol 1: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn-statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni

Nod strategol 2: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus

Nod strategol 3: Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf

Nod strategol 4: Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu

Nod strategol 5: Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

Nod strategol 6: Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned

¹⁰ Adroddiadau Blynnyddol ar y Strategaeth:
<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/wmesreport/?lang=cy>

Amcanion strategol a'r Rhaglen Weithredu

- 4.4 Mae 43 o amcanion strategol yn gysylltiedig â'r nodau strategol uchod, sydd yn sail ar gyfer Rhaglen Weithredu'r Strategaeth. Mae'r Rhaglen Weithredu wedi'i haddasu ychydig yn ystod oes y Strategaeth mewn ymateb i ddatblygiadau polisi ehangach.

Deilliannau a thargedau

- 4.5 Mae'r Strategaeth yn cynnwys pump o ddeilliannau er mwyn galluogi monitro cynnydd wrth roi'r Rhaglen Weithredu ar waith:

Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Deiliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Deiliant 3: Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deiliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Deiliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg

Ceir dangosyddion a thargedau penodol ar gyfer pob deiliant yn y Strategaeth.

- 4.6 Mae adrannau 4.28–4.48 isod yn ystyried y dystiolaeth ynghylch cynnydd yn erbyn y deilliannau a'r targedau.

Gweithredu a monitro'r Strategaeth

- 4.7 Uned y Gymraeg mewn Addysg (yr Uned) sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Strategaeth. O safbwynt strwythur sefydliadol Llywodraeth Cymru, mae'r Uned wedi'i lleoli o fewn Is-adran y Gymraeg, yn yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS).¹¹ Hyd at 2012, roedd yr Uned yn Is-adran y Cwricwlwm (AdAS).
- 4.8 Mae rôl ddeuol gan yr Uned mewn perthynas â'r Strategaeth. Yn gyntaf, mae'n gyfrifol am weithredu a monitro'r Strategaeth, drwy arwain ar rai datblygiadau polisi a chynllunio, e.e. Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a maes Cymraeg i Oedolion, a thrwy gomisiynu prosiectau i

¹¹ Ers 1 Gorffennaf 2015, mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn rhan o'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

gefnogi'r nodau a'r amcanion sydd ynddi. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Uned yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd. Yn ail, mae'r Uned yn gweithio i ddylanwadu ar bolisiau addysg yn fwy eang er mwyn sicrhau bod anghenion y sector cyfrwng Cymraeg yn cael eu prif ffrydio.

4.9 Sefydlwyd Grŵp Cynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y Strategaeth er mwyn rhoi cyngor i'r Gweinidog ar brif elfennau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- 'derbyn ac ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar gynnydd yn erbyn Rhaglen Weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- cynghori ar brif elfennau'r Rhaglen Weithredu;
- adnabod unrhyw ymchwil neu werthusiad a all gael ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol i gefnogi'r Strategaeth;
- adnabod blaenoriaethau strategol i'w datblygu i'r dyfodol; a chadw mewn cof egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru, sef: cyfle cyfartal; datblygu cynaliadwy; a chyfiawnder cymdeithasol.'

(Ffynhonnell: Cylch Gorchwyl Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg)

Dyraniadau ariannol i gefnogi gweithrediad y Strategaeth

4.10 Mae'r Uned yn gyfrifol am weinyddu cyllideb ar gyfer ystod o gynlluniau a rhaglenni i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg sydd yn rhan o'r Strategaeth, yn cynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg, y rhaglen gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, a'r Cynllun Sabothol ar gyfer ymarferwyr.

4.11 Wrth lansio'r Strategaeth yn 2010, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd swm ychwanegol o £1.725m i gefnogi gweithrediad y Strategaeth yn ystod 2010-11. O ganlyniad i'r dyraniad ychwanegol, cododd cyllideb yr Uned i dros £10m y flwyddyn honno. Mae Tabl 1 isod yn dangos dyraniadau'r Uned dros y chwe blynedd diwethaf. Dengys bod dyraniad blynyddol a gwariant yr Uned wedi cynyddu'n sylweddol ers

cyhoeddi'r Strategaeth. Y rheswm pennaf am y cynnydd yw'r ffaith bod yr Uned wedi cymryd cyfrifoldeb am weinyddu rhaglenni a oedd, cyn hynny, o dan reolaeth adrannau neu sefydliadau eraill, gan gynnwys cyllid Athrawon Bro a'r grant i Fudiad Meithrin a weinyddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg hyd at 2011-12.¹²

Tabl 1: Dyranid cyllid Uned y Gymraeg mewn Addysg, 2009-10 i 2014-15 (£)

	2009-10	2010-11	2011-12*	2012-13**	2013-14**	2014-15***
Cyfanswm dyranid UGA	8,372,000	10,097,000	12,377,000	16,412,000	16,030,000	21,278,587

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

* Dyranid 2011-12 wedi codi yn dilyn trosglwyddo £2.28m o'r Gronfa Ysgolion Gwell gynt

** Cyfanswm dyraniadau 2012-13 i 2014-15 yn cynnwys grantiau a weinyddwyd gynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

*** Cyfanswm dyranid 2014-15 yn cynnwys cyllid rheolaidd Cymraeg i Oedolion

4.12 Os ydym yn diystyru'r symiau a drosglwyddwyd i mewn i ddyraniad yr Uned, roedd dyraniad 2014-15 yn is na'r swm cyfatebol yn 2010-11 (£10.1 miliwn yn 2010-11 o gymharu â £9.6 miliwn yn 2014-15).

4.13 Mae'n bwysig nodi bod cyllideb yr Uned yn cynrychioli canran fach o'r gwariant cyhoeddus ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwariant yr Uned yn cefnogi gweithgareddau datblygiadol sy'n anelu at ddylanwadu ar waith a chapasiti'r sector cyfrwng Cymraeg a gwella darpariaeth iaith Gymraeg yn benodol.

Cydberthynas rhwng gwahanol elfennau'r Strategaeth

4.14 Un elfen bwysig sy'n dylanwadu ar weithrediad a grym y Strategaeth yw'r gydberthynas rhwng gwahanol elfennau'r Rhaglen Weithredu. Mae'r Strategaeth yn cynnwys amrediad eang o wahanol brosiectau ac ymyriadau, rhai ohonynt yn brosiectau sydd wedi'u hetifeddu ers cyn 2010 ac wedi'u cynnal, ac eraill yn ddatblygiadau mwy diweddar sy'n anelu at

¹² Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012 o dan ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Trosglwyddwyd dyletswyddau'r Bwrdd i Lywodraeth Cymru ac i Gomisiynydd y Gymraeg, swydd newydd a grëwyd dan y mesur.

ddylanwadu ar brosesau cynllunio ar draws y gyfundrefn. Nodwedd allweddol arall o'r Strategaeth yw'r ffaith ei bod yn cwmpasu holl elfennau'r gyfundrefn addysg. Un ffactor (a her) wrth weithredu dogfen bolisi mor eang ei sgôp yw sicrhau bod y weledigaeth ganolog (o dwf parhaus a chynllunio rhagweithiol) yn treiddio ar draws holl agweddau'r gyfundrefn addysg Gymraeg a phob haen o'r system ar lefel weithredol. Er mwyn hwyluso gweithrediad effeithiol y Strategaeth, felly, mae gofyn i bob agwedd o'r gyfundrefn addysg hwyluso twf parhaus wedi'i gynllunio yn rhagweithiol, o'r sector cyn-statudol, i'r cyfnod ôl statudol ynghyd â'r holl seilwaith angenrheidiol.

Effeithiolrwydd gweithrediad y Strategaeth

- 4.15 Yn ystod gwaith maes y gwerthusiad, amlygwyd nifer o faterion sy'n dylanwadu ar weithrediad y Strategaeth. Mae'r adran isod yn cyfeirio at y materion hyn, ac yn seiliedig yn bennaf ar y dystiolaeth a gynigiwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Strategaeth yn Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru

- 4.16 Cwblhawyd cyfweiliadau gyda 10 o swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau. Cynigiodd rhai swyddogion farn ar effeithiolrwydd y Strategaeth wrth hyrwyddo twf mewn addysg Gymraeg. Adroddodd y swyddogion hyn bod y sylw a roddir i gynllunio addysg cyfrwng Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru wedi cynyddu. Adroddwyd bod sawl ffactor wedi cefnogi hyn.
- 4.17 Yn gyntaf nodwyd bod addysg cyfrwng Gymraeg yn un o gamau allweddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a bod hyn wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth o waith yr Uned, a gweithrediad y Strategaeth, ar draws yr Adran Addysg a Sgiliau. Yn ail, mae Rhaglen Weithredu'r Strategaeth yn llywio gwaith Uned y Gymraeg mewn Addysg ac yn cael ei monitro gan swyddogion yr Uwch Wasanaeth Sifil yn yr Adran Addysg a Sgiliau. Yn drydydd, adroddwyd bod yr Uned yn rhan o drafodaethau yn gynharach yn y broses datblygu polisi ac yn medru dylanwadu ar gynnwys dogfennau polisi a chynlluniau strategol Llywodraeth Cymru. Yn olaf, adroddodd rhai

swyddogion bod y cysylltiadau gyda swyddogion canghennau ac is-adrannau eraill yr Adran Addysg a Sgiliau wedi cryfhau, yn rhannol o ganlyniad i'r broses o lunio a chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gynnydd y Strategaeth. Wrth lunio'r Adroddiadau Blynyddol mae gofyn i wahanol ganghennau ac is-adrannau'r Adran Addysg a Sgiliau adrodd ar eu cyfraniadau hwythau tuag at weithredu'r Strategaeth. Mae'r broses hon yn hwyluso trafodaethau mewnol ymysg swyddogion a cheir craffu ar yr Adroddiadau Blynyddol gan aelodau etholedig y Cynulliad Cenedlaethol.

- 4.18 Er bod cyfeiriadau at y Strategaeth mewn ystod eang o ddogfennau polisi a gyhoeddwyd ers 2010, ceir enghreifftiau hefyd lle nad oes cyfeiriad at gynllunio a darparu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.¹³ Codwyd cwestiynau gan rai o swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol ynglŷn â lefel y ddealltwriaeth ymysg swyddogion o'r anghenion wrth gynllunio polisi ar gyfer cyfundrefn addysg ddwyieithog. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol eraill bod dogfennau polisi a strategaethau yn tueddu i drin y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr un ffordd heb gynnig ystyriaeth ddigonol i ddarparu cefnogaeth arbenigol i'r sector addysg cyfrwng Cymraeg.
- 4.19 Gan ategu'r hyn a nodwyd uchod, tanlinellodd un cynrychiolydd o fudiad cenedlaethol bod gwahaniaeth pwysig rhwng ymwybyddiaeth o fodolaeth dogfen strategol a dealltwriaeth o oblygiadau gweithredu polisiâu a chynlluniau mewn ffordd sy'n cefnogi gweledigaeth a nodau canolog y Strategaeth honno.
- 4.20 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi dangos bod gweithdrefnau wedi'u cyflwyno sy'n sicrhau mwy o drafodaeth ar addysg cyfrwng Cymraeg gan garfan ehangach o swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes dystiolaeth gref o draweffaith amlwg y prosesau hyn ar y ffordd y cynllunnir polisi i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg.

¹³ Gweler dadansoddiad o gyfeiriadau at y Strategaeth mewn dogfennau polisi eraill yn adran 3.23-3.24 yr adroddiad interim.


Arweinyddiaeth ac atebolrwydd wrth weithredu'r Strategaeth

4.21 Dau fater cysylltiedig a bwysleisiwyd yn rheolaidd gan randdeiliaid ac ymarferwyr wrth drafod gweithrediad y Strategaeth oedd:

- i) pwysigrwydd sefydlu system atebolrwydd cadarn ar bob lefel; ac
- ii) yr angen am arweinyddiaeth gref (ar bob lefel) i sicrhau bod dulliau ac ansawdd y gweithredu yn cael eu herio os nad ydynt yn cyfrannu tuag at ddeilliannau'r Strategaeth.

Mae'r Strategaeth yn datgan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol '*am bennu ac arwain polisi cenedlaethol*'. Ceir cytundeb ymysg cyfranwyr i'r gwerthusiad hwn bod arweinyddiaeth effeithiol – ar y lefel genedlaethol ac wrth lunio a gweithredu cynlluniau lleol – yn hollbwysig i wireddu gweledigaeth y Strategaeth. Mae Ffigur 4 isod yn nodi'r gwahanol linellau atebolrwydd mewn perthynas â darparu addysg cyfrwng Cymraeg.

Ffigur 4: Llinellau atebolrwydd addysg cyfrwng Cymraeg



4.22 Yn ystod y gwerthusiad, ystyriwyd i ba raddau y mae'r 'system atebolrwydd' yn ddigon grymus i gefnogi gweithrediad effeithiol y Strategaeth. Codwyd cwestiynau gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch arweinyddiaeth uwch swyddogion yr Adran Addysg wrth gefnogi gweithrediad y Strategaeth. Mynegwyd barn gan rai o'r rhanddeiliaid y

cyfwelwyd â hwy nad oedd swyddogion yr Uwch Wasanaeth Sifil o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau wedi herio a chraffu'n ddigon gofalus ar weithrediad y Strategaeth.

- 4.23 Mae trefniadau yn eu lle gan yr Adran Addysg a Sgiliau i sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr yn gweithredu i gwrdd â gofynion statudol, gan gynnwys llunio CSGAau. Fodd bynnag, nododd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oes tystiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i ddangos sut y mae'r CSGAau yn arwain at weithredu sy'n gwireddu nodau a deilliannau'r Strategaeth. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwella'r craffu ar ansawdd y gweithredu er mwyn deall yn well pa draweffeithiau sy'n deillio o weithrediad y Cynlluniau Lleol.

Gweithredu'r Strategaeth yn ystod cyfnod o newid

- 4.24 Cyfeiriwyd ym Mhennod 3 at y datblygiadau polisi arwyddocaol a welwyd ers cyhoeddi'r Strategaeth yn 2010. Er bod y tirlun polisi wedi newid yn sgil amrywiaeth o adolygiadau polisi, nododd swyddogion Llywodraeth Cymru nad yw'r polisiau newydd a gyflwynwyd wedi golygu newid cyfeiriad Rhaglen Weithredu'r Strategaeth.
- 4.25 Gwelwyd newid strwythurol hefyd yn ystod y cyfnod gweithredu, sef adleoli Uned y Gymraeg mewn Addysg (gweler 4.7 uchod). Mae gwahaniaeth barn ymysg swyddogion Llywodraeth Cymru ar effaith y newid hwn. Teimla rhai bod adleoli'r Uned i Is-adran y Gymraeg, yn dilyn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, wedi pellhau staff ychydig oddi wrth gydweithwyr polisi addysg ac wedi gwneud y gwaith o gryfhau cysylltiadau gyda changhennau eraill yr Adran Addysg a Sgiliau yn fwy anodd. Fodd bynnag, nid oedd swyddogion eraill y Llywodraeth o'r farn bod y newid hwn wedi gwneud gwahaniaeth i weithrediad y Strategaeth.

Cynllunio polisi integredig

- 4.26 Wrth gyfeirio at gynllunio integredig, noda'r Strategaeth: *'Disgwyliwn weld awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol yn datblygu dulliau effeithiol o gydweithredu o ran cynllunio'*. Noda hefyd bod angen *'cynllunio cydlynol*

gan awdurdodau lleol a'u partneriaid [gydag] addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o broses gynllunio o'r fath' (Llywodraeth Cymru, 2010:11)

- 4.27 Cyfeiriodd nifer sylweddol o gyfranwyr (yn enwedig ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr astudiaethau ardal) at sefyllfaoedd sydd wedi codi lle mae canllawiau, polisïau a phenderfyniadau ar lefel leol yn milwrio yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau twf. Serch hynny, yn ddiweddar mae nifer o awdurdodau lleol wedi cyhoeddi newidiadau i bolisïau cludiant gan gyflwyno costau teithio sydd, ym marn rhai o'r rheiny y cyfwelwyd â hwy, yn achosi rhwystrau ariannol i fynediad at addysg Gymraeg.

'Mae sawl enghraifft wedi bod lle nad yw gwahanol elfennau o'r system yn tynnu yn yr un cyfeiriad – ar brydiau mae polisi llywodraeth yn cael ei danseilio gan benderfyniadau lleol. Rwy'n teimlo mai'r diffyg cysondeb sy'n rhwystredig i ysgolion – ac i rieni.' (Pennaeth ysgol uwchradd) (Cyfieithiad)

Cynnydd yn erbyn deilliannau

- 4.28 Mae'r adrannau isod yn cynnig trosolwg o gynnydd yn erbyn deilliannau'r Strategaeth. Ceir trafodaeth bellach o'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r deilliannau unigol ym Mhenodau 5-8.

Cynnydd yn erbyn Deilliant 1

- 4.29 Ystyriwn yn gyntaf y cynnydd yn erbyn Deilliant 1, sef *'Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg'*. Er mwyn mesur y cynnydd yn erbyn y deilliant hwn, defnyddir y dangosydd canlynol: 'canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf)'. Dengys y tabl isod y cynnydd a welwyd ers 2009, sef y gwaelodlin a nodwyd yn y Strategaeth. Gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd ers cyhoeddi'r Strategaeth. Cododd nifer y dysgwyr saith oed a asesir yn y Gymraeg (iaith gyntaf) o 6,365 yn 2009 i 7,594 yn 2014, sef cynnydd o 1,229 (neu 19.3 y cant). Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd cynnydd sylweddol yng

nghyfanswm y garfan o blant saith oed yn holl ysgolion Cymru. O ganlyniad, cynnydd cymedrol yn unig a welwyd yng nghanran y garfan a asesir yn Gymraeg dros yr un cyfnod, o 21.0 y cant i 22.2 y cant. Mae'n glir felly bod canran y dysgwyr Cymraeg (o bob oed) o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu i raddau helaeth ar dueddiadau a nifer y garfan gyffredinol (y dylanwadir arnynt gan gyfraddau geni a mewnfudo). Awgryma hyn bod angen ystyried gosod targedau blynyddol ar gyfer twf yn nifer y dysgwyr yn ogystal â thwf yn y ganran o'r garfan gyffredinol.

Tabl 2: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg (iaith gyntaf), 2009-2014

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	Targedau	
							2015	2020
Nifer	6,365	6,560	6,728	7,229	7,468	7,594		
Carfan	30,329	30,061	30,655	32,960	33,398	34,175		
%	21.0%	21.8%	21.9%	21.9%	22.4%	22.2%	25%	30%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth (2014-15)

4.30 Gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn saith oed ac mae'r ffigur wedi cynyddu i'w lefel uchaf erioed yn 2014. Fodd bynnag, er bod y cynnydd hwn wedi digwydd yn ystod ei hoes, ni ellir priodoli'r twf i ddylanwad y Strategaeth. Roedd y plant hyn naill ai eisoes yn y system addysg erbyn i'r Strategaeth gael ei chyhoeddi, neu mae'n debygol iawn bod eu rhieni wedi dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar eu cyfer heb fod y Strategaeth wedi cael dylanwad ar eu penderfyniad.

4.31 Gwelir hefyd bod y ganran yn fyr o'r targed a osodwyd ar gyfer 2015. Nodwyd hyn gan Lywodraeth Cymru yn 2013:

'ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn erbyn targedau'r strategaeth....[ac] rydym yn annhebygol o weld 25 y cant o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015.' (Llywodraeth Cymru, 2103e:3)

4.32 Mae'n bwysig nodi nad yw'r twf a welwyd yn gyson ar draws Cymru. Ers 2010, gwelwyd cynnydd yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg mewn 14 awdurdod lleol: cofnodwyd y cynnydd uchaf yn y ganran yng Nghaerffili (5.4 pwynt canran) ac yng Nghastell-nedd Port

Talbot (3.8 pwynt canran). Cafwyd gostyngiad yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg mewn wyth awdurdod lleol: gwelwyd y gostyngiad pwynt canran mwyaf yn Sir Benfro (2.2 pwynt canran) ac yng Ngheredigion (2.1 pwynt canran). Noda Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15 y bydd gofyn i'r wyth awdurdod lleol sydd wedi cofnodi gostyngiad yn Neilliant 1 ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ddangos yn eu CSGA diwygiedig yn 2015 sut y byddant yn mynd i'r afael â'r gostyngiad a welwyd.


Diben targedau cenedlaethol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

- 4.33 Codwyd cwestiynau gan sawl un o'r rhanddeiliaid cenedlaethol ynghylch i) diben y targedau cenedlaethol a ii) y berthynas rhwng targedau cenedlaethol a thargedau awdurdodau lleol. Mae'r Strategaeth yn modelu'r cynnydd sydd ei angen ar lefel siroedd unigol er mwyn cyrraedd y ffigur targed cenedlaethol, gan ystyried yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hanesyddol ar draws Cymru. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn cwblhawyd dadansoddiad o'r targedau ar gyfer 2017 sydd wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr holl awdurdodau lleol. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi gosod targedau pendant ar gyfer cynyddu darpariaeth. Roedd eraill wedi defnyddio rhagamcaniadau neu dueddiadau cyfredol fel sail ar gyfer eu targedau. Pe bai'r holl awdurdodau lleol yn cyrraedd eu targedau erbyn 2017, byddai oddeutu 24 y cant o ddysgwyr saith oed yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg ledled Cymru. Mae hyn yn brin o'r targed gwreiddiol ar gyfer 2015 ac yn sylweddol is na'r targed o 30 y cant erbyn 2020. Nododd nifer o randdeiliaid ac ymarferwyr eu pryderon ynghylch gallu'r targedau i yrru'r newid sydd ei angen er mwyn cyflawni gweledigaeth y Strategaeth. Awgryma hyn bod angen i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad o gyfraniad yr awdurdodau lleol unigol at y targed cenedlaethol er mwyn adnabod pa awdurdodau lleol ddylai osod targedau mwy heriol.

'Mae targedau'r Cynlluniau Strategol yn gyffredinol yn dangos diffyg uchelgais ar lefel leol a diffyg her ar lefel genedlaethol wrth graffu ar y cynlluniau hyn.' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

4.34 Gan edrych tuag at y targed ar gyfer 2020, sef bod 30 y cant o ddysgwyr saith oed yn cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf), mae'n ddiddorol ystyried gofynion a goblygiadau'r targed hwn o safbwynt nifer y dysgwyr ychwanegol fydd eu hangen yn y gyfundrefn addysg Gymraeg er mwyn cwrdd â'r targed. Dengys Ffigur 5 isod y cynnydd angenrheidiol (ar sail cynnydd linear) rhwng 2009 i 2020 er mwyn cyrraedd y targed o 30 y cant. Mae'r cynnydd hyd yma yn fyr o'r meincnod disgwyledig a phe bai'r llinell duedd yn parhau yn yr un modd a welwyd rhwng 2009 a 2013, rhagamcanir y cyrraedd canran o oddeutu 24.5 y cant erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd targed 2020 (sef 30 y cant), amcangyfrifir y byddai angen 1,900 yn fwy o ddysgwyr saith oed (neu mwy na 60 dosbarth ychwanegol o 30 o blant) yn y system addysg Gymraeg na'r hyn a ragamcanir erbyn 2020. Tanlinella hyn yr angen am gynllunio a gweithredu pellgyrhaeddol ar lefel leol os am gyrraedd y targed cenedlaethol.

Ffigur 5: Cynnydd yn erbyn targed 2020 ar gyfer canran y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysg yn y Gymraeg¹⁴



Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth (2014-15), Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Cynnydd yn erbyn Deilliant 2

4.35 Deilliant 2 y Strategaeth yw bod *‘mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd’*. Y dangosydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd yn erbyn y Deilliant hwn yw canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf). Gwelwyd cynnydd dros amser yn erbyn y dangosydd hwn, er ei bod yn ymddangos yn annhebygol y caiff targed 2015 ei gyrraedd.

¹⁴ Mae’r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar senario lle mae nifer y dysgwyr saith oed yn aros yn gyson rhwng 2013 a 2020 (bu amrywiadau yn niferoedd y dysgwyr saith oed o tua 30,000 a 34,000 yn y blynyddoedd rhwng 2003 a 2013). Byddai twf yn nifer y dysgwyr saith oed yn golygu bod angen twf cyfatebol yn nifer y dysgwyr saith oed sydd yn cael eu haddysg yn y Gymraeg.

Tabl 3: Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg, 2009-2014

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
Nifer	5,594	5,550	5,862	5,787	5,668	5,540		
Carfan	35,221	34,717	35,903	34,520	33,380	32,354		
%	15.9%	16.0%	16.3%	16.8%	17.0%	17.1%	19%	23%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynnyddol y Strategaeth (2014-15)

- 4.36 Mae'r dangosydd hwn yn fesur o'r nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg ond nid yw'n mesur sgiliau iaith yn benodol na chynnydd o safbwynt safonau addysgu a dysgu Cymraeg. Ceir trafodaeth bellach ar y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â dilyniant ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

Cynnydd yn erbyn Deilliant 3

- 4.37 Mae Deilliant 3 y Strategaeth yn anelu at *'[f]wy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg'*. Mae'r Deilliant hwn, a'r dangosyddion perthnasol, yn cynnig mesur o effeithiolrwydd y gyfundrefn gyllunio wrth gefnogi twf y sector. Ceir dau ddangosydd sy'n mesur cynnydd yn erbyn Deilliant 3:
- *Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg* (Dangosydd 3a); a
 - *Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg* (Dangosydd 3b).
- 4.38 Mae'r data mewn perthynas â Dangosydd 3a yn dangos amrywiaethau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Cyrhaeddwyd targed 2015 dair blynedd yn gynnar yn 2012, gydag 85.3 y cant o ddysgwyr Cymraeg iaith gyntaf yn sefyll o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, llithrodd y ganran yn ôl i 79.3 y cant yn 2014 (gweler Tabl 4).

Tabl 4: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, 2009-2014

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	Targedau	
							2015	2020
%	80.9%	79.5%	81.0%	85.3%	81.6%	79.3%	84%	88%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth (2014-15)

- 4.39 Gwelir patrwm tebyg ar gyfer Dangosydd 3b, gyda chynnydd rhwng 2009 a 2012. Cyrhaeddwyd targed 2015 yn gynnar unwaith eto (yn 2011), cyn i'r ganran ostwng yn sylweddol yn 2014.

Tabl 5: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, 2009-2014

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	Targedau	
							2015	2020
%	58.4%	59.7%	62.2%	64.9%	55.5%	52.5%	62%	68%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth (2014-15)

- 4.40 Mae Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn nodi bod nifer cynyddol y dysgwyr sy'n astudio pynciau galwedigaethol yn effeithio ar y targedau sy'n gysylltiedig â'r deilliant hwn. Mae'r twf yn nifer y dysgwyr sy'n astudio cyrsiau BTEC, yn arbennig, yn ffactor sy'n dylanwadu ar y data diweddaraf.¹⁵ Mae hyn yn sgil-effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ac yn dangos dylanwad datblygiadau allanol (h.y. ffactorau y tu hwnt i weithrediad y Strategaeth) ar y targedau cenedlaethol (ceir trafodaeth bellach ar nifer y pynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 yn adrannau 5.82-5.83). Nododd rhanddeiliaid mewn rhai awdurdodau lleol bod ymdrechion ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â cheisio symbylu'r galw ymysg dysgwyr 14-19 oed. Nododd rhai bod

¹⁵ Noda Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15 y cofrestrwyd 36,300 o ddysgwyr ar gyrsiau BTEC yn 2014 o'i gymharu ag 11,900 yn 2011.

prinder aseswyr cyfrwng Cymraeg gan rai byrddau arholi yn medru bod yn rhwystr ynghyd â diffyg adnoddau ar gyfer rhai pynciau.


Amrywiadau yn y data fesul awdurdod lleol

4.41 Wrth ystyried data ar gynnydd yn erbyn Deilliant 3, mae'n bwysig tynnu sylw at yr amrywiadau yn y data ar draws awdurdodau lleol Cymru. Yn ei adroddiad *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog* cyflwynodd Estyn ddata yn dangos gwahaniaethau sylweddol ar draws yr awdurdodau lleol. Nododd Estyn:

'mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn o leiaf ddau gwrs lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg, yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd lle ceir ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft Caerdydd, Bro Morgannwg a Wrecsam, o gymharu ag ardaloedd lle ceir ysgolion dwyieithog.' (Estyn, 2014a:10)

4.42 Dengys y data yn Ffigur 6 isod, sy'n seiliedig ar ddata mwy diweddar 2014-15 gan Lywodraeth Cymru, mai'r canrannau cymharol isel yng Ngheredigion, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin ac i raddau Conwy, sy'n tynnu'r ganran yn genedlaethol i lawr. Er mwyn cyrraedd targed 2020, bydd angen codi'r ganran yn y siroedd hyn sy'n perfformio'n is na'r cyfartaledd yn genedlaethol.

Ffigur 6: Data ar y ganran o'r dysgwyr sy'n dilyn Cymraeg iaith gyntaf, a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 drwy'r Gymraeg yn 2014-2015, fesul awdurdod lleol*




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

*Nodyn: Dim ond data ar gyfer 18 o awdurdodau lleol sydd yn y siart hwn. Mewn pedwar o'r awdurdodau, roedd llai na phum dysgwr wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf.

4.43 Mae Ffigur 7 yn dangos data mewn perthynas â Dangosydd 3b, sy'n cyfeirio at ganran y dysgwyr sy'n sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf, ac wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhywfaint o gysondeb yn yr awdurdodau gyda'r canrannau uchaf yn Ffigur 6 a Ffigur 7, er bod y canrannau yn Ffigur 7 yn sylweddol is. Gwelir y canrannau uchaf o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, Caerdydd a Wrecsam. Mae gan awdurdodau lleol Ynys Môn a Cheredigion y cyfrannau isaf o ddysgwyr Cymraeg iaith gyntaf yn dilyn o leiaf bum cwrs Lefel 1 neu Lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru, ardaloedd lle ceir cyfran uchel o ysgolion dwyieithog.

Ffigur 7: Data ar y ganran o'r dysgwyr sy'n dilyn Cymraeg iaith gyntaf, a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 drwy'r Gymraeg yn 2014-2015, fesul awdurdod lleol*



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

*Nodyn: Dim ond data ar gyfer 18 o awdurdodau lleol sydd yn y siart hwn. Mewn pedwar o'r awdurdodau, roedd llai na phum dysgwr wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf.

Cynnydd yn erbyn Deilliant 4

4.44 Mae Deilliant 4 y Strategaeth, yn anelu at *'[f]wy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith'*. Mae tri o ddangosyddion yn y Strategaeth sy'n mesur cynnydd yn erbyn y deilliant hwn, sef:

- Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu mewn:
 - Ysgolion;
 - Sefydliadau addysg bellach; a
 - Dysgu seiliedig ar waith.

4.45 Mae'r Strategaeth yn cyflwyno targedau ar wahân ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar gyfer y tri sector. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth yn cyfuno

data ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog.¹⁶ Mae'r data yn cyfleu darlun cadarnhaol mewn perthynas â'r deilliant hwn, gyda tharged 2020 ar gyfer ysgolion wedi'i gyrraedd. Gan gymryd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar y cyd, gwelwyd cynnydd hefyd yn erbyn y gwaelodlinau ar gyfer addysg bellach a dysgu yn y gweithle.

Tabl 6: Gweithgareddau addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fesul sector, 2009-2014

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	Targedau	
							2015	2020
Ysgolion	17.0%	17.1%	21.0%	17.4%	20.1%	20.5%	18%	20%
Sefydliadau AB	6.1%	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%	8.5%	7%	10%
Dysgu seiliedig ar waith	1.8%	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%	3.0%	2.5%	4%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth (2014-15)

4.46 Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig (h.y. heb gynnwys darpariaeth ddwyieithog) yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn parhau i fod yn isel iawn. Yn 2013/14, dim ond 1.7 y cant o weithgareddau addysg mewn sefydliadau addysg bellach oedd yn Gymraeg yn unig. Yn yr un flwyddyn, 0.3 y cant o weithgareddau dysgu seiliedig ar waith a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Cynnydd yn erbyn Deilliant 5

4.47 Deilliant 5 y Strategaeth yw bod '*mwyr o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg*'. Ceir dau ddangosydd yn y Strategaeth ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn Deilliant 5, sef:

- Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg (iaith gyntaf), ddwy flynedd yn gynharach (Dangosydd 5a);

¹⁶ Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau i gynyddu gweithgareddau addysg cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau dwyieithog. Mae Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth yn adrodd ar gynnydd ar sail y targedau hyn ar y cyd (h.y. gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog).

- Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (ail iaith) fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg (ail iaith) cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach (Dangosydd 5b).

4.48 Dengys y data bod y cynnydd yn erbyn y ddau ddangosydd hyn wedi cwmpo'n fyr o'r targedau a osodwyd yn y Strategaeth. Mae nifer y cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch wedi gostwng yn araf ac yn raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tra bod niferoedd Cymraeg iaith gyntaf TGAU wedi amrywio o 5,199 i 5,583 rhwng 2009 a 2014 (heb fod tuedd clir yn y data). Mae'r data yn dangos nad yw'r duedd hon wedi newid yn ystod oes y Strategaeth. Patrwm tebyg a welwyd yng nghyd-destun ffigurau Safon Uwch Cymraeg ail iaith, gydag Adroddiad Blynyddol 2014-15 yn nodi bod nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith *'wedi bod yn gostwng dros y tair blynedd diwethaf, a bellach wedi cyrraedd y nifer isaf dros gyfnod o ddeng mlynedd.'* (Llywodraeth Cymru, 2015b:28).

Tabl 7: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg iaith, ddwy flynedd yn gynharach, 2009-14

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
Nifer	345	363	357	303	315	279		
%	6.7%	6.7%	6.8%	5.5%	5.9%	5.3%	7%	9%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol 2014-15

Tabl 8: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch ail iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach, 2009-14

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
Nifer	593	497	542	511	434	409		
%	2.9%	2.4%	2.6%	2.3%	1.9%	1.8%	3.5%	4%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol 2014-15

Casgliadau ar weithrediad y Strategaeth

- 4.49 Mae'r Strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu addysg cyfrwng Cymraeg, gan ddatgan ymrwymiad i gefnogi twf y sector. Mae'r Strategaeth hefyd yn pennu dangosyddion clir i gyd-fynd â'r deilliannau a thargedau.
- 4.50 Uned y Gymraeg mewn Addysg sy'n gyfrifol am weinyddu cyllideb nifer o'r cynlluniau a rhaglenni sy'n ganolog i'r Strategaeth. Dyrannwyd peth arian ychwanegol yn ystod 2010-11 i gefnogi gweithrediad y Strategaeth. Yn ystod cyfnod y Strategaeth trosglwyddwyd grantiau a weinyddwyd gynt gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gyllideb yr Uned. Fodd bynnag, gan gymryd y trosglwyddiadau hyn i ystyriaeth, ni welwyd cynnydd yn y gyllideb i gefnogi gweithrediad y Strategaeth ar hyd y pum mlynedd 2010-15.
- 4.51 Sefydlwyd gweithdrefnau o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu a monitro'r Strategaeth a'i deilliannau. Mae hyn wedi arwain at fwy o graffu ar addysg cyfrwng Cymraeg gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau etholedig (drwy'r broses o drafod Adroddiadau Blyneddol y Strategaeth). Yn ogystal, mae systemau yn bodoli yn yr Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyried wrth gynllunio polisiau a strategaethau eraill. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir o draweffaith y Strategaeth ar weithrediad polisiau a rhaglenni'r Adran Addysg a Sgiliau. Nododd rhai swyddogion a rhanddeiliaid sefydliadau cenedlaethol eu bod o'r farn bod diffyg dealltwriaeth ymysg nifer o swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau o'r angen i gynllunio polisi mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion arbenigol y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn derbyn sylw priodol. Awgryma hyn yn gryf bod lle i wella'r ddealltwriaeth ar draws yr Adran Addysg a Sgiliau o'r gofynion y mae'r Strategaeth yn eu gosod ar gynllunwyr polisi addysg yn gyffredinol.
- 4.52 Ceir lefel gymharol uchel o ymwybyddiaeth o'r Strategaeth ymysg rhanddeiliaid cenedlaethol a swyddogion awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng ymwybyddiaeth o'r Strategaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol wrth gynllunio polisiau a rhaglenni mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion a gweledigaeth y Strategaeth honno.

- 4.53 Cesglir bod lle i gryfhau'r arweinyddiaeth o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau wrth yrru gweithrediad y Strategaeth. Wrth weithio tuag at gynyddu darpariaeth yn unol â deilliannau disgwyledig y Strategaeth mae angen sicrhau bod cynnydd yn cael ei herio gan uwch swyddogion a bod yr holl bartneriaid gweithredu yn cael eu dal yn atebol am eu cyfraniadau at dargedau.
- 4.54 Dengys y data amrywiaethau yn y cynnydd mewn perthynas â deilliannau'r Strategaeth. Mae nifer y plant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Gymraeg wedi tyfu yn ystod oes y Strategaeth. Serch hynny, dengys y data bod canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg yn fyr o'r targed a osodwyd ar gyfer 2015. Gwelwyd hefyd o'r data bod y sefyllfa yn amrywio ar draws Cymru gyda rhai awdurdodau lleol yn dangos gostyngiad yng nghanran y dysgwyr saith oed a asesir yn y Gymraeg. Patrwm tebyg a welwyd yn nghanran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg: bu ychydig o gynnydd yn y ganran ond heb gyrraedd targed 2015. Ar draws mwyafrif y dangosyddion ni welwyd cynnydd i'r graddau roedd Llywodraeth Cymru wedi gobeithio pan gyhoeddwyd y Strategaeth.
- 4.55 Mae angen i Lywodraeth Cymru ddychwelyd at y targedau cenedlaethol a osodwyd yn y Strategaeth ac ystyried eu diben a'u dilysrwydd. Os yw'r targedau a osodwyd ar gyfer 2020 yn parhau i fod yn dargedau 'byw', mae angen cynllunio a gweithredu radical er mwyn cyflymu'r twf mewn darpariaeth. Mae angen sicrhau cyswllt clir rhwng y targedau lleol a bennir ar gyfer darpariaeth ar hyd y cyfnodau addysg a thargedau cenedlaethol.

5 Cynllunio darpariaeth

- 5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried gweithredoedd a chynnydd mewn perthynas â Nodau Strategol 1 a 2, sef:

Nod Strategol 1: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn-statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.

Nod Strategol 2: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.

Mae hefyd yn trafod y dystiolaeth a data sy'n gysylltiedig ag elfen o Nod Strategol 3, sef:

Nod Strategol 3 (detholiad): annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.

- 5.2 Dechreuau'r bennod drwy gynnig trosolwg o brif elfennau'r drefn gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn hyn, ceir tystiolaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar;
- Cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dilyniant;
- Darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg 14-19;
- Darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Trefn gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

- 5.3 Mae amcan strategol 1.1 yn nodi bod *'disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg'*. Y CSGAau yw'r offerynnau ar gyfer ceisio cyflawni hyn a sicrhau *'cynllunio strategol, cydweithio rhwng darparwyr, dadansoddiad systematig o'r galw ac ymrwymiad i weithredu yn ôl y dystiolaeth o'r galw'* (Llywodraeth Cymru, 2010:12). Mae'r CSGAau yn greiddiol i'r broses o wireddu gweledigaeth y Strategaeth am eu bod yn amlinellu sut y mae awdurdodau lleol yn

gweithio i yrru twf addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel leol a chyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru.

- 5.4 Mae'r CSGAau'n adeiladu ar drefniant blaenorol y Cynlluniau Addysg Gymraeg a arferai gael eu gweithredu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ym mis Rhagfyr 2011, cyflwynodd awdurdodau lleol eu CSGAau cyntaf i Lywodraeth Cymru, ar sail anstatudol, yn amlinellu sut y byddent yn cyfrannu tuag at nodau'r Strategaeth. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn tanlinellu'r gydberthynas rhwng y Strategaeth a'r broses gynllunio newydd gan nodi y dylai'r cynlluniau lleol *'[d]angos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'* (Llywodraeth Cymru, 2013a:1).
- 5.5 Cyfeiria'r Strategaeth at *'ystyried y dewisiadau ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol'* (Llywodraeth Cymru 2010: 31). Aethpwyd y tu hwnt i ystyried dewisiadau ac, erbyn hyn, o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'r CSGAau yn ofyniad statudol ar awdurdodau lleol, gyda'r cynlluniau yn weithredol yn llawn ers Ebrill 2014. O dan ddarpariaethau'r Ddeddf hon mae'n rhaid i awdurdodau lleol lunio Cynlluniau sy'n cynnwys:
- 'targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal.' (Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 84)
- 5.6 Mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'u cynlluniau i Weinidogion Cymru, sydd â'r pŵer i gymeradwyo'r cynlluniau (gydag addasiadau neu beidio) neu eu gwrthod, gan ofyn i gynlluniau eraill gael eu paratoi yn eu lle. Mae'r Ddeddf hefyd wedi rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i lunio Rheoliadau sy'n pennu ffurf a chynnwys y cynlluniau, a gofynion wrth ymgynghori ynglŷn â'r cynlluniau (Llywodraeth Cymru, 2013h). Mae'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd yn 2013, yn gofyn bod awdurdodau, o dan rai amgylchiadau, yn asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, gan nodi yn eu CSGAau y camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i ateb y galw yn eu hardal am ofal plant cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg a nodir mewn asesiad ganddynt.

- 5.7 Mae cynllunio a buddsoddi arian cyfalaf i gefnogi cynlluniau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn greiddiol i wireddu amcanion y Strategaeth. Gofynnir i awdurdodau lleol, wrth lunio'u CSGAau, ystyried y gyd berthynas rhwng cynlluniau i gynyddu nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg a chynigion fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'n rhaid i awdurdodau *'sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'* (Llywodraeth Cymru, 2013a:9). Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chynigion ad-drefnu ysgolion ac yn datgan yr angen i ystyried y Strategaeth a CSGAau lleol wrth ddatblygu cynlluniau (Llywodraeth Cymru, 2013h:3).

Gwella mynediad a chynllunio ar gyfer dilyniant

- 5.8 Mae'r Strategaeth yn anelu tuag at wella mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Noda amcan 1.4 y Strategaeth bod *'disgwyl asesiad gwell o ddewisiadau rhieni o ran cyfrwng iaith y ddarpariaeth ar gyfer gofal plant, darpariaeth y blynyddoedd cynnar a darpariaeth yn y sector statudol'*. Rhoddir pwyslais yn y Rhaglen Weithredu ar sicrhau cyfleoedd yng nghymuned y plentyn ac ar annog awdurdodau lleol i gydweithio gyda darparwyr i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth. Ceir cyfeiriad penodol hefyd at *'sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y rhaglen Dechrau'n Deg'* (Llywodraeth Cymru, 2010:29).
- 5.9 Mae'r Strategaeth yn nodi bod sicrhau cyfleoedd ar gyfer dilyniant ieithyddol yn un o'i 'chonglfeini'. Mae disgwyl i awdurdodau lleol, wrth gwblhau eu CSGAau, nodi eu cynlluniau ar gyfer sicrhau dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg wrth i blant drosglwyddo rhwng cyfnodau addysg, gan gynnwys o'r cyfnod cyn-statudol i addysg statudol. Gofynnir iddynt nodi sut y bwriedir sicrhau parhad wrth i blant drosglwyddo o:
- addysg feithrin nas cynhelir i addysg feithrin a ariennir
 - y Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2
 - Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3
 - Cyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4.

- 5.10 Adroddodd adolygiad gan Estyn yn 2014 bod cyswllt uniongyrchol rhwng dilyniant ieithyddol ar hyd cyfnodau addysg a datblygiad sgiliau iaith Gymraeg (Estyn, 2014a). Dysgwyr sy'n trosglwyddo rhwng cyfnodau addysg o fewn y gyfundrefn addysg Gymraeg sy'n datblygu'r gallu gorau i drafod ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae sicrhau cyfraddau dilyniant uchel o fewn y gyfundrefn addysg Gymraeg ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol a thrwodd i addysg ôl-statudol yn hollbwysig i weledigaeth y Strategaeth o *'feithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol'*. Noda'r Strategaeth:

'mae sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dilyniant ieithyddol addas yn un o gonglfeini'r Strategaeth, ac mae'n berthnasol i bob cyfnod o'r blynyddoedd cynnar ymlaen.' (Llywodraeth Cymru, 2010:7)

Grant y Gymraeg mewn Addysg

- 5.11 Ers Ebrill 2012, mae Grant y Gymraeg mewn Addysg wedi cyfuno cyllid a weinyddwyd yn flaenorol gan nifer o gynlluniau grant oedd yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Grant yn darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae Canllawiau'r Grant yn datgan y dylid defnyddio arian y grant i gyflawni deilliannau CSGAau sydd, yn eu tro, yn cyfrannu at weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.
- 5.12 Cyflwynir ceisiadau grant gan gonsortia rhanbarthol, yn dangos sut y gweithredir cynlluniau a gweithgareddau ar draws awdurdodau perthnasol. Swm y Grant ar gyfer y cyfnod Ebrill 2014 i Fawrth 2015 oedd £5.63 miliwn i'w ddyrannu'n uniongyrchol i gonsortia, sydd yn gweinyddu dyraniadau i awdurdodau lleol ac ysgolion. Ceir rhagor o wybodaeth ar Grant y Gymraeg mewn Addysg ym Mhennod 6 yr adroddiad (gweler 6.33-6.38).

Darpariaeth blynyddoedd cynnar

- 5.13 Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg yn nodi pwysigrwydd tri mater creiddiol o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Gymraeg o fewn maes blynyddoedd cynnar:

- i. gwella dulliau ar gyfer asesu dewisiadau rhieni;

Adroddiad terfynol

- ii. gwella cynllunio ar sail canfyddiadau'r asesiadau hyn; a
- iii. annog cynyddu mynediad i ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'r themâu hyn yn ganolog i'r Strategaeth ac yn cyfrannu at y deilliant cyntaf, sef cynyddu nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r CSGAau hefyd yn rhan allweddol o'r broses o gynllunio a datblygu darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar. Caiff CSGAau eu bwydo gan yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant y mae awdurdodau lleol yn eu cwblhau er mwyn mesur natur a graddau'r angen am ofal plant yn eu hardal (gweler adran 5.24).

- 5.14 Rhoddir pwyslais yn *Adeiladu Dyfodol mwy Disglair*, sef cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd dair blynedd ar ôl y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ar sicrhau profiadau cadarnhaol i blant. Diffinnir y blynyddoedd cynnar fel '*y cyfnod bywyd o'r cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu 0-7 oed*' a chydabyddir bod '*profiadau yn ystod plentyndod cynnar yn holl bwysig o ran datblygiad hir dymor plant*' (Llywodraeth Cymru, 2013i:5). Noda *Adeiladu Dyfodol mwy Disglair* bod yn rhaid i'r darpariaethau gwahanol a gynigir fod yn rhai llesol o ran cefnogi datblygiad plant. O ganlyniad, sonnir am iechyd a lles, teuluoedd cadarn a chadarnhaol, addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel ac addysg gynradd dda yn ogystal â chodi safonau.
- 5.15 Adroddodd swyddogion Llywodraeth Cymru mai un her wrth weithredu'r Strategaeth ochr yn ochr â strategaeth *Adeiladu Dyfodol mwy Disglair* yw diwallu anghenion plant a'u rhieni tra'n cefnogi datblygiad cyfundrefn gynllunio effeithiol. Cyfeiriodd y swyddogion hyn at yr anawsterau wrth geisio cynllunio'r gyfundrefn, gan fod y maes blynyddoedd cynnar yn un cymhleth. Nododd swyddogion bod angen ystyried nifer o ffactorau wrth gynllunio darpariaeth, gan gynnwys:
- anghenion rhieni wrth ddewis gofal plant dydd ar sail cyfleuster a chost;
 - y berthynas rhwng gofal plant ac addysg gynnar;

- yr ystod o ddarparwyr gan gynnwys y sectorau nas cynhelir a phreifat;
- yr hawl i blant dderbyn 10 awr o addysg gynnar am ddim unwaith y bydd plentyn yn ddwy a hanner oed;
- dilyniant i addysg gynradd, a
- chynlluniau sydd wedi eu hanelu at blant a theuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig.

Ceir hefyd ystyriaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a datblygiad ieithyddol y plentyn. Sefydlwyd rhai mathau o ddarpariaeth yn y Gymraeg cyn y ffurfiolwyd y drefn o asesu anghenion, cynllunio a darparu yn y maes hwn a chyn bod llofydd addysg tair oed yn cael eu hariannu a bod cymaint o ysgolion Gymraeg ar gael.

- 5.16 Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr addysg cyn-ysgol cyfrwng Gymraeg i blant yng Nghymru. Mae'r Mudiad yn darparu nifer o wahanol ddarpariaethau gan gynnwys cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd, cylchoedd Ti a Fi i blant ifanc a'u rhieni/gofalwyr a chlybiau ar ôl ysgol. Adrodda Mudiad Meithrin eu bod yn gweithredu i greu 'modelau i annog dilyniant o'u darpariaethau i addysg Gymraeg' (Mudiad Meithrein, 2015). Mae bron i 60 y cant yn ddarpariaeth addysg y Cyfnod Sylfaen ac felly'n ddarostyngedig i arolygon Estyn ac hefyd i Arolygiaeth Gofal a Gwasnaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) . Mae'r ddau gorff rheoleiddiol yn gwarantu gwaelodlin safon ac ansawdd pob cylch. Mae nifer o gylchoedd meithrin yn rhan o raglen Dechrau'n Deg, un o gynlluniau trechu tlodi Llywodraeth Cymru (gweler hefyd 5.23-5.26). Derbynia Mudiad Meithrin grantiau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'i weithgareddau.

Tystiolaeth mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar

- 5.17 Mae'r dystiolaeth yn yr adran hon yn seiliedig ar ymchwil desg (gan gynnwys adolygiad o gynnwys CSGAau mewn perthynas â darpariaeth blynyddoedd cynnar), a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, awdurdodau lleol, darparwyr a rhieni fel rhan o'r astudiaethau ardal. Nid

yw'r gwerthusiad hwn wedi gallu ymchwilio yn fanwl i'r gwahanol drefniadau a'r gweithdrefnau lleol i gefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae'r dystiolaeth yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth blynyddoedd cynnar, sef darpariaeth i blant tair oed ac uwch. Ceir rhai cyfeiriadau hefyd at ddarpariaeth gofal plant dan gynllun Dechrau'n Deg.

- 5.18 Mae gofyn i awdurdodau lleol adrodd ar berfformiad cyfredol, cynnydd a thargedau mewn perthynas â darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg fel rhan o'u CSGAau. Mae'r modd y mae awdurdodau yn adrodd ar eu darpariaeth gyfredol a'u targedau ar gyfer y cyfnod hyd at 2017 yn amrywio. Mae rhai awdurdodau yn ymrwymo i *'sicrhau yr ystyrir yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar'*. Mae eraill yn fwy pendant, gydag un awdurdod yn cyfeirio yn ei CSGA at *'gynnig darpariaeth mewn ffordd ragweithiol er mwyn symbylu galw rhieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar'*. Mae natur y datganiadau hyn yn awgrymu gwahanol lefelau o ymrwymiad i gynyddu darpariaeth ac yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau asesiad strategol o'r ddarpariaeth ar lefel genedlaethol.
- 5.19 Mae rhai awdurdodau lleol yn gosod targedau penodol yn eu CSGAau ar gyfer gwella cyfraddau dilyniant rhwng darpariaeth Mudiad Meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dengys Cynlluniau'r awdurdodau bod ambell un hefyd yn cyflwyno data ar amrywiaethau yn y cyfraddau fesul ardal, sy'n eu galluogi i adnabod pa ardaloedd i'w targedu wrth geisio gwella'r dilyniant.
- 5.20 Yn ystod yr astudiaethau ardal, nododd rhai rhieni mewn grwpiau trafod nad oedd digon o gefnogaeth ac anogaeth yn ystod y blynyddoedd cynnar i gymell rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg a bod y broses yn or-ddibynnol ar *'unigolion brwdfrydig'*. Roedd mwyafrif y rhieni ar draws y chwe ardal o'r farn nad oedd digon yn cael ei wneud i farchnata manteision addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig i rieni di-Gymraeg neu lle'r oedd un rhiant yn siarad Cymraeg. Mewn un ardal, roedd pob rhiant di-Gymraeg (chwech allan o naw) a fynychodd grŵp trafod wedi eu cymell i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg gan yr un ymwelydd iechyd. Roedd

canfyddiad ymysg y rhieni hyn na fyddai nifer ohonynt wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg fel opsiwn i'w plant oni bai am yr un gweithiwr allweddol hwn.

'Roedd fy ngŵr i'n poeni am ddanfôn [enw dysgwr] i [enw ysgol Gymraeg] ond nes i ei wthio achos ei fod yn bwysig i mi. Ond mae cymaint o swyddi o gwmpas fan hyn lle mae angen y Gymraeg so mae angen i rywun ddweud wrth rieni bod y Gymraeg yn gallu helpu'ch plentyn i gael swydd.' (Rhiant)

'Ti'n gorfod mynd allan o dy ffordd i chwilio am y wybodaeth [am addysg Gymraeg], a dyw hynny ddim yn iawn achos dydy'r rhan fwy o rieni ddim yn 'dewis' ysgol, mae e jyst yn broses naturiol o fynd i'r ysgol leol.' (Rhiant) [Cyfieithiad]

- 5.21 Cafwyd tystiolaeth gan rieni a rhanddeiliaid o ddiffyg darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mewn dwy allan o'r chwe ardal. Mewn un ardal, nododd mwyafrif y rhieni mewn grŵp trafod (grŵp o chwe rhiant) bod diffyg llefydd ar gael mewn ysgolion a bod hyn yn gosod rhwystr sylweddol i rieni oedd â diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Ategwyd hyn gan rai ymarferwyr mewn ysgolion cynradd yn yr ardal honno.
- 5.22 Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfrannodd i'r gwerthusiad bod y CSGAau wedi helpu i ffurfioli cysylltiadau rhyngddynt a mudiadau allanol wrth drafod darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae CSGAau yn ymrwmo i adeiladu ar y cysylltiadau hyn drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Mudiad Meithrin a rheolwyr darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn trafod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Y cyswllt rhwng darpariaeth blynyddoedd cynnar a darpariaeth gofal plant, gan gynnwys Dechrau'n Deg

- 5.23 Er nad yw'r gwerthusiad hwn wedi ymchwilio'n fanwl i ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, cafwyd peth tystiolaeth ynghylch y prosesau a ddefnyddir i gynllunio'r ddarpariaeth, a chodwyd cwestiynau ynghylch dibynadwyedd y wybodaeth sydd ar gael ynghylch hyd a lled y ddarpariaeth. Mae hyn, yn ei dro, yn codi cwestiwn ynghylch gallu

awdurdodau i ddarparu'n briodol ar gyfer y galw. Yn 2012, dywedodd rhieni a gofalmwyr mewn 17 o Awdurdodau Lleol, fel rhan o ddadansoddiad o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru, '*nad oedd digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardal*'.¹⁷

- 5.24 Yn ystod y gwerthusiad o'r Strategaeth, adroddodd lleiafrif o randdeiliaid bod gwendidau yn yr wybodaeth ar faint o lefydd mewn meithrinfeydd sydd ar gael ar lefel leol a'r prosesau o fesur y galw am lefydd Cymraeg. Nododd y rhanddeiliaid hynny bod amrywiaethau yn y dulliau a ddefnyddir i fesur y galw am lefydd mewn meithrinfeydd yn yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, sydd yn bwydo CSGAau. Cefnogwyd hyn hefyd drwy ymchwil desg a gwblhawyd yn ystod y gwerthusiad i adolygu cynnwys sampl o asesiadau awdurdodau lleol. Mae'r data a gesglir yn seiliedig ar holiaduron sy'n gofyn am ddewisiadau iaith rhieni mewn gwahanol ffyrdd. Ceir defnydd amrywiol o derminoleg yn yr holiaduron wrth gyfeirio at ddewisiadau (e.e. defnyddir cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, cymysgedd o'r ddwy, dwyieithog). Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai sicrhau dull mwy cyson o gasglu a chofnodi gwybodaeth mewn perthynas â'r galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn golygu y gellid llunio data a dangosyddion mwy safonol, fyddai'n sail ar gyfer CSGAau yr awdurdodau lleol.
- 5.25 Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen i deuluoedd â phlant dan bedair oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae pedair elfen i Dechrau'n Deg, ac un ohonynt yw darparu gofal plant rhan-amser, o ansawdd, am ddim i blant dwy i dair oed. Noda rhai o'r CSGAau eu bod yn ymgynghori â rhieni er mwyn deall y galw am wasanaethau Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg. Adrodda un awdurdod bod eu tîm blynyddoedd cynnar yn adolygu eu llawlyfr lleol ar Dechrau'n Deg mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin er mwyn cynnwys gwybodaeth bellach ar addysg Gymraeg. Fodd bynnag, cyfeiriadau cyffredinol sydd i'r rhaglen yn y CSGAau gan amlaf, heb fod awdurdodau lleol yn egluro'n benodol sut y bwriedir mynd ati i

¹⁷ Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol, o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013, asesu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth gofal plant lleol yn rheolaidd. Cynhaliwyd asesiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ac Adran Addysg a Sgiliau, ac adroddwyd hyn yn Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2012/13.

sicrhau bod darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg yn ymateb i'r galw ymysg rhieni ac yn cyfrannu tuag at dargedau lleol ar gyfer twf addysg Gymraeg.

- 5.26 Yn ystod y gwerthusiad, cododd lleiafrif o randdeiliaid gwestiynau ynglŷn â nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael drwy raglen Dechrau'n Deg. Cyflwynwyd data gan un rhanddeiliad yn dangos bod y ganran o lefydd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol is na'r ganran o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg mewn dros hanner yr awdurdodau lleol. Awgrymodd y rhanddeiliad hwn y gallai twf y rhaglen honno weithio yn erbyn cynlluniau awdurdodau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau statudol.

Tystiolaeth mewn perthynas â chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod statudol

- 5.27 Mae'r is-adran hon yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol, penaethiaid ac uwch reolwyr ysgolion yn ystod yr astudiaethau ardal, ynghyd â thystiolaeth o'r arolwg penaethiaid mewn perthynas â chynllunio.

Gwella'r broses gynllunio

- 5.28 Ar draws y chwe ardal yr ymwelwyd â hwy, roedd swyddogion yn gytŷn bod y broses gynllunio newydd wedi esgor ar drefn fwy strwythuredig, rhywbeth '*yr oedd gwir angen amdano*' yng ngeiriau un uwch swyddog awdurdod lleol. Nododd swyddogion ar draws y chwe ardal bod y broses o ddatblygu'r cynlluniau gyda thempled cyson a chanllawiau cenedlaethol wedi bod yn ddefnyddiol. Cyfeiriodd swyddogion ym mhob awdurdod lleol at y berthynas '*adeiladol*' a '*chefnogol*' sydd wedi bodoli rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau wrth lunio a chytuno ar y Cynlluniau. Ym mhob un o'r chwe ardal, nododd swyddogion bod y broses o ddrafftio'r CSGAau, derbyn adborth a gwelliannau wedi ffurfioli a chryfhau trefniadau cynllunio. Roeddynt hefyd yn cydnabod bod gosod y CSGAau ar lefel statudol wedi codi proffil addysg cyfrwng Cymraeg ac wedi sicrhau mwy o sylw na fyddai'r cynlluniau wedi ei dderbyn oni bai am

hynny. Nododd swyddogion awdurdodau lleol bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig gwelliannau i gynnwys a thargedau'r cynlluniau drafft ac wedi gweithio gyda'r awdurdodau i gryfhau'r dogfennau (gweler '*Ymgynghori a chydweithio*', isod).

- 5.29 Roedd penaethiaid yr holl ysgolion yn y chwe ardal yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r astudiaethau ardal yn cefnogi nodau'r Strategaeth i wella'r broses o gynllunio darpariaeth. Roeddynt i gyd yn gefnogol o'r ymdrechion i ffurfioli'r broses gynllunio drwy'r CSGAau ond roedd amrywiaeth barn ar ba mor effeithiol y bu'r prosesau hynny hyd yn hyn.
- 5.30 Mewn dwy allan o'r chwe astudiaeth ardal roedd ysgolion o'r farn bod datblygu'r CSGA yn yr awdurdod lleol wedi cyfrannu at wella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Mewn tair ardal arall roedd yr ysgolion yn amau a oedd y CSGAau wedi arwain at unrhyw newidiadau sylweddol o ran gweithredu.
- 5.31 Nododd yr holl randdeiliaid a gyfrannodd at y gwerthusiad eu bod yn cefnogi'r pwyslais yn y Strategaeth ar wella prosesau cynllunio. Mynegodd rhanddeiliaid eu cefnogaeth i'r ffaith bod y CSGAau yn statudol a'u bod yn cynnig cyfle i awdurdodau flaengynllunio yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Ymgynghori a chydweithio

- 5.32 Ym mhob un o'r chwe ardal, nododd swyddogion awdurdodau lleol bod y broses o ddatblygu'r CSGAau wedi sicrhau mewnbwn nifer ehangach o swyddogion ac aelodau etholedig fel rhan o drafodaethau ar gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd swyddogion yn hanner yr ardaloedd bod y broses hon wedi sicrhau bod swyddogion a oedd yn arfer gweithio'n annibynnol ar elfennau penodol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg (e.e. cefnogi cyrhaeddiad, darpariaeth blynyddoedd cynnar) yn cydweithio'n fwy effeithiol. Adroddodd swyddogion ar draws yr awdurdodau bod y broses o sefydlu fforymau addysg cyfrwng Cymraeg gyda chynrychiolaeth o ysgolion, colegau a mudiadau lleol hefyd wedi hwyluso trafodaethau ar gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai

awdurdodau yn dal yn y broses o sefydlu fforymau yn ystod cyfnod y gwerthusiad.

- 5.33 Mae'r *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Cymru) 2013 yn cyfeirio at yr angen i awdurdodau ymgynghori â nifer o sefydliadau sef: Comisiynydd y Gymraeg; Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant; cynghorau ysgol; Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); *'unrhyw sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol'*; ac *'unrhyw bersonau neu gyrff eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol'*.
- 5.34 Adroddodd hanner yr awdurdodau lleol y cyfwelwyd â hwy eu bod yn ymgynghori â phob ysgol a phennaeth wrth lunio'u CSGA. Mewn dwy o'r astudiaethau ardal, nododd yr ysgolion eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r CSGA a bod yr awdurdod yn cefnogi twf yn y sector cyfrwng Cymraeg drwy weithredu'n rhagweithiol. Mewn tair o'r astudiaethau ardal, cafodd ysgolion lai o fewnbwn i'r CSGA. Cynhaliwyd un astudiaeth ardal ar lefel ranbarthol (gan gynnwys ysgolion ar draws sawl awdurdod lleol) ac o fewn yr ardal honno roedd amrywiaeth barn ymysg yr ysgolion a'r awdurdodau lleol. Mewn un o'r awdurdodau lleol, nododd yr ysgolion eu bod wedi cael cryn fewnbwn i'r broses o ddatblygu'r CSGA lleol a bod datblygu'r cynllun wedi bod yn gam cadarnhaol wrth gynllunio darpariaeth. Roedd barn yr ysgolion mewn dau awdurdod lleol arall yn y rhanbarth yn llai cadarnhaol, gan nodi nad oeddynt wedi gweld unrhyw newid sylweddol o ran gweithredu ers datblygu'r CSGAau.
- 5.35 Adroddodd lleiafrif o benaethiaid ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn yr astudiaethau ardal nad oeddent wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori ar ddatblygiad y CSGAau nac yn ymwybodol bod trefniadau cynllunio wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd ymwybyddiaeth uwch o'r Strategaeth a'r deilliannau ymysg y penaethiaid hynny. Roedd rhai o'r farn bod angen rôl gryfach i benaethiaid yn y broses o lunio cynnwys y CSGAau, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd canfyddiad nad oedd awdurdodau'n blaengynllunio ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg. Awgryma hyn bod lle i wella'r ffordd y mae rhai awdurdodau yn ymgysylltu

ag ysgolion wrth ddatblygu eu CSGAau ac yn cynllunio darpariaeth at y dyfodol.

'Mae niferoedd disgyblion cynradd wedi tyfu'n aruthrol o gyflym a dydy'r awdurdod heb ddelio â'r diffyg llefydd [uwchradd] fydd i'r plant hyn ymhen dwy neu dair mlynedd. Mae pawb yn gwybod bod angen ehangu'r llefydd uwchradd ond a oes ewyllys wleidyddol i wneud hynny? Does dim yn y cynllun lleol.' (Pennaeth ysgol uwchradd)

'Ry'n ni'n lwcus fan hyn. Mae'r berthynas gyda'r awdurdod yn dda achos bod yr ysgol yn cael ei gweld fel un llwyddiannus. Ma nhw'n dod atom ni gyda'r WESP ac yn gofyn i ni beth ddylai fod ynddo felly mae hwn yn rhoi dylanwad i ni ar y broses gynllunio. Nid yw hynny'n digwydd yn [awdurdodau cyfagos] yn bennaf oherwydd gwleidyddiaeth leol ac mae hyn yn drueni mawr.' (Pennaeth ysgol uwchradd)

- 5.36 Ym mwyafrif yr astudiaethau ardal, nododd swyddogion bod datblygu'r CSGAau ar draws yr holl awdurdodau lleol wedi arwain at fwy o drafodaethau a chyd gynllunio ar lefel rhanbarthol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, er bod ymdrechion i gynllunio ar y cyd adroddodd rhanddeiliaid a phenaethiaid bod diffyg capasiti i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol, yn eu barn nhw, yn rhwystr i gydweithio a blaengynllunio darpariaeth. Ategwyd hyn mewn adroddiad gan Estyn ym mis Mehefin 2015 a nododd nad oes digon o gymorth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn dau allan o'r pedwar consortiwm (Estyn 2015).

Atebolrwydd

- 5.37 Roedd yr holl swyddogion yn gytûn bod y broses statudol wedi gwella'r craffu mewnol yn eu hawdurdod lleol. Nododd y mwyafrif bod hyn wedi sicrhau bod uwch swyddogion ac aelodau etholedig ar lefel sirol yn rhoi mwy o sylw i'r sector nac yn y gorffennol. Nododd rhai rhanddeiliaid cenedlaethol a chynrychiolwyr mudiadau lleol bod y Cynlluniau wedi bod yn arf iddynt herio penderfyniadau awdurdodau lleol. Ceir tystiolaeth bod y broses o lunio a monitro'r Cynlluniau wedi ymestyn y cyfleoedd i gynnal

trafodaethau ar gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg rhwng swyddogion y sir, ysgolion a cholegau, a rhanddeiliaid lleol.

- 5.38 Nododd rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru bod y mecanwaith cynllunio newydd wedi bod yn arf i 'roi pwysau' ar awdurdodau lleol i gynnwys cynigion cadarn ar gyfer ysgolion newydd mewn rhai ardaloedd. Gwelwyd datblygiadau arwyddocaol eraill: er enghraifft mae un awdurdod lleol wedi ymrwmo yn ei CSGA i '*symud ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd y continwmm iaith*'. Golyga hyn weithio gyda chyrff llywodraethu ac ysgolion i osod amserlenni pendant ar gyfer trawsnewid, er enghraifft, ysgolion dwy ffrwd/trawsnewidiol i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.¹⁸ Roedd rhanddeiliaid ac ymarferwyr yn yr awdurdod hwnnw o'r farn bod hwn yn ddatblygiad pwysig gyda'r potensial i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir.

Dylanwad a deilliannau'r broses gynllunio

- 5.39 Adroddodd rhanddeiliaid cenedlaethol beth rhwystredigaeth ynghylch uchelgais a thraweffaith y Cynlluniau hyd yma. Y negeseuon mwyaf cyffredin a leisiwyd gan rhanddeiliaid a chynrychiolwyr sefydliadau cenedlaethol oedd:
- y bwlch rhwng gweledigaeth/nodau strategol, a'r gweithredu ar lefel leol: adroddodd rhanddeiliaid nad oedd y Strategaeth wedi arwain at newid sylfaenol yn y ffordd y mae mwyafrif o'r awdurdodau yn gweithredu nac yn cynllunio;
 - anghysondeb o safbwynt ansawdd y data ar lefel leol ar y galw am addysg Gymraeg, sy'n dylanwadu ar natur cynlluniau awdurdodau: awgrymodd rhanddeiliaid nad yw rhai awdurdodau yn dal data cyfredol ar lefel y galw gan rieni, nac wedi ymrwmo i gynnal asesiadau mesur y galw er mwyn gosod sail gadarn ar gyfer cynllunio darpariaeth;
 - yr angen i awdurdodau lleol, wrth gynllunio, sicrhau eu bod yn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau cyn-statudol a statudol.

¹⁸ Diffinnir ysgolion trawsnewidiol fel ysgolion sy'n gyfrwng Cymraeg yn bennaf ond lle y mae defnydd sylweddol o Saesneg yn *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2007). Dim ond dros dro y bydd ysgolion yn y categori hwn fel arfer.


- 5.40 Nododd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid ac ymarferwyr enghreifftiau ar draws Cymru o fylchau mewn darpariaeth (a thystiolaeth o alw) ac yn eu barn hwy nid yw'r Strategaeth na'r broses o lunio'r CSGAau eto wedi arwain at weithredu i lenwi'r bylchau hyn. Nododd un pennaeth ysgol uwchradd nad yw creu system gynllunio newydd ar sail statudol ynddo'i hun yn sicrhau cynlluniau strategol cadarn. Ategodd cynrychiolydd un mudiad cenedlaethol hyn gan nodi bod modd cydymffurfio â'r holl ofynion sydd yn y rheoliadau mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol *'a serch hynny, fe all fod yna ddiffygion yn y cynlluniau'*. Tanlinella hyn bwysigrwydd perchnogaeth o'r cynlluniau (a chefnogaeth i nodau'r Strategaeth genedlaethol) ymysg uwch-swyddogion awdurdodau lleol, aelodau etholedig a rhanddeiliaid lleol perthnasol.
- 5.41 Yn yr ardaloedd lle nad oedd yr ysgolion yn teimlo bod y broses o ddatblygu'r CSGAau wedi cael dylanwad amlwg, roedd rhai penaethiaid o'r farn nad oedd gan eu hawdurdod lleol y *'capasiti na'r ewyllys'* i ddatblygu CSGAau digon uchelgeisiol neu sy'n medru sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth. Roedd rhai o'r farn bod eu hawdurdod lleol yn gweld y CSGAau fel proses o gydymffurfio â gofynion gweinyddol yn hytrach na fel cyfle i weithredu'n flaengar er mwyn sicrhau twf y sector cyfrwng Cymraeg. Nododd un pennaeth ysgol uwchradd bod *'ymagwedd o ddifaterwch'* ymysg swyddogion yr awdurdod tuag at gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac nad oedd hyn wedi newid ers cyhoeddi'r Strategaeth.

Barn penaethiaid ysgolion ar ddylanwad y Strategaeth ar gynllunio darpariaeth

- 5.42 Gofynnwyd i benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd ymateb i gyfres o ddatganiadau ynglŷn â chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r arolwg penaethiaid a gwblhawyd fel rhan o'r astudiaeth (gweler Atodiad 5 am fanylion ar yr arolwg). Mae Ffigur 8 isod yn dangos ymatebion i'r datganiad *'Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi gwella yn yr awdurdod lleol ers 2010'*. Cytunodd y mwyafrif o benaethiaid (54 y cant) gyda'r datganiad hwn (27 y cant yn cytuno a 27 y cant yn cytuno i raddau). Nid oedd chwarter (26 y cant) yn cytuno na'n anghytuno, gyda lleiafrif (17 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau gyda'r

datganiad. Gwelir rhai amrywiaethau fesul sector. Yn gyntaf, mae canran uwch o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cytuno bod cynllunio darpariaeth wedi gwella, o gymharu â'r cyfartaledd ar draws yr holl ysgolion. Ar y llaw arall, mae'r ganran o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n anghytuno gyda'r datganiad yn sylweddol uwch na'r grwpiau eraill, gyda bron i draean (32 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau.

Ffigur 8: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi gwella yn yr awdurdod lleol ers 2010'




Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

*Mae 'Holl ymatebwyr' yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig

5.43 Gofynnwyd i benaethiaid p'un ai oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad bod eu hawdurdod lleol yn 'cynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg'. Roedd mwyafrif y penaethiaid (61 y cant) yn cytuno gyda'r datganiad (32 y cant yn cytuno a 29 y cant yn cytuno i raddau; gweler Ffigur 9 isod). Unwaith eto, gwelir bod cyfran uwch o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cytuno bod awdurdodau lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda 31 y cant o ysgolion cynradd Cymraeg yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau bod y cynllunio yn effeithiol yn eu hawdurdodau lleol hwy.

Ffigur 9: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg'




Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

*Mae 'Holl ymatebwyr' yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig

Barn ar y modd y mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

5.44 Gofynnwyd i benaethiaid ysgolion am eu hymateb i'r datganiad 'Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn effeithiol i'r galw gan rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'. Dengys y data yn Ffigur 10 bod 57 y cant o'r holl ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno i raddau gyda'r datganiad. Fodd bynnag, mae amrywiaethau yn y data rhwng y sectorau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Nododd cyfran sylweddol o benaethiaid ysgolion Saesneg nad oeddent yn cytuno na'n anghytuno. Ymysg penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd canran uchel yn cytuno neu'n cytuno i raddau bod yr awdurdod lleol yn ymateb yn effeithiol i alw rhieni am addysg Gymraeg (75 y cant o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a 64 y cant o benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg). Roedd lleiafrif yn anghytuno (22 y cant o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a 27 y cant o benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg).

Ffigur 10: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn effeithiol i'r galw gan rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

*Mae 'Holl ymatebwyr' yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig

- 5.45 Ceir rhywfaint o wrthgyferbyniad rhwng y neges a gyflëir yn y data uchod a'r dystiolaeth ansoddol a gyflwynwyd yn ystod elfennau eraill y rhaglen ymchwil. Cafwyd tystiolaeth yn ystod ymweliadau ag ysgolion a chyfweiliadau gyda rhanddeiliaid bod rhai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn 'araf' neu yn 'gyndyn' i ymateb i'r galw am addysg Gymraeg.

'Does dim un ysgol cyfrwng Cymraeg wedi agor [yn yr awdurdod lleol] ers 1997. Rydym ar ddeall fod galw cynyddol ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg, ond ni chafwyd ymateb hyd yma.' (Pennaeth ysgol gynradd)

'Teimlaf fod angen cynllun hirdymor er mwyn cwrdd â'r galw i ddarparu addysg gyfrwng Gymraeg ar draws y ddinas. Poeni ydwyf am y nifer sy'n troi at addysg ddi-Gymraeg oherwydd prinder lleoedd.' (Pennaeth ysgol gynradd)

'Mae gwendidau yn y gwybodaeth ar faint o lefydd sydd ar gael a'r prosesau o fesur y galw am lefydd Cymraeg. Mae llawer o amrywiaeth yn y dulliau a ddefnyddir i fesur galw am lefydd meithrin yn arbennig.' (Cynrychiolydd sefydliad cenedlaethol)

Tystiolaeth ar ddylanwad y Strategaeth ar gynllunio lefel ysgol

- 5.46 Fel rhan o'r astudiaethau ardal, cwblhawyd ymweliadau â 10 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac 20 o ysgolion cynradd Cymraeg neu ddwyieithog yn ystod y gwerthusiad, a chafwyd cyfle i drafod gyda phenaethiaid, aelodau uwch-dimau rheoli, athrawon pwnc a dysgwyr. Rhoddodd hyn gyfle i ystyried i ba raddau y mae blaenoriaethau a chynlluniau mewnol ysgolion yn adlewyrchu'r 'cyfeiriad polisi cenedlaethol', sef amcan strategol AS1.3 y Strategaeth.
- 5.47 Nododd mwyafrif y penaethiaid ac athrawon nad y Strategaeth oedd prif yrrwr strategol polisïau a gweithrediadau o fewn yr ysgol. Roedd pwyslais uwch ar gwrdd â gofynion a thargedau strategaethau a pholisïau cenedlaethol eraill, gyda'r ffocws yn bennaf ar safonau a chyrhaeddiad. Ymddengys mai'r rhain yw prif flaenoriaethau ysgolion yn ôl yr hyn a ddisgrifiwyd gan fwyafrif yr ymarferwyr.
- 'Yr agenda safonau sy'n gyrru ein gwaith ni mwy na dim arall yn yr ysgol. Dyma rydym yn cael ein mesur yn ei erbyn gan yr awdurdod lleol, gan yr Arolygaeth a gan rieni.'* (Pennaeth ysgol uwchradd)
- 5.48 Ni chafwyd tystiolaeth i ddangos bod y Strategaeth wedi newid y ffordd y mae addysg Gymraeg yn cael ei chynllunio a'i darparu ar lefel ysgol. Ceir ymwybyddiaeth o'r Strategaeth (ymysg penaethiaid uwchradd yn fwy na phenaethiaid ysgolion cynradd) ond nid yw'n amlwg bod y Strategaeth wedi dylanwadu ar ddarpariaeth yn yr ystafell ddosbarth nac ar brofiad dysgwyr (er bod y rhaglen ymchwil wedi nodi dylanwad gweithredoedd a phrosiectau sy'n rhan o'r Strategaeth, e.e. drwy adnoddau a gomisiynwyd). Fodd bynnag, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, drwy eu datganiadau cenhadaeth, eu gweithdrefnau, y gefnogaeth a roddir i ddysgwyr a'r gwaith o hybu manteision dwyieithrwydd, yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â gweledigaeth y Strategaeth.
- 5.49 Nid oedd y garfan fach o rieni a gyfrannodd i'r gwerthusiad yn ymwybodol o ddylanwad y Strategaeth, nac yn wir o ddylanwad polisïau cenedlaethol eraill, ar flaenoriaethau ysgolion. Roedd rhieni yn y gwahanol ardaloedd yn gytûn mai ansawdd y ddarpariaeth yw'r ffactor pwysicaf iddyn nhw wrth ddewis ysgol.

'Os yw'r ysgolion Cymraeg yn perfformio i safon uchel ac yn profi eu hunain o safbwynt canlyniadau ac enw da, yna hyn fydd yn ysgogi twf.' (Rhiant â phlant mewn ysgol uwchradd a chynradd)

'Pan mae rhieni yn siarad gyda'i gilydd am wahanol ysgolion, trafod pa mor dda mae'r ysgol 'da ni'n ei wneud, nid cynlluniau cenedlaethol.' (Rhiant plant ysgol uwchradd)

Cynllunio darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid

- 5.50 Yn ystod y gwerthusiad, casglwyd peth tystiolaeth ynghylch darpariaeth i hwyrddyfodiaid, sef darpariaeth ar gyfer y rhai a ddaw yn hwyr at system addysg lle ceir defnydd arferol o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Casglwyd tystiolaeth drwy ymchwil desg a thrwy ymweliadau ag awdurdodau lleol fel rhan o'r astudiaethau ardal. Crynhoir y dystiolaeth yn yr adrannau isod.
- 5.51 Mewn tair o'r chwe astudiaeth ardal, roedd yr awdurdodau yn darparu gwasanaethau i hwyrddyfodiaid mewn canolfannau iaith. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth, yn seiliedig ar gyrsiau trochi dwys ac ôl-ofal gan arbenigwyr gyda'r nod o drosglwyddo dysgwyr i'w hysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cyfnod o gefnogaeth.
- 5.52 Adroddodd sawl awdurdod lleol bod ymateb i anghenion hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn her wrth gynllunio darpariaeth ar hyd y blynyddoedd diweddar. Mae twf poblogaeth rhai siroedd gwledig wedi golygu bod awdurdodau lleol wedi ehangu'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid, gan gynnwys buddsoddi amser ac adnoddau i gynnal canolfannau iaith mewn rhai awdurdodau. Pwysleisiwyd pwysigrwydd darpariaeth o'r fath gan awdurdodau lleol, gydag un yn nodi yn ei CSGA bod canolfannau iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid yn cynnig cyfle i fewnfudwyr i Gymru *'i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog'*.
- 5.53 Trafodwyd gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol sy'n darparu rhaglenni i hwyrddyfodiaid yn ystod y gwerthusiad. Tanlinellodd y cynrychiolwyr hyn bwysigrwydd sefydlu cysylltiadau da rhwng canolfannau iaith ac ysgolion: cynigiwyd enghreifftiau lle mae canolfannau yn rhannu adroddiadau

cynnydd a gwybodaeth ar lefelau iaith dysgwyr gyda phenaethiaid yr 'ysgolion cartref' perthnasol.

- 5.54 Ceir cytundeb ymysg mwyafrif y rhanddeiliaid a nifer o rieni bod darpariaeth o'r fath yn hollbwysig, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r iaith Gymraeg yn iaith gymunedol gryf. Cynigiodd rhieni mewn dwy ardal ganmoliaeth uchel i'r cynlluniau ar gyfer hwyrddyfodiaid yr oedd ganddynt brofiad ohonynt.
- 5.55 Mewn dwy o'r ardaloedd trafodwyd cynlluniau trochi hwyr i ddysgwyr uwchradd, sef darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno profi addysg cyfrwng Gymraeg yn hwyrach yn eu gyrfa addysgol. Mae modd i awdurdodau lleol ddefnyddio Grant y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi eu gwaith yn y maes hwn. Yn ôl ymarferwyr sy'n gweithio mewn canolfannau trochi mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfnod cymharol fyr. Adrodda Estyn bod ansawdd y ddarpariaeth drwy gynlluniau trochi yn uchel a bod dysgwyr yn cael eu hintegreiddio yn effeithiol yn dilyn y gefnogaeth.

Tystiolaeth mewn perthynas â dilyniant rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3

- 5.56 Mae'r Strategaeth yn ymrwmo i gefnogi dilyniant ieithyddol cadarn ar hyd yr holl gyfnodau addysg, gan nodi fod hyn yn un o'r congffeini ar gyfer meithrin dinasyddion dwyieithog y dyfodol.
- 5.57 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2012, *Hyrwyddo dilyniant ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3*, gan amlinellu'r prif faterion y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion eu hystyried wrth hyrwyddo dilyniant rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Y ffactorau allweddol y mae'r canllaw yn eu hadnabod ar gyfer cefnogi dilyniant yw:
- ymrwymiad gan benaethiaid ac athrawon pontio i egwyddor dilyniant;
 - ymwybyddiaeth ymhlith penaeithiaid ac athrawon pontio o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd fel sgîl;
 - dealltwriaeth rhwng y sector cynradd ac uwchradd bod angen cynllun strategol i hwyluso dilyniant;

- arweiniad a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol;
- cefnogaeth gan lywodraethwyr i addysg Gymraeg;
- ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr a dysgwyr o fanteision dwyieithrwydd ar gyfer byd gwaith a bywyd cymunedol.

- 5.58 Mae'r data a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i golli nifer o ddysgwyr i'r sector cyfrwng Saesneg. Mae Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth yn cyfeirio at nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg a gollir ledled Cymru rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r angen i leihau'r 'gollod' mewn rhai awdurdodau penodol er mwyn cyflawni targedau'r Strategaeth. Mae'r data yn nodi gwelliannau dros gyfnod y Strategaeth yn y cyfraddau dilyniant a bod y bwlch rhwng canran y dysgwyr a aseswyd yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 9 o'i gymharu â'r ganran a aseswyd yn y Gymraeg dair blynedd yn gynharach, pan oeddent ym Mlwyddyn 6, yn lleihau. Serch hynny, dengys data Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15 bod 820 yn llai o ddysgwyr a asesir yn 13 oed nag a aseswyd yn Gymraeg pan oedd y garfan honno yn 11 oed (sy'n cyfateb i 12.9 y cant o'r cyfanswm). Collir y nifer uchaf o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn rhanbarth y de orllewin a chanolbarth Cymru (385, sy'n cyfateb i dros 16.5 y cant o'r garfan yn 2011).
- 5.59 Dengys data a gyhoeddwyd mewn adroddiad gan Estyn ym mis Tachwedd 2014 bod cyfran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn disgyn o 19.8 y cant yng Nghyfnod Allweddol 2, i 16.3 y cant yng Nghyfnod Allweddol 3, ac yna i 15.3 y cant yng Nghyfnod Allweddol 4. (Estyn 2014a:9-10).

Tabl 9: Canran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf wrth symud o Gyfnodau Allweddol 2 i 4 (yn seiliedig ar ddysgwyr a oedd yn 11 oed yn 2008)

Ardal	Cyfnod Allweddol 2 2008*	Cyfnod Allweddol 3 2011*	Cyfnod Allweddol 4 2013*	Canran y boblogaeth sirol sy'n medru'r Gymraeg**
Gwynedd	99.8%	83.0%	80.0%	65.4%
Ynys Môn	96.9%	63.3%	67.5%	57.2%
Ceredigion	73.5%	61.2%	56.6%	47.3%
Sir Gaerfyrddin	48.6%	35.4%	33.0%	43.9%
Sir Ddinbych	21.8%	20.7%	20.3%	24.6%
Conwy	21.2%	16.4%	15.6%	27.4%
Sir Benfro	17.4%	12.7%	12.3%	19.2%
Rhondda Cynon Taf	16.2%	17.0%	15.8%	12.3%
Castell Nedd Port Talbot	15.3%	9.6%	9.6%	15.3%
Powys	14.2%	12.2%	11.3%	18.6%
Merthyr Tudful	14.1%	0.0%	0.0%	8.9%
Penybont-ar-Ogwr	11.9%	6.9%	6.1%	9.7%
Caerdydd	10.8%	10.7%	10.3%	11.1%
Caerffili	9.8%	9.4%	9.3%	11.2%
Abertawe	9.1%	9.0%	8.8%	11.4%
Bro Morgannwg	8.5%	7.5%	7.4%	10.8%
Sir y Fflint	8.3%	6.0%	6.0%	13.2%
Wrecsam	8.0%	8.9%	8.2%	12.9%
Blaenau Gwent	5.2%	0.0%	0.0%	7.8%
Torfaen	5.1%	11.5%	10.7%	9.8%
Sir Fynwy	2.6%	0.0%	0.0%	9.9%
Casnewydd	2.5%	0.0%	0.0%	9.3%
Cymru	19.8%	16.3%	15.3%	19.0%

*Ffynhonnell : Llywodraeth Cymru [Adroddwyd yn Estyn, 2014]

**Data cyfrifiad cenedlaethol 2011.

Nodyn: mewn rhai ardaloedd, mae dysgwyr sy'n dilyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn symud i ardaloedd eraill i barhau ag addysg Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

5.60 Mae'r data yn Nhabl 9 uchod yn ddadlennol. Yn gyntaf, gwelir bod y gostyngiad mwyaf yng nghyfrannau'r dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf erbyn Cyfnod Allweddol 4 yn yr awdurdodau lleol gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion. Byddai sicrhau bod canrannau uwch o ddysgwyr yn parhau

mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo ar hyd y cyfnodau addysg yn y siroedd hyn yn cael dylanwad sylweddol ar gyrhaeddiad yn erbyn Deilliant 2 y Strategaeth.

- 5.61 Ceir tystiolaeth bod y mecanweithiau cynllunio sydd wedi deillio o'r Strategaeth wedi codi ymwybyddiaeth o'r angen i gyflwyno gweithgarwch i wella dilyniant. Mae CSGAau yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer cefnogi dilyniant ar draws y gwahanol gyfnodau addysg (rhoddir sylw i ddilyniant yn y cyfnod 14-19 yn hwyrach yn y bennod hon). Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth i ddangos cyswllt rhwng gweithredu'r Cynlluniau a newidiadau mewn cyfraddau dilyniant.
- 5.62 Cafwyd ystod eang o sylwadau ar ddilyniant gan benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd. Adroddir bod cefnogaeth gref gan awdurdodau i gynorthwyo dilyniant mewn rhai ysgolion. Nododd pennaeth un ysgol uwchradd bod gan *'swyddogion addysg yr awdurdod ddealltwriaeth ardderchog o anghenion ysgolion wrth gefnogi dilyniant'* cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd hefyd bod ymdrechion gan awdurdodau ac ysgolion dwyieithog a dwy ffrwd i sicrhau bod cyfran uwch o ddysgwyr yn parhau i astudio Cymraeg iaith gyntaf *'yn dechrau dwyn ffrwyth'* gyda nifer fach o benaethiaid yn nodi cynnydd yn niferoedd y dysgwyr sy'n trosglwyddo i ffrydiau cyfrwng Cymraeg.
- 5.63 Nododd carfan arall o benaethiaid nad oeddent wedi gweld newid yn y sefyllfa ers 2010 a bod nifer o'r materion allweddol sy'n dylanwadu ar gyfraddau dilyniant yn dal i fod yn bresennol.

'Mae'r disgyblion yn yr ysgol hon yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ond eto nid oes rheidrwydd arnynt i barhau gyda addysg drwy gyfrwng y Gymraeg pan maent yn trosglwyddo i'r uwchradd.' (Pennaeth ysgol gynradd)

'Does dim llawer o newid wedi bod – yn dal i golli disgyblion rhwng cyfnodau, yn arbennig rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.' (Pennaeth ysgol uwchradd)

- 5.64 Roedd nifer o benaethiaid o'r farn bod trefniadaeth a chategorïau ieithyddol ysgolion yn dylanwadu ar batrymau dilyniant a phenderfyniadau rhai rhieni i newid cyfrwng. Cyfeiriodd hanner dwsin o benaethiaid uwchradd at ddylanwad modelau addysgu dwyieithog sy'n gyffredin mewn rhai ardaloedd o Gymru lle mae'n *'ddigon arferol i ddysgwyr symud rhwng ffrydiau – a hynny bron bob tro o'r Gymraeg i'r Saesneg'*.


'Mae dryswch yn bodoli o ran categoreiddio rhai ysgolion. Mae hyn yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth gan rieni ac felly mae nifer o blant yn disgyn trwy'r rhwyd a ddim yn derbyn Addysg Gymraeg.' (Pennaeth ysgol uwchradd)

'Mewn ysgol ddwyieithog yr her yw sicrhau cefnogaeth rhieni er mwyn annog dilyniant ieithyddol. Nid oes gan yr awdurdod bolisi addas ar gyfer sicrhau dilyniant perthnasol o CA2 i CA3. Golyga hyn fod canran uchel o ddisgyblion yn newid cyfrwng wrth drosglwyddo i ysgolion uwchradd.' (Pennaeth ysgol uwchradd) [Cyfieithiad]

- 5.65 Codwyd materion cysylltiedig yn ystod ymweliadau ag ysgolion ac yn ystod cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Nododd penaeithiaid eu bod yn teimlo bod nifer o rieni yn gwneud y penderfyniad i symud eu plant i ffrydiau Saesneg ar ddechrau CA3 heb sylweddoli'n llawn yr effeithiau ar sgiliau iaith Gymraeg eu plant erbyn iddynt orffen addysg statudol. Pwysleisiwyd yr angen i ysgolion ac awdurdodau gydweithio gyda llywodraethwyr a rhieni wrth drafod polisiau lleol sy'n ymwneud â dilyniant ieithyddol. Mewn dwy o'r ardaloedd yn arbennig, cyfeiriodd penaeithiaid yn gyson at yr angen i wneud rhagor i wella ymwybyddiaeth ymysg rhieni o fanteision dwyieithrwydd a'r golled i sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr wrth newid i addysg cyfrwng Saesneg.
- 5.66 Mae data'r arolwg penaeithiaid ar ddilyniant ieithyddol yn ategu'r amrywiaeth barn a welwyd yn y sylwadau ansoddol a gyflwynwyd mewn cyfweiliadau gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid. Atebodd ychydig yn llai na hanner (47 y cant) eu bod yn cytuno neu'n cytuno i raddau bod dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010. Nododd dros chwarter nad ydynt yn cytuno na'n anghytuno bod dilyniant wedi gwella, gydag un o bob pump o'r ymatebwyr (21.9 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau.

5.67 Wrth edrych ar y data fesul sector, mae cyfran uwch o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn adrodd bod dilyniant ieithyddol cyfrwng Cymraeg wedi gwella, gyda dau draean o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno i raddau.

Ffigur 11: Ymateb penaeithiaid i'r datganiad: 'Mae dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaeithiaid (Arad 2015)

Cynllunio darpariaeth 14-19

5.68 Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth 14-19. Dechreuwa drwy amlinellu yn fras rôl CSGAau wrth gefnogi darpariaeth 14-19. Mae'n ystyried traweffaith rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, gan gynnwys y cyllid grant, ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, a'r ffactorau allanol a allai fod yn dylanwadu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth i'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gael ei weithredu.

Cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a'r gyd berthynas â'r Strategaeth

- 5.69 Cyflwynwyd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gyda'r nod o sicrhau cwricwlwm sy'n cynnig dewis ehangach o bynciau o ansawdd uchel i ddysgwyr 14-19 oed ledled Cymru. Nodir yn y ddogfen *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 Canllawiau ar y cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4*:
- ‘Mae'r Mesur wedi sicrhau bod cwricwla lleol yn cael eu creu a fydd yn cynnwys ystod eang o gyrsiau a chyfleoedd y bydd gan ddysgwyr 14–19 oed yng Nghymru yr hawl i ddewis ohonynt. Mae hefyd yn nodi hawl dysgwyr i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd ganddynt.’ (Llywodraeth Cymru, 2014f:2)
- 5.70 Mae'r Rheoliadau a gyhoeddwyd i gefnogi gweithrediad y Mesur yn datgan bod yn rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnig lleiafswm o 25 cwrs Lefel 2 i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru (yn wreiddiol, gosodwyd 30 cwrs fel y lleiafrif i ffurfio arlwy'r cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 ond newidiwyd i 25 cwrs ym mis Chwefror 2014 yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth). Mae'n rhaid i dri o'r cyrsiau hyn fod yn gyrsiau galwedigaethol. O dan y Rheoliadau mae'n rhaid sicrhau 30 o ddewisiadau i ddysgwyr 16-18 oed, a rhaid i bump o'r rhain fod yn gyrsiau galwedigaethol.
- 5.71 Mae Adran 23 y Mesur yn cyfeirio'n benodol at ddatblygu cwricwla lleol cyfrwng Gymraeg:
- ‘Rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau o ran cwricwla lleol er mwyn hyrwyddo mynediad i ac argaeledd cyrsiau astudio sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.’ (Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009)
- 5.72 Mae cysylltiadau clir rhwng y canllawiau cwricwlwm sy'n deillio o ddarpariaethau'r Mesur a Nod Strategol 2 y Strategaeth. Wrth gynllunio cwricwla lleol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad at gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a ‘*dangos eu bod wedi ystyried yn llawn y parhad a'r dilyniant ieithyddol wrth ddatblygu cyrsiau ar gyfer y cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4*’ (Llywodraeth Cymru, 2014f:6). Mae hyn yn gyson gyda'r pwyslais sydd yn y Strategaeth ar wella'r ‘cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg’ a ‘c[h]ynllunio ar gyfer darpariaeth sy'n sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i mewn i gyrsiau ôl-16’ (Llywodraeth Cymru, 2010:15). Mae'r ddogfennaeth

sy'n cefnogi gweithrediad y Mesur yn gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu a chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

'Ni ddylid cymryd unrhyw gamau a fyddai'n effeithio'n anffafriol ar gyfran bresennol y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynigir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dylai unrhyw gynnydd mewn cyrsiau o fewn cwricwlwm lleol a gynigir drwy ysgol cyfrwng Cymraeg felly olygu cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.' (Llywodraeth Cymru, 2014f:8)

Wrth ystyried gweithrediad y Mesur o safbwynt y dysgwr unigol, nodir:

'Lle bydd disgybl yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, yna wrth lunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer yr ysgol honno, rhaid i awdurdod lleol sicrhau y gall y disgybl fanteisio ar gwricwlwm lleol sy'n bodloni'r lleiafswm y mae gan ddysgwyr hawl iddo.' (Llywodraeth Cymru, 2014f:8)

- 5.73 Mae cysondeb, felly, rhwng darpariaethau'r Mesur a chyfeiriad strategol y Strategaeth. Ystyrir isod y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â gweithdrefnau cynllunio ar gyfer darpariaeth 14-19.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a darpariaeth 14-19

- 5.74 Mae gofyn i awdurdodau lleol ddangos yn eu CSGAau sut y byddant yn gweithredu i gefnogi Deilliannau 3 a 4 y Strategaeth, sef sicrhau bod mwy o fyfyrwyr 14-16 ac 16-19 yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y CSGAau yn nodi y cyfunir y deilliannau hyn *'er mwyn adlewyrchu natur y cynllunio fel rhan o gynllunio darpariaeth Llwybrau Dysgu 14-19'*. Fel y nodwyd yn adran 5.9 uchod, mae angen hefyd i'r CSGAau gynnwys cynlluniau ar gyfer sicrhau dilyniant rhwng Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y CSGAau yn pwysleisio'r angen i awdurdodau lleol gefnogi cydweithio rhwng ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.
- 5.75 Mae CSGAau yn amlinellu ystod eang o ymrwymadau gan awdurdodau i gefnogi darpariaeth 14-19. Ceir cyfeiriadau yn y CSGAau at gynyddu canrannau myfyrwyr 14-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; at wella'r cydweithio gyda phartneriaid strategol a rhwydweithiau rhanbarthol fel sail ar gyfer gwella cynllunio; at wella cyfundrefnau casglu data ar lefel ranbarthol i hwyluso cynllunio; at 'adnabod anghenion ieithyddol y dyfodol a datblygu Rhaglenni Dysgu

addas'. Mae awdurdodau yn nodi targedau ar gyfer cynyddu darpariaeth yn y cyfnod 14-19. Serch hynny, CSGAau lleiafrif o awdurdodau lleol yn unig sy'n disgrifio camau gweithredu penodol i egluro sut y caiff yr ymrwymïadau eu gwireddu, gan enwi darparwyr a meysydd darpariaeth i'w datblygu. Wrth adrodd ar gynnydd yn erbyn y CSGAau, mae rhai awdurdodau yn amlinellu gweithgareddau a datblygiadau penodol sydd ar y gweill i gefnogi darpariaeth 14-19.

Rhwydweithiau Rhanbarthol 14-19

- 5.76 Mae Rhwydweithiau Rhanbarthol 14-19 yn paratoi Cynlluniau Datblygu Rhwydweithiau Blyneddol (Cynlluniau Rhanbarthol 14-19) ac yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. Mae'r cynlluniau trawsffiniol hyn yn amlinellu sut y bydd awdurdodau yn cyd gynllunio a chydweithio i gefnogi darpariaeth 14-19, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau llwybrau dilyniant priodol.
- 5.77 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Datblygu Rhwydweithiau Blyneddol yn cyfeirio at y gyd berthynas rhwng y Cynlluniau hyn a pholisïau (a phrosesau cynllunio) eraill i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg, yn benodol y CSGAau.
- 5.78 Elfen arall o drefniadau cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 yw'r gwaith a wneir gan y tri Fforwm cyfrwng Cymraeg (y Fforymau) yng ngogledd Cymru, de orllewin a chanolbarth Cymru, a de Cymru. Mae'r Cynlluniau Rhanbarthol 14-19 yn nodi sut y bydd y Fforymau yn ychwanegu gwerth i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy hybu cydweithio ar draws y sectorau. Maent yn cefnogi nifer o amcanion strategol y Strategaeth, gan gynnwys hyrwyddo a rhannu arferion da wrth gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwelir isod enghreifftiau o'r gweithgareddau mwyaf cyffredin a nodwyd yng nghynlluniau'r fforymau yn 2014/15:
- datblygu a chefnogi Cymunedau Dysgu Proffesiynol (CDPau), gan dargedu pynciau blaenoriaeth, sy'n cynnig cyfleoedd i ymarferwyr

ddod at ei gilydd, cydweithio ar gynllunio a chreu adnoddau ar gyfer dysgwyr;

- cynnal gweithgareddau all gyrsiol i ddysgwyr a myfyrwyr i gyfoethogi eu haddysg;
- cynadleddau pynciol ar gyfer dysgwyr a myfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn atgyfnerthu'r addysgu sydd yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

Cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod 14-19

- 5.79 Ers 2008/09 neilltuwyd cyllid penodol i gefnogi twf ystod o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Diben y cyllid hwn oedd sicrhau bod dewis digonol o gyrsiau galwedigaethol ar gael yn y sector cyfrwng Cymraeg a'u bod yn cydymffurfio â gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.
- 5.80 Gwelir yn Nhabl 10 isod sut y mae'r cyllid hwn wedi cynyddu ac yna wedi gostwng yn sylweddol yn ystod oes y Strategaeth. Y rheswm dros y gostyngiad yn 2014/15 oedd trosglwyddo'r cyllid ar gyfer cyrsiau ôl-16 i'r System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol newydd. O ganlyniad dim ond darpariaeth 14-16 oedd yn addas ar gyfer derbyn cyllideb grant Llwybrau Dysgu, a gwelwyd gostyngiad cyfatebol i'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Uned y Gymraeg mewn Addysg wedi cyfrannu tuag at y gyllideb hon ers 2008/09. Dylid nodi nad dim ond y grant a neilltuwyd a ddefnyddid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bod nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r prif grant refeniw yn ogystal i gefnogi darpariaeth.

Tabl 10: Cyllid grant 14-19 ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg

	(£)						
Blwyddyn ariannol	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Cyfraniad Uned y Gymraeg mewn Addysg		200k	400k	400k	300k	250k	180k
Grant wedi'i neilltuo	1.2m	1.4m	1.6m	1.6m	1.45m	1.341m	455k

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5.81 Gwelwyd newidiadau i'r System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol ôl-16 yn 2014/15 sydd yn dylanwadu ar y ffordd y mae ysgolion a cholegau yn trefnu a blaengynllunio darpariaeth. Bellach mae'r system hon yn cyllido ysgolion a cholegau addysg bellach ar sail rhaglenni cyflawn, yn hytrach na gweithgareddau dysgu. O dan y drefn newydd parheir i neilltuo elfen o'r cyllid ar gyfer cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae hynny yn seiliedig ar y lefel o addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 a gofnodir gan y ysgolion a cholegau. Mae hyn yn sicrhau bod dyraniadau i ddarparwyr yn adlewyrchu faint o addysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg a wneir mewn ysgolion a cholegau. Ynghyd â'r System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn amlinellu ei flaenoriaethau mewn llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach (gweler adran 5.97).

Tystiolaeth ymchwil desg: data ar bynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

5.82 Cwblhawyd dadansoddiad o ddata gweinyddol er mwyn ystyried newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod 14-19 yn ystod oes y Strategaeth. Darparwyd data gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a chan Gyrfa Cymru i alluogi cymhariaeth o'r pynciau cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ystod y flwyddyn y lansiwyd y Strategaeth a'r sefyllfa ddwy flynedd yn ddiweddarach. Mae'r data hyn yn cynnig darlun o'r cyflenwad pynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac felly'n wahanol i fesuryddion Deilliant 3 (gweler adran 4.42) sy'n seiliedig ar gofrestrïadau dysgwyr ar ddau/bump o bynciau cyfrwng Cymraeg. Nid oedd data ar gael i alluogi cymhariaeth gyfatebol ar gyfer darpariaeth 16-19. Cyflwynir y data fesul rhanbarth ac yn genedlaethol yn Nhabl 11 isod. Dengys y data y bu cynnydd yn nifer y pynciau cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd ar draws pob un o'r pedwar consortiwm rhwng 2010/11 a 2012/13. Mae'r tabl yn cynnwys data ar bynciau dwyieithog ond mae angen ymdrin â'r data hyn â gofal.¹⁹ Mae'n glir o'r data bod nifer y cyrsiau dwyieithog yng ngogledd Cymru ac yn y de

¹⁹ Dengys y data craidd bod amrywiaethau yn y ffordd y mae ysgolion yn adrodd ar gyrsiau dwyieithog, gyda lleiafrif yn cofnodi darpariaeth Cymraeg ail iaith fel cwrs dwyieithog, er nad yw'r grant erioed wedi cefnogi'r pwnc hwn.

orllewin a'r canolbarth yn uwch na'r rhanbarthau eraill, a hynny'n adlewyrchu proffil ieithyddol ysgolion mewn rhannau o'r gogledd a'r gorllewin lle mae mwy o ysgolion dwy ffrwd a dwyieithog. Gan edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig yng Nghyfnod Allweddol 4, gwelir cynnydd o 17.6 y cant yn nifer y pynciau a gynigiwyd ar draws Cymru rhwng 2010/11 a 2012/13.

Tabl 11: Nifer y pynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigiwyd yng Nghyfnod Allweddol 4 2010/11–2012/13

Rhanbarth	Nifer y pynciau a gynigiwyd 2010/11		Nifer y pynciau a gynigiwyd 2012/13 (Nifer y dysgwyr a gofrestrwyd ar y cyrsiau hyn)		Nifer y pynciau a gynigiwyd
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Cymraeg +/- (%)
Gogledd Cymru	198	738	246	762	+24.2
			(12,543)	(23,212)	
Canol de Cymru	274	10	336	14	+22.6
			(14,283)	(847)	
De ddwyrain Cymru	74	8	84	10	+13.5
			(3,473)	(911)	
De orllewin a chanolbarth Cymru	313	253	344	198	+9.9
			(15,443)	(7,777)	
Cymru	859	1,009	1,010	984	+17.6

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru

5.83 Mae'r data uchod yn cefnogi tystiolaeth a gyflwynwyd gan benaethiaid a nododd bod y Mesur Dysgu a Sgiliau wedi creu gofyniad ar ddarparwyr i gynnig ystod eang o bynciau, hyd yn oed os nad oes tystiolaeth glir o'r galw am yr holl ddewisiadau a gynigir. Er bod darparwyr yn rhannu'r cyfrifoldeb am gynnig isafswm o 25 cwrs ar Lefel 2 trwy gydweithio a darparu ar y cyd, mae hyn yn dal i greu costau i ysgolion a cholegau.

Tystiolaeth gan ymarferwyr mewn perthynas â chynllunio darpariaeth 14-19

- 5.84 Clywyd tystiolaeth yn ystod ymweliadau ag ysgolion fel rhan o'r astudiaethau ardal i gefnogi'r hyn y mae'r data yn yr adran flaenorol yn ei nodi, sef bod ystod y dewisiadau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr yn y cyfnod ôl-14 wedi cynyddu ers cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Esboniodd ymarferwyr bod y gofynion i ehangu'r gronfa bynciau wedi ysgogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion a bod mwyafrif yr ysgolion yn yr ardaloedd hynny yn teimlo bod y cydweithio wedi gwella. Nododd pennaeth un ysgol uwchradd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn trafod cynllunio darpariaeth '*mewn ffordd fwy strategol*' nag yn y gorffennol. Nid oedd y pennaeth hwn yn priodoli'r newid hwn i ddylanwad y Strategaeth, fodd bynnag.

'Mae'n adlewyrchu y sefyllfa rydym ynnddi – mae cyllid yn brin, mae gofynion arnom ni fel darparwyr i gynnig mwy o ddewis i ddysgwyr ac i weithio ar lefel ranbarthol. Wrth reswm, mae'n gwneud synnwyr i gydweithio ac ystyried darparu ar y cyd lle mae hynny'n bosibl.' (Pennaeth ysgol uwchradd)

- 5.85 Cafwyd tystiolaeth i ddangos bod y gweithgareddau a ariannwyd gan y fforymau cyfrwng Cymraeg 14-19 wedi hwyluso cydweithio rhwng ysgolion mewn rhai ardaloedd. Fel rhan o'r astudiaethau ardal, cynigiodd un pennaeth ysgol enghraifft lle mae pedair ysgol uwchradd yn rhannu athrawes Seicoleg '*ac felly yn cynnig y pwnc yng Nghyfnod Allweddol 5 i bawb am 25 y cant o'r gost*'. Cafwyd nifer o enghreifftiau eraill tebyg mewn gwahanol ardaloedd o Gymru lle mae cydweithio wedi arwain at ehangu'r dewis o bynciau i ddysgwyr 14-19. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn wedi bod yn shifft ar draws y sector ers nifer o flynyddoedd mewn ymateb, i raddau helaeth, i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.
- 5.86 Cyfeiriodd penaethiaid at nifer o ddatblygiadau ar y cyd sydd wedi cefnogi cydweithio a chyflwyno darpariaeth mewn meysydd newydd. Nodwyd bod Cymunedau Dysgu Proffesiynol (a gefnogwyd drwy'r Fforymau 14-19) wedi bod yn llesol wrth adeiladu arbenigedd a chapasiti ysgolion a cholegau i gyflwyno pynciau newydd.
- 5.87 Adroddodd rhai penaethiaid bod trafodaethau ynglŷn â chyfleoedd i gydweithio rhwng ysgolion, ac yn y Fforymau 14-19 wedi golygu eu bod yn

cymryd rôl arweiniol wrth gynllunio darpariaeth ‘ar lawr gwlad’. Nododd sawl pennaeth eu bod yn falch o’r cyfleoedd hyn i gyfrannu’n uniongyrchol at gynllunio darpariaeth yn strategol, gan mai penaethiaid ac uwch-reolwyr sy’n *‘gwybod ble mae’r bylchau a’r cyfleoedd, a’r athrawon gyda’r sgiliau priodol’*.

- 5.88 Nododd mwyafrif yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â hwy bod y gefnogaeth gan yr awdurdod lleol wedi bod yn dda wrth weithredu polisi Llwybrau Dysgu 14-19. Serch hynny, adroddwyd nad oedd y cyswllt gyda chydlynwyr rhwydweithiau 14-19 lleol mor gryf ag y bu yn y gorffennol. Awgrymodd un pennaeth bod rhanbartholi wedi creu *‘haenau ychwanegol o weinyddiaeth, trafodaethau a chyd gynllunio’* a’i bod hi’n *‘anodd cynnal cysylltiadau agos gyda phawb’*.
- 5.89 Gan droi at y cydweithio rhwng ysgolion a cholegau, awgryma’r dystiolaeth bod y sefyllfa yn amrywiol. Gwelwyd tystiolaeth yn ystod y gwaith o adolygu’r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd bod partneriaethau newydd yn datblygu rhwng colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cyfeirir yn y CSGAau at enghreifftiau lle mae ysgolion a cholegau yn cydweithio i ddatblygu darpariaeth newydd mewn pynciau galwedigaethol a chynnig llwybrau dilyniant newydd i ddysgwyr. Yn aml mae hyn yn seiliedig ar weithgareddau sy’n cynnwys rhannu adnoddau a staff. Fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth yn ystod cyfweiliadau astudiaethau ardal ac mewn ymatebion i’r arolwg penaethiaid bod cystadleuaeth rhwng colegau ac ysgolion uwchradd yn parhau, a nodwyd bod hyn yn gallu rhwystro datblygiadau newydd neu fygwth darpariaeth chweched dosbarth mewn rhai ysgolion uwchradd.

‘Hyn sy’n peri problem cynyddol yw’r dilyniant o CA4 i CA5 gyda thwf y colegau, buddsoddiad ariannol sylweddol yn y sector a hynny ar draul dyfodol a bodolaeth chweched dosbarth. Mae [ysgol uwchradd] yn colli niferoedd sylweddol i’r coleg lleol.’ (Pennaeth ysgol uwchradd)

- 5.90 Cyfeiriodd penaethiaid sefydliadau addysg bellach yn eu hymatebion i’r arolwg at y *‘gystadleuaeth niweidiol’* rhwng colegau ac ysgolion sydd, ym marn rhai, yn arwain at ddarpariaeth aneffeithlon a dosbarthiadau gyda niferoedd bach o ddysgwyr. Casgliad un pennaeth, gan gyfeirio at ddosbarthiadau o bump o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg tra bod

colegau lleol yn cynnig darpariaeth debyg, oedd nodi *'this doesn't feel like effective planning'*. Nododd un pennaeth uwchradd, fodd bynnag, bod y gystadleuaeth honno yn gallu bod yn beth cadarnhaol os oedd yn ysgogi colegau AB i ymateb drwy gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg hwythau.


- 5.91 Cyfeirir yn adran 5.80 at y gostyngiad yn y cyllid sydd wedi'i neilltuo i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o raglen Llwybrau Dysgu 14-19. Roedd hyn yn destun pryder i sawl pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nodwyd bod angen i'r gwahanol gynlluniau a rhaglenni 'dynnu yn yr un cyfeiriad' os yw nodau cenedlaethol am gael eu cyrraedd.

'Mae angen blaenoriaethu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a diogelu cyllid Llwybrau Dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg os ydym am lwyddo i wireddu amcanion y WESP.' (Pennaeth ysgol uwchradd)

Tystiolaeth o'r arolwg penaethiaid mewn perthynas â chynllunio darpariaeth 14-19

- 5.92 Adroddodd mwyafrif penaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (59 y cant) a gwblhaodd arolwg y gwerthusiad eu bod yn cytuno neu'n cytuno i raddau bod y broses o gynllunio darpariaeth 14-19 wedi gwella ers 2010 (gweler Ffigur 12 isod). Lleiafrif (22 y cant) ohonynt oedd yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau bod prosesau cynllunio darpariaeth wedi gwella. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn eu sylwadau at lwyddiant polisi Llwybrau Dysgu 14-19, gan dalu sylw yn benodol at gefnogaeth awdurdodau lleol a'r consortia.

Ffigur 12: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod 14-19 wedi gwella yn yr awdurdod lleol/rhanbarth ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

Llwybrau dilyniant mewn darpariaeth ôl-16

5.93 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy astudiaethau ardal a data'r arolwg yn gyson gyda chanfyddiadau'r astudiaeth o'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Casglodd yr adroddiad hwnnw bod cyfraniad ac ymrwymiad unigolion allweddol o fewn sefydliadau, yn arbennig arweinyddion hŷn ac uwch-reolwyr sefydliadau, yn hollbwysig wrth gefnogi darpariaeth newydd a llwybrau dilyniant ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd penaethiaid ysgol a chynrychiolwyr addysg bellach at anghysondebau yn y ddarpariaeth a llwybrau dilyniant.

'Mae'r dilyniant ieithyddol ar gyfer addysg a hyfforddiant yn parhau i fod yn or-ddibynnol ar fympwy unigolion sy'n arwain canolfannau y tu hwnt i ysgolion. Mewn sawl achos yn y rhanbarth gwelwyd ymgais gwirioneddol i wella'r dilyniant ieithyddol ar gyfer disgyblion llai academiaidd. Mae nifer o achosion eraill ble nad yw hyn yn digwydd gyda sefydliadau yn cyflawni'r lleiaf posibl.' (Pennaeth sefydliad addysg bellach)

5.94 Adroddodd swyddogion sefydliadau addysg bellach bod dilyniant a chyfleoedd i ddysgwyr sydd am dderbyn addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg

wedi gwella ychydig ond *bod 'rhwystrau sylweddol yn dal i fod'*. Cynigiwyd nifer o enghreifftiau o'r rhwystrau y mae sefydliadau yn eu hwynebu, gyda'r pwyntiau mwyaf cyffredin isod:

- anawsterau wrth ragweld y galw am gyrsiau cyfrwng Cymraeg;
- prinder ymarferwyr sydd ar gael i ddarparu cyrsiau ar amser ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus i ddysgwyr;
- diffyg adnoddau a chyfleoedd i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cyfyngu'r hyn y mae colegau yn medru ei gynnis;
- yr her o ysgogi galw cynaliadwy ymysg dysgwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

5.95 Datblygwyd system newydd cenedlaethol o ymgeisio am lefydd yn y sector addysg bellach (y broses ymgeisio gyffredin), fydd yn cynnig y cyfle i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru bod y system newydd hon yn cynnig y potensial i greu dull mwy systematig o asesu'r galw am gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cefnogi prosesau cynllunio sefydliadau addysg bellach.

5.96 Mae Cynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn adnabod cefnogi dilyniant o'r sectorau ysgolion ac addysg bellach ymlaen at addysg uwch fel maes blaenoriaeth ac yn nodi'r angen i weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill. Nodwyd yn ystod cyfweiliad gyda chynrychiolydd y Coleg Cymraeg eu bod yn gweithio i gryfhau cysylltiadau gyda cholegau addysg bellach. Adroddwyd yn y *Gwerthusiad o'r Cynnydd a wnaed gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol* bod y Coleg yn cefnogi prosiectau i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi dilyniant i addysg uwch cyfrwng Cymraeg ymysg myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach.²⁰ Noda'r gwerthusiad hwn yr angen i'r Coleg a sefydliadau addysg bellach unigol hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y maent yn ei chynnig, gan *'sicrhau cydlynedd y trefniadau hyn ar draws adrannau o fewn*

²⁰ https://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/welsh_medium/CCC%20Adroddiad%20Gwerthusiad%20-%20Terfynol2.pdf

sefydliadau addysg uwch unigol a rhwng ymdrechion unigol sefydliadau a rhai'r Coleg' (CCAUC 2015:123).

Blaenoriaethau ar gyfer gwella cynllunio a dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg ôl 16

- 5.97 Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn amlinellu'i flaenoriaethau mewn llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach. Mae'r Gweinidog wedi adnabod *'[c]ynyddu darpariaeth a niferoedd sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog'* fel un o'i brif flaenoriaethau ac mae angen i ddarparwyr, wrth gynllunio rhaglenni dysgu o dan y fframwaith cynllunio a chyllido newydd, ddangos sut y maent yn ymateb i'r flaenoriaeth hon.
- 5.98 Casglwyd tystiolaeth gan benaethiaid ysgolion a cholegau a chan randdeiliaid cenedlaethol er mwyn deall y blaenoriaethau ar gyfer gwella cynllunio a dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16. Yn gyntaf, nodwyd yr angen am well cefnogaeth a chyfeiriad i dynnu ysgolion cyfrwng Cymraeg a cholegau ynghyd i gydweithio mewn ffordd strategol sy'n cefnogi amcanion ei gilydd. Yn ail, tanlinellwyd yr angen am gefnogaeth ariannol i ryddhau staff i wella'u sgiliau a datblygu'r cwricwlwm. Mae'r Cynllun Sabothol yn parhau ond casglwyd yn yr adroddiad ar y Cynllun hwnnw bod angen gweithredu'r rhaglen yn fwy strategol a phwrpasol, gan sicrhau cyswllt gyda blaenoriaethau CSGAau ar draws yr awdurdodau lleol a'r consortia. Ym marn rhai, mae angen mynd ymhellach drwy lunio a gweithredu cynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer darpariaeth ôl-16 gan dargedu datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ymysg darlithwyr, aseswyr, dilyswyr a chymedrolwyr. Yn drydydd, pwysleisiodd penaeithiaid a rhanddeiliaid yr angen i godi proffil darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 drwy farchnata a hyrwyddo manteision cynnal a gwella sgiliau Cymraeg.
- 5.99 Daethpwyd i gasgliadau ar gynllunio darpariaeth yn y sector addysg bellach yn yr *Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach*. Casglwyd bod angen camau pellach i wella'r cynllunio strategol ar draws y sector addysg bellach i gefnogi darpariaeth cyfrwng

Cymraeg a dwyieithog ac y dylid sicrhau bod colegau yn cwblhau cynlluniau gweithredu ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Tanlinellwyd yr angen i uwch-reolwyr ddangos arweinyddiaeth a chefnogaeth wrth yrru'r broses o ddatblygu darpariaeth newydd. Cyflwynodd adroddiad yr astudiaeth gyfres o argymhellion eraill yn nodi'r canlynol:

- yr angen i wella ansawdd y data a gesglir ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a nifer y myfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau hynny;
- dylai colegau sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg brofi rhai modiwlau neu elfennau o'u cyrsiau yn y Gymraeg, fel modd o gynnal eu sgiliau;
- yr angen i wneud rhagor i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac annog myfyrwyr i ddilyn rhan o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- dylai colegau sicrhau eu bod yn ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth hysbysebu swyddi newydd;
- dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gefnogaeth bellach y gellid ei chynnig er mwyn annog colegau i farchnata a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau blaenoriaeth neu feysydd o arwyddocâd strategol.

Cludiant i ddysgwyr ôl-16

5.100 Un ffactor a godwyd yn gyson gan ymarferwyr, rhieni a rhanddeiliaid yn ystod y gwerthusiad yw cludiant. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd polisïau cludiant yn ystod cyfweiliadau ym mhob un o'r astudiaethau ardal, a chyflwynwyd data meintiol gan un pennaeth ysgol yn dangos ar hyn a ystyriwyd fel traweffaith sylweddol polisïau teithio awdurdodau ar benderfyniadau rhieni a dysgwyr i barhau mewn addysg Gymraeg. Nododd pennaeth ysgol uwchradd arall bod penderfyniad un awdurdod lleol i gyflwyno cynnydd sylweddol yn y costau teithio i ddysgwyr ôl-16 wedi arwain at ostyngiad yn nifer y dysgwyr yn yr ysgol honno sydd wedi

trosglwyddo o flwyddyn 11 i flwyddyn 12. Adroddwyd bod yr ysgol yn priodoli'r gostyngiad hwn yn uniongyrchol i'r cynnydd yn y costau teithio. Adroddwyd bod ysgolion a rhanddeiliaid wedi codi'r mater gyda'r awdurdod lleol perthnasol, sydd wedi ymateb gan ddweud bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn derbyn yr un driniaeth ag ysgolion Cymraeg.

'...y gwir yw, mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn llawer mwy agos i gartrefi'r disgyblion. Efallai bod y driniaeth yn gyfartal, ond mae'r sgil-efeithiau yn fwy dwys o lawer ar addysg Gymraeg.' (Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg)

'Mae pwysau ariannol mawr ar awdurdodau lleol – ond mae polisïau rhai ohonynt yn golygu nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.' (Rhanddeiliad cenedlaethol)

Cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

- 5.101 Mae'n ofyniad ar awdurdodau lleol yn eu CSGAau i nodi sut y byddant yn gwella darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg. Mae CSGAau yn nodi nifer o feysydd lle mae awdurdodau lleol wedi adnabod yr angen i ehangu darpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio'n draws-ffiniol i ddarparu gwasanaethau nad ydynt ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd (Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad, a gwasanaethau i ddysgwyr â nam ar eu golwg/clyw, dysgwyr ar y spectrwm awtistig, a dysgwyr gydag anghenion meddygol eraill).
- 5.102 Mae natur y targedau yn y CSGAau mewn perthynas ag ADY yn amrywio. Ceir rhai targedau uchelgeisiol, yn enwedig mewn ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, mae un awdurdod yn anelu tuag at sicrhau bod pob dysgwr gydag ADY yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ni ellir priodoli amrywiaethau yn y targedau a chynlluniau i gyd-destun ieithyddol bob tro. Ceir amrywiaethau rhwng ardaloedd gyda phroffiliau sosio-economaidd ac ieithyddol tebyg, sy'n awgrymu bod y gwahaniaethau hyn yn ddibynnol ar lefel yr ewyllys a'r blaengynllunio o fewn yr awdurdodau perthnasol. Mae un awdurdod yng nghymoedd de Cymru yn cynnig darpariaeth arbenigol

cyfrwng Cymraeg mewn canolfan anghenion dwys benodedig. Mewn sir sy'n ffinio'r awdurdod hwn, gyda bron i ddwywaith y nifer o ddysgwyr ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg, noda'r awdurdod yn ei CSGA nad oes tystiolaeth i gefnogi'r angen am ddarpariaeth (dosbarth) cyfrwng Cymraeg arbenigol. Mae hyn yn un enghraifft o'r amrywiaethau yn y ddarpariaeth ar draws y wlad. Yn ystod ymweliadau i ysgolion cyflwynodd ymarferwyr enghreifftiau anecdotaidd o sgil-effeithiau diffyg darpariaeth arbenigol gan nodi bod dysgwyr wedi trosglwyddo o'r sector cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

5.103 Adroddodd yr holl awdurdodau lleol a gyfrannodd i'r gwerthusiad drwy'r astudiaethau ardal eu bod wedi ymdrechu i wella darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ers cyhoeddi'r Strategaeth. Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr awdurdodau yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r astudiaethau ardal oedd:

- cynnal adolygiadau o'r ddarpariaeth bresennol gan fesur y galw am ddarpariaeth ar gyfer ADY cyfrwng Cymraeg;
- annog mwy o gydweithio ar draws clystyrau o ysgolion er mwyn rhannu arfer da, rhannu adnoddau a chysoni darpariaeth;
- trefnu bod athrawon a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn mynychu hyfforddiant fel eu bod yn hyderus wrth gefnogi plant/pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.


5.104 Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd a'r wybodaeth a nodir gan awdurdodau lleol yn eu CSGAau, cesglir bod yr awdurdodau mwyaf blaengar wedi sefydlu canolfannau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau i ddysgwyr ag anghenion dwys i wahanol ystodau oedran; mewn rhai achosion cynigir darpariaeth ar lefel ranbarthol trwy ganolfannau o'r fath. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod awdurdodau sy'n cynllunio'n rhagweithiol hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau a chefnogaeth ar gael i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol gan ymarferwyr arbenigol yn cynnwys Seicolegwyr Addysg, Athrawon Ymgynghorol (Dysgu ac Ymddygiad) a Chynorthwyyr Dosbarth. Yn olaf, gwelwyd bod rhai awdurdodau blaengar yn gwneud trefniadau i sicrhau bod prosesau

derbyn ysgolion yn adnabod plant gydag ADY y mae eu rhieni yn dymuno addysg cyfrwng Cymraeg iddynt. Mae hyn yn caniatáu ymyrraeth gynnar a chysylltiadau gyda gwasanaethau eraill, gan gynnwys y 'tim o amgylch y teulu' yn lleol.

Barn ar ddarpariaeth a gwasanaethau ADY

5.105 Gofynnwyd i benaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg a phenaethiaid colegau addysg bellach ymateb i'r datganiad '*Mae darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi gwella ers 2010*'. Cytunodd 32 y cant o'r ymatebwyr gyda'r datganiad (14 y cant yn cytuno a 18 y cant yn cytuno i raddau). Nid oedd 29 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno na'n anghytuno â'r datganiad. Anghytunodd 35 y cant o'r ymatebwyr gyda'r datganiad (23 y cant yn anghytuno a 12 y cant yn anghytuno i raddau). Dengys y data hyn amrywiaeth barn ymysg arweinyddion ynghylch y gwelliannau i wasanaethau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ADY. Roedd y farn ymysg penaeithiaid uwchradd yn fwy cadarnhaol nag ymatebwyr o ysgolion cynradd.

Ffigur 13: Ymatebion penaeithiaid i'r datganiad: '*Mae darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi gwella ers 2010*'



Ffynhonnell: Arolwg penaeithiaid (Arad 2015)

5.106 Cafwyd nifer o sylwadau gan benaethiaid ar ddarpariaeth ADY yn eu hatebion i'r arolwg – a hynny mewn ymateb i gwestiwn agored yn gwahodd sylwadau ar ddarpariaeth yn gyffredinol yn hytrach na chwestiwn yn gofyn yn benodol am ddarpariaeth ADY. Tra bod peth tystiolaeth i awgrymu y bu gwelliannau yn y ffordd y mae rhai awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY, ymddengys nad yw'r ddarpariaeth yn gyson mewn gwahanol awdurdodau lleol ar draws Cymru.

5.107 Mae pryderon gan benaethiaid am lefel y ddarpariaeth a'r effaith ar ddysgwyr ac ar ymarferwyr (yn sgil y gwaith paratoi ychwanegol sydd ei angen). Mae'r sylwadau isod yn nodweddiadol o'r pwyntiau a godwyd gan benaethiaid mewn perthynas â darpariaeth ADY:

'Does dim darpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n rhaid i ysgolion gyfieithu, paratoi neu greu deunyddiau addas ar eu cyfer o'r newydd. Mae angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ar y sbectrwm awtistig.'
(Pennaeth ysgol gynradd)

'Nid yw'r adnoddau ffisegol ar gael i gefnogi ADY yn yr Uned Gymraeg o gymharu â'r ystod o adnoddau sydd ar gael yn Saesneg. O ganlyniad, mae dysgwyr [cyfrwng] Cymraeg dan anfantais.' [Cyfieithiad] (Pennaeth ysgol gynradd ddwy ffrwd) [Cyfieithiad]

'Mae darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ar gael mewn un rhan o'r sir ond nid yw ar gael ar draws y sir gyfan. [Dydw i] ddim yn rhagweld gwelliant yn y ddarpariaeth – mae diffyg cefnogaeth gan gynghorwyr i sicrhau gwelliant a newidiadau yn ddigon cyflym.' (Pennaeth ysgol gynradd)

5.108 Casglwyd tystiolaeth mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer dysgwyr ag ADY yn yr *Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg*. Nododd ymarferwyr bod bylchau yn yr adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr ag ADY ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Cafwyd tystiolaeth gan ymarferwyr bod y diffyg dewis yn golygu eu bod yn defnyddio adnoddau a anelwyd at ddysgwyr

iau er mwyn canfod adnoddau ac iaith addas ar gyfer dysgwyr is eu gallu. Nododd ymarferwyr bod diwyg llai aeddfed y cynnwys hwn yn cael effaith negyddol ar ymgysylltiad dysgwyr.

Casgliadau mewn perthynas â chynllunio darpariaeth

Blynyddoedd cynnar

- 5.109 Er nad yw'r gwerthusiad hwn wedi ymchwilio yn fanwl i drefniadau lleol i gefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, awgryma'r dystiolaeth bod nifer o faterion o bwys sy'n haeddu sylw pellach. Cafwyd tystiolaeth gan ymarferwyr, rhieni a ffynonellau data eilaidd yn nodi nad yw darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cwrdd â'r galw mewn nifer o ardaloedd. Mae'r sefyllfa hon yn tanseilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau twf addysg cyfrwng Cymraeg.
- 5.110 Cesglir nad yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei mynegi'n gyson ar draws bob polisi, rhaglen a chynllun gweithredu perthnasol. Mae angen i CSGAau, Cynlluniau Strategol Dechrau'n Deg a chynlluniau gweithredu rhaglenni perthnasol eraill ddatgan yn glir sut y bydd y weledigaeth hon yn cael ei gweithredu a'i gwireddu. Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau bod pob awdurdod yn gosod targedau ar gyfer cynyddu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a'u cynnwys yn y CSGAau.
- 5.111 Mae amrywiaethau yn y derminoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yn eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant wrth gyfeirio at y dewisiadau sydd ar gael i rieni (e.e. defnyddir cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, cymysgedd o'r ddwy, dwyieithog). Trwy sicrhau dull mwy cyson o gasglu a chofnodi gwybodaeth mewn perthynas â'r galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg gellid llunio data a dangosyddion mwy safonol a fyddai'n sail ar gyfer CSGAau yr awdurdodau lleol.
- 5.112 Dylid rhannu gwybodaeth gyda rhieni / gofalmwyr am gyfleoedd a manteision gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

Adroddiad terfynol

Gwelwyd ymgyrchoedd cenedlaethol i hybu manteision dwyieithrwydd a dylai'r negeseuon sy'n ganolog i'r ymgyrchoedd hyn gael eu rhannu yn rheolaidd gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac fel rhan o ddeunydd marchnata rhaglenni perthnasol.

Cynllunio cyfnod statudol

- 5.113 Mae tystiolaeth yn dangos bod y Strategaeth wedi cryfhau prosesau cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau statudol. Mae trefniadau cynllunio awdurdodau lleol yn fwy strwythuredig a gwelwyd tystiolaeth o ymagwedd fwy cydlynus wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y chwe astudiaeth ardal yn y gwerthusiad.
- 5.114 Roedd gosod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar sail statudol yn ddatblygiad pwysig ac mae'r Cynlluniau yn ganolbwynt i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth drafod, paratoi a gweithredu i gynyddu darpariaeth. Maent yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddal awdurdodau lleol yn atebol am eu cynlluniau gweithredu ar lefel leol.
- 5.115 Cynigia'r dystiolaeth ddarlun cymysg mewn perthynas ag effeithiolrwydd awdurdodau lleol wrth gynllunio darpariaeth. Dengys data'r arolwg penaethiaid bod ysgolion, ar y cyfan, yn fodlon gyda'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth. Fodd bynnag, yn ystod cyfweiliadau adroddwyd gan benaethiaid a rhanddeiliaid mewn rhai ardaloedd bod awdurdodau yn 'araf' neu'n 'gyndyn' i ymateb i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg.
- 5.116 Mae prosesau cynllunio wedi gwella, wedi'u cysoni a'u gosod ar sail statudol gadarn bellach. Fodd bynnag, cesglir bod ymagwedd a dealltwriaeth unigolion allweddol (cyfarwyddwyr addysg, aelodau etholedig, uwch-swyddogion) yn dylanwadu'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau a gweithredu lleol. Tanlinella hyn, o bosib, yr elfen bwysicaf a mwyaf dylanwadol o'r broses gynllunio darpariaeth, sef bod arweinyddion lleol yn perchnogi CSGAau ac yn arddangos ewyllys a phenderfyniad i yrru twf mewn ffordd sy'n cefnogi gweledigaeth genedlaethol y Strategaeth.

- 5.117 Dengys y data bod y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i golli nifer o ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo i addysg uwchradd. Mae nifer o ddysgwyr yn trosglwyddo o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan symud i astudio mewn ffrydiau Saesneg neu ddwyieithog ac yn dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Gwelwyd gwelliannau yn y cyfraddau dilyniant dros gyfnod y Strategaeth ac mae'r bwlch rhwng canran y dysgwyr a aseswyd yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 9 o'i gymharu â'r ganran a aseswyd yn y Gymraeg dair blynedd yn gynharach, pan oeddent ym Mlwyddyn 6, yn lleihau. Mae trefniadaeth ysgolion a bodolaeth ysgolion dwyieithog yn ffactor pwysig yn y patrymau dilyniant a welir yng Nghymru: mae'r cyfraddau dilyniant isaf yn yr ardaloedd lle mae'r nifer uchaf o ysgolion dwyieithog. Dylid blaenoriaethu gwella cyfraddau dilyniant yn yr ardaloedd hynny.
- 5.118 Mae awdurdodau lleol yn gosod targedau yn eu CSGAau ar gyfer gwella dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i ddilyniant rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Wrth weithredu cynlluniau i wella cyfraddau dilyniant, mae angen i awdurdodau lleol ac ysgolion sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth o'r rhesymau y tu ôl i benderfyniadau nifer fawr o rieni a phlant i newid cyfrwng. Derbyniwyd tystiolaeth yn ystod y gwerthusiad gan rieni ac ymarferwyr yn disgrifio'r newid cyfrwng fel 'norm' ac fel patrwm arferol mewn nifer o gymunedau. Bydd angen i swyddogion polisi addysg lleol ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i newid y sefyllfa, gan weithio'n agos gyda rhieni a llywodraethwyr ysgolion.

Cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19

- 5.119 Gwelwyd newidiadau sylweddol i ddarpariaeth addysg a hyfforddiant 14-19 ers cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae gweithredu'r Mesur wedi cefnogi nod y Strategaeth o gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ôl-14. Mae gwaith y Rhwydweithiau Rhanbarthol 14-19 a'r fforymau cyfrwng Cymraeg trawsffiniol wedi arwain at well cydweithio rhwng darparwyr ar weithgareddau i rannu arfer da a datblygu'r gweithlu mewn rhai ardaloedd. Dengys data y bu cynnydd yn nifer y

pynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigiwyd yn holl ranbarthau Cymru ers gweithrediad y Mesur.

- 5.120 Ymddengys bod y cydweithio rhwng ysgolion wedi gwella mewn nifer o ardaloedd. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn ganlyniad i'r sefyllfa ariannol y mae ysgolion yn ei hwynebu (sy'n gorfodi rhagor o gynllunio strategol er mwyn rhannu adnoddau), yn hytrach na dylanwad y Strategaeth. Mae'r cydweithio rhwng ysgolion a cholegau yn amrywio: er bod tystiolaeth wedi'i chasglu ar draws y rhaglen ymchwil sy'n dangos cynnydd yn y cydweithio rhwng colegau ac ysgolion (gyda Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn gweithio i gryfhau cysylltiadau) mae cystadleuaeth niweidiol rhwng ysgolion a cholegau yn parhau mewn sawl ardal.
- 5.121 Yn dilyn yr adolygiad o gynllunio a chyllido ôl-16, cyflwynwyd fframwaith cyllido newydd yn y flwyddyn academiaidd 2014/15, sy'n cyllido sefydliadau ar sail rhaglenni, yn hytrach na chymwysterau. Mae'r fframwaith yn parhau i roi cyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n gynnwys ar hyn o bryd i ddeall pa effaith y bydd y trefniadau cyllido newydd yn ei chael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd angen monitro sut y mae darparwyr yn addasu i'r fframwaith newydd, gan edrych yn benodol ar ei ddylanwad ar allu sefydliadau i gynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth a rhaglenni dysgu cyfrwng Cymraeg.
- 5.122 Yn y sector addysg bellach mae'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi cefnogi'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach ac wedi arwain at gynnydd yn y sylw a roddir i gefnogi'r Gymraeg mewn colegau. Gwelwyd rhai datblygiadau mewn gwahanol sefydliadau ond casglwyd nad oedd canlyniadau'r gwaith datblygiadol eto i'w gweld yn llawn. Casglwyd hefyd mai un o wendidau'r broses gynllunio yn y sector addysg bellach yw diffyg cynlluniau gweithredu ar lefel sefydliadol. Er bod cefnogaeth i nodau'r Strategaeth ymysg penaethiaid, nid yw'r gweithredu yn ddigon pwrpasol a strategol ac, yn sgil hyn, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi ei weld mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector AB yn ystod oes y Strategaeth.

Addysg anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg

- 5.123 Mae rhai awdurdodau blaengar wedi ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr gydag ADY drwy sefydlu canolfannau arbenigol. Gwelwyd enghreifftiau o awdurdodau'n gweithio'n draws-ffiniol i gryfhau darpariaeth.
- 5.124 Fodd bynnag, mae'r ymchwil wedi darganfod nifer o wendidau yn y ddarpariaeth. Mae anghysondeb yn y ddarpariaeth yn nodwedd o ddarpariaeth ADY: ceir amrywiaethau yn y gwasanaethau sydd ar gael rhwng siroedd a hyd yn oed o fewn siroedd. Mae angen parhau i fuddsoddi yn sgiliau a chapasiti'r gweithlu er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd angen cymorth ychwanegol ac arbenigol. Adrodda penaethiaid bryderon bod prinder arbenigwyr ac adnoddau addas yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr.

6 Datblygu'r gweithlu

- 6.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar gynnydd wrth weithredu Nod Strategol 4 y Strategaeth, sef:

'Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.'

- 6.2 Mae'r Amcanion Strategol sy'n gysylltiedig â'r nod hwn yn cwmpasu nifer o feysydd: yr angen i gynllunio'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw, gan rannu a datblygu arfer gorau; sicrhau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) priodol sy'n cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg; datblygu seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol i gyflwyno Datblygiad Proffesiynol Parhaus o safon uchel; datblygu arbenigedd mewn methodolegau dysgu ac addysgu; a gwella sgiliau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion.²¹

- 6.3 Wrth ystyried yr amcanion hyn mae dau gwestiwn ymchwil sy'n cynnig fframwaith ar gyfer y bennod hon:

- A yw'r Strategaeth wedi sicrhau bod gweithlu cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn cael ei gynllunio mewn modd strategol er mwyn darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant?
- I ba raddau mae'r Strategaeth wedi arwain at sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol (ieithyddol ac o ran methodoleg) i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?

- 6.4 Mae'r bennod mewn dwy ran: yn gyntaf, cyfeirir at y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau cyflenwad o athrawon ar gyfer y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg (gan ystyried HCA a chynlluniau hyfforddiant amgen); yn ail, cyfeirir at hyfforddiant a phrosiectau sy'n cefnogi sgiliau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg cyfredol. Mae'r bennod yn cyfeirio at ymchwil desg a gwblhawyd fel rhan o'r gwerthusiad ac yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd gan ymarferwyr a rhanddeiliaid.

²¹ Mae Cymraeg i Oedolion y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn.

Cynllunio ar gyfer sicrhau cyflenwad o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg

Cyd-destun darpariaeth gyfredol

- 6.5 Mae hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru yn cael ei darparu drwy dair canolfan brifysgol gydweithredol – canolfan y gogledd a'r canolbarth o dan arweiniad Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth, canolfan y de ddwyrain o dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a chanolfan y de orllewin o dan arweiniad Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob un o'r tair canolfan ar gyfer rhaglenni cynradd ac uwchradd, er bod y modelau darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ar draws y canolfannau. O fewn y trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhellion hyfforddi athrawon i raddedigion yn y pynciau sydd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru o ran recriwtio, gan gynnwys y Gymraeg. Yn 2014–15, cynigiwyd cymhellion o hyd at £15,000 i hyfforddeion uwchradd. Roedd modd i hyfforddeion cynradd â gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg dderbyn cymhelliant o £4,000 i wella safonau llythrennedd mewn ysgolion cynradd a gynhelir.
- 6.6 Ceir cymorth penodol gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr i godi eu hyder i addysgu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir cymhellion a hyfforddiant ychwanegol i hyfforddeion drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n dilyn eu cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.7 Gwelwyd datblygiadau polisi mewn perthynas â HCA yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cwblhawyd adolygiad ar hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru yn 2013 (Adolygiad Tabberer), yn edrych ar safon a chysondeb addysgu, hyfforddi ac asesu o fewn HCA. Casglodd yr adolygiad mai:
- ‘Digonol yw safon HCA yng Nghymru ar hyn o bryd, a dim gwell.... Mae darparwyr, swyddogion a rhanddeiliaid blaenllaw yn rhannu'r asesiad hwn.’ (Tabberer, 2013:14)

- 6.8 Yn fwy diweddar, ym mis Chwefror 2015, cyhoeddwyd *Dyfodol Llwyddiannus* (Adroddiad Donaldson) a gyflwynodd argymhellion ar gyfer trawsnewid y cwricwlwm yng Nghymru. Yn fuan wedi cyhoeddiad Adroddiad Donaldson, pwysleisiodd *Addysgu Athrawon Yfory* (Furlong, 2015) bod gan y cynigion hyn oblygiadau pwysig i'r gweithlu addysgu, yn enwedig yng ngoleuni'r ffocws cynyddol ar y Gymraeg. Nododd adroddiad Furlong:

'y dylai pob athro ac athrawes fod yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, y dylid canolbwyntio'n fwy ar ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob ysgol, ac y dylai llawer mwy o bwyslais gael ei roi ar asesiadau o dan arweiniad athrawon nag a geir ar hyn o bryd.' (Furlong, 2015:7)

Myfyrwyr sy'n cymhwyso o gyrsiau HCA

- 6.9 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau blynyddol yn dangos data ar gyfer myfyrwyr sy'n cymhwyso yn dilyn cyrsiau HCA. Mae'r data yn nodi nifer y myfyrwyr sy'n gymwys i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn yr hyfforddiant. Mae nifer y cofrestriadau ar gyrsiau HCA yng Nghymru wedi disgyn pob blwyddyn dros y blynyddoedd diweddar yn sgîl y camau a gymerwyd ers 2006 i reoli'r niferoedd sydd yn eu dilyn.
- 6.10 Dengys Tabl 12 isod y niferoedd sydd wedi cwblhau cyrsiau HCA yng Nghymru rhwng 2005/06 a 2013/14 a'r niferoedd sy'n gymwys i addysgu'n ddwyieithog. Gwelwyd cwymp yng nghyfanswm y myfyrwyr sy'n cwblhau cwrs HCA ers 2007/08. Gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sy'n gymwys i addysgu'n ddwyieithog dros yr un cyfnod, felly mae'r ganran o fyfyrwyr sy'n cwblhau cwrs HCA ac yn medru addysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu.

Tabl 12: Myfyrwyr yn cwblhau cyrsiau hyfforddiant cychwynol athrawon yng Nghymru 2005/06 i 2013/14

	Blwyddyn								
	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10	10/11	11/12	12/13	13/14
Cyfanswm yn cwblhau cwrs HCA yng Nghymru	1,935	1,880	1,935	1,900	1,860	1,735	1,645	1,470	1,425
Cymwys i addysgu'n ddwyieithog, neu sydd â thystysgrif addysgu dwyieithog	210	330	190	225	230	220	210	255	300
% o'r holl fyfyrwyr sy'n gymwys i addysgu'n ddwyieithog	10.9	17.6	9.8	11.8	12.4	12.7	12.8	17.3	21.1

Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Cyflenwad y gweithlu

6.11 Mae data Llywodraeth Cymru ar nifer yr athrawon cymwysedig sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnig darlun o gyflenwad y gweithlu addysg. Wrth ddadansoddi'r data mewn ysgolion cynradd (Tabl 13), gwelir cynnydd o 135 rhwng 2009/10 a 2013/14 yn nifer yr athrawon cymwysedig sy'n addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf.²² Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.8 y cant, sydd yn uwch na'r cynnydd a welwyd yng nghyfanswm yr holl athrawon cymwysedig sy'n addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru (0.4 y cant yn ystod yr un cyfnod). Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr athrawon cymwysedig sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd (1.8 y cant o gynnydd).

6.12 Roedd 357 o athrawon cynradd yn gallu addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad oeddent yn gwneud hynny yn 2013/14. Mae'r nifer hwn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf.

²² Er mai 2009/10 oedd blwyddyn lansio'r Strategaeth, mae'n bwysig nodi na fyddai disgwyl i newidiadau yn niferoedd y llefydd hyfforddiant arwain at newidiadau ym maint y gweithlu am o leiaf dwy flynedd oherwydd hyd y cyrsiau hynny. Nid yw 2009/10 felly o reidrwydd yn waelodlin arwyddocaol yng nghyd-destun niferoedd athrawon.

Tabl 13: Athrawon mewn ysgolion cynradd yng Nghymru 2005/06 i 2013/14

Athrawon cymwysedig:	<i>Blwyddyn 2005/06 i 2013/14</i>								
	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10	10/11	11/12	12/13	13/14
sy'n addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf	2,835	2,819	2,838	2,791	2,799	2,812	2,872	2,869	2,934
sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn unig	9,228	9,269	9,319	9,192	9,149	9,039	9,068	9,176	9,317
sy'n addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg	167	150	137	186	228	199	193	215	179
sy'n gallu addysgu'r Gymraeg / drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad ydynt yn gwneud hynny	862	722	674	598	478	423	414	378	357
nad ydynt yn gymwysedig i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg	407	352	287	255	204	180	157	158	127
Cyfanswm athrawon cymwysedig yn addysgu mewn ysgolion cynradd	13,499	13,312	13,255	13,022	12,858	12,653	12,704	12,796	12,914

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

6.13 Mae'r data mewn perthynas â'r gweithlu addysg yn y sector uwchradd yn dangos cynnydd yn y nifer sy'n addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu bynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2009/10, y flwyddyn y cyhoeddwyd y Strategaeth, gwelwyd cynnydd o 11.6 y cant yn nifer yr athrawon cymwysedig sy'n addysgu Cymraeg iaith gyntaf. Cafwyd llai o gynydd yn y nifer sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg (0.9 y cant).

6.14 Gwelwyd cwmp yn nifer yr athrawon cymwysedig sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny: cwmp o 501 yn 2009/10 i 430 yn 2013/14.

Tabl 14: Athrawon mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru 2005/06 i 2013/14

Athrawon cymwysedig:	Blwyddyn 2005/06 i 2013/14								
	05/06	06/07	07/08	08/09	09/10	10/11	11/12	12/13	13/14
sy'n addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf	341	360	368	337	398	400	385	388	444
sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn unig	730	731	708	714	684	656	663	617	593
sy'n addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg	1,751	1,792	1,805	1,884	1,835	1,848	1,779	1,870	1,851
sy'n gallu addysgu'r Gymraeg / drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad ydynt yn gwneud hynny	458	496	439	496	501	570	564	525	430
nad ydynt yn gymwysedig i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg	10,100	9,977	9,780	9,739	9,639	9,418	9,213	9,079	9,016
Cyfanswm athrawon cymwysedig yn addysgu mewn ysgolion uwchradd	13,380	13,356	13,100	13,170	13,057	12,892	12,604	12,479	12,334

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon

6.15 Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r corff rheoleiddio ar gyfer ymarferwyr mewn Ysgolion ac Addysg Bellach (AB) yng Nghymru. Mae'r data a gesglir gan CGA drwy ei broses gofrestru yn un o'r ffynonellau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, sef offeryn cynllunio'r gweithlu a ddefnyddir i bennu nifer y myfyrwyr sy'n dechrau dilyn rhaglenni Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru.

6.16 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried sut y gellir defnyddio'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i fesur a llywio'r galw am, a'r cyflenwad o, ymarferwyr ar draws y sector addysg yn ei chyfanrwydd. Adroddwyd gan swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg bod rhai cyfyngiadau i allu'r model i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae swyddogion yr Adran Addysg

a Sgiliau sy'n gyfrifol am weinyddu'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn cydnabod yr angen am fwy o eglurder mewn perthynas â sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg.

- 6.17 Mae trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r CGA wedi archwilio'r posibilrwydd o newid rhai o'r cwestiynau sy'n cael eu holi yn ystod y broses gofrestru. Ar hyn o bryd gofynnir i athrawon hunanasesu eu sgiliau Cymraeg; ystyrir cyflwyno dull sy'n seiliedig ar gofnodi cymwysterau uchaf yn y Gymraeg a lefel eu hyfforddiant i addysgu yn y Gymraeg. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru y gallai'r newidiadau hyn arwain at ddull mwy cadarn o fapio proffil ymarferwyr ar draws y gwahanol sectorau (gan gynnwys medru adnabod athrawon gyda sgiliau iaith Gymraeg sydd yn gweithio o fewn y sector cyfrwng Saesneg). Gallai proses fapio gynhwysfawr helpu i adnabod bylchau yn y gweithlu ac adnabod bylchau a allai ddatblygu yn y dyfodol (e.e. drwy asesu proffil oedran ymarferwyr cyfrwng Cymraeg o fewn meysydd gwahanol).
- 6.18 Adroddwyd gan swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau nad yw'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, gan gynnwys y dull o bennu llefydd HCA cyfrwng Cymraeg, wedi newid o ganlyniad i'r ymrwymadau sydd yn y Strategaeth i sicrhau twf yn y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at *'flaengynllunio effeithiol'* ar draws y gyfundrefn i sicrhau twf. Roedd lleiafrif o randdeiliaid cenedlaethol o'r farn nad yw'r broses o bennu llefydd HCA yn medru sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr i ddiwallu twf yn y sector cyfrwng Cymraeg. Gwnaeth lleiafrif o randdeiliaid gyswllt rhwng y mater hwn a'r niferoedd cymharol isel o geisiadau am swyddi gweigion yn y sector cyfrwng Cymraeg (gweler 6.21).
- 6.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ddatblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd ar gyfer darpar athrawon sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n hwyluso'r gwaith hwn. Mae'r Coleg hefyd yn ystyried cynigion ar gyfer cyflwyno gofyniad mynediad ar gyfer cyrsiau HCA cyfrwng Cymraeg. Mae'r dystysgrif hon yn adeiladu ar lwyddiant y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg bresennol: mae'r cynllun hwn yn agored i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac yn eu galluogi i ennill tystysgrif sy'n

dangos tystiolaeth o'u gallu i gyfathrebu'n hyderus a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dystysgrif cymhwysedd ar gyfer darpar athrawon yn cael ei pheilotu am y tro cyntaf yn 2015/16.

Data Llywodraeth Cymru ar nifer y ceisiadau i swyddi addysgu gweigion


- 6.20 Ceir amrywiaeth sylweddol rhwng nifer y ceisiadau i swyddi addysgu gweigion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2014, hysbysebwyd 275 o swyddi gweigion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, gyda 2,105 o geisiadau am y swyddi hyn. Ar gyfartaledd, felly, cafwyd 8 o geisiadau ar gyfer pob swydd wag cyfrwng Cymraeg. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 11,747 o geisiadau ar gyfer 510 o swyddi gweigion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, sy'n cyfateb i gyfartaledd o 23 o geisiadau ar gyfer pob swydd.
- 6.21 Ceir darlun tebyg yn y sector uwchradd. Ar draws yr holl bynciau, cafwyd 4 cais ar gyfartaledd am swyddi gweigion cyfrwng Cymraeg yn 2014 o gymharu â 11 o geisiadau am swyddi cyfrwng Saesneg.
- 6.22 Ers cyhoeddi'r Strategaeth, mae nifer y ceisiadau am bob swydd wag cyfrwng Cymraeg wedi parhau i fod yn sylweddol is na cheisiadau am swyddi yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae cwmp cyffredinol yn nifer y ceisiadau ar gyfer bob swydd wag wedi bod rhwng 2007 a 2014 yn y sector cyfrwng Cymraeg a Saesneg, er gwelwyd cynnydd mewn rhai blynyddoedd unigol (e.e. roedd nifer sylweddol uwch o geisiadau am swyddi gweigion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn 2010, gan olygu fod nifer y ceisiadau ar gyfer bob swydd yn uwch ar gyfartaledd). Awgryma'r data hyn nad yw'r Strategaeth wedi cael dylanwad ar gyflenwad athrawon cyfrwng Cymraeg.

Tystiolaeth o'r arolwg penaethiaid a thystiolaeth gan randdeiliaid ar gyflenwad ymarferwyr cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg

- 6.23 Gofynnwyd yn yr arolwg i benaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau addysg bellach a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: *'Mae nifer ddigonol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn*

y sector cynradd/uwchradd/addysg bellach'. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau gyda'r datganiad (49 y cant) nag oedd yn cytuno neu'n cytuno i raddau (42 y cant). Dim ond un pennaeth addysg bellach oedd yn cytuno bod nifer ddigonol o ymarferwyr gyda mwyafrif clir yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau. Atebodd mwyafrif y penaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg gan anghytuno gyda'r datganiad (35.1 y cant yn anghytuno i raddau ac 18.9 y cant yn anghytuno).

Ffigur 14: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae nifer ddigonol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd/uwchradd/addysg bellach'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

6.24 Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr i'r holiadur ynghylch cyflenwad ymarferwyr gyda sgiliau Cymraeg. Y pwyntiau mwyaf cyffredin a nodwyd gan benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg oedd:

- Niferoedd isel yn ymgeisio am swyddi yn y sector cyfrwng Cymraeg o gymharu â cheisiadau ar gyfer swyddi mewn ysgolion cyfrwng Saesneg;
- Lle mae digon yn ymgeisio am swyddi, nid yw safon yr iaith 'yn foddhaol ymhob achos'.

'Yn achlysurol gall hyn effeithio ar ansawdd y ceisiadau a dderbynnir ac o ganlyniad ansawdd/argaeledd athrawon o'r radd flaenaf. O bosib bod lle i edrych ar ddulliau o ddenu myfyrwyr ifanc i'r proffesiwn trwy ei wneud yn ddeniadol er mwyn sicrhau athrawon cymwys o'r radd flaenaf.' (Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg)

- Prinder cynorthwywyr dosbarth gyda safonau iaith Gymraeg uchel;
- Prinder athrawon cyflenwi sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.25 Cynigiodd penaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg enghreifftiau eraill o broblemau a wynebwyd wrth benodi ymarferwyr, gyda'r dystiolaeth yn dangos prinder difrifol mewn rhai meysydd cwricwlwm ac mewn rhai ardaloedd o Gymru. Y pwyntiau a godwyd yn gyson yn y sylwadau oedd:

- Prinder athrawon â sgiliau Cymraeg ar gyfer mathemateg, ffiseg, cemeg a Saesneg yn y sector uwchradd. Cyfeiriodd penaethiaid at bynciau eraill lle'r oeddent wedi profi anawsterau recriwtio, yn cynnwys bwyd/arlwyo;
- Roedd penaethiaid yn bryderus ynghylch y cyflenwad o ymarferwyr yn y dyfodol. Cyfeiriodd ymatebwyr at brinder hyfforddeion o safon uchel ac at effeithiau niweidiol newidiadau i ddarpariaeth HCA yn ystod blynyddoedd diweddar, gyda thoriadau i niferoedd y llefydd (gweler 6.11);

'Mae prinder difrifol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn arbennig yn y sector uwchradd. Prin yw'r cyfleoedd i hyfforddi yn y Gymraeg. Yn yr un modd prin yw'r cynorthwywyr cyfrwng Cymraeg safonol i weithio yn y sector uwchradd.' (Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg)

- Anawsterau recriwtio ymarferwyr Cymraeg o'r safon uchaf mewn ysgolion dwyieithog, lle mae disgwyl i athrawon addysgu drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg.

'Mae'n well gan rai [athrawon] addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae hynny'n ddigon teg ond gallai effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog neu ddwy ffrwd.' (Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg)

6.26 Ategwyd sylwadau penaethiaid gan ystod o randdeiliaid. Cyfeiriodd mwyafrif y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy at yr heriau o sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer y sector. Roedd cynrychiolwyr

sefydliadau addysg cenedlaethol a mudiadau athrawon yn cydnabod pwysigrwydd y cynlluniau a'r cymhellion ariannol sydd yn eu lle i gefnogi darpar athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, nid oedd rhanddeiliaid o'r farn bod y Strategaeth wedi arwain at wahaniaeth sylfaenol nac amlwg yn y broses o gynllunio'r gweithlu. Mynegodd lleiafrif amheuon dwys ynghylch capasiti'r gweithlu i ymdopi gyda'r hyn y mae'r Strategaeth yn anelu at gyflawni, sef twf sylweddol yn y sector cyfrwng Cymraeg.

- 6.27 Rhannodd un rhanddeiliad cenedlaethol ganlyniadau arolygon a gwblhawyd ganddynt dros gyfnod o ddwy flynedd yn ymchwilio i'r sefyllfa staffio mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn yr arolwg hwnnw gwelwyd enghreifftiau ar draws Cymru lle bu ysgolion yn wynebu trafferthion wrth benodi arbenigwyr pwnc, prinder ymgeiswyr o safon, ysgolion yn gorfod ail-hysbysebu cyn penodi, ac ysgolion yn adrodd eu bod wedi gorfod penodi athrawon di-Gymraeg i lenwi bylchau. Yn ogystal, adroddwyd yn yr arolwg bod ysgolion yn cael anawsterau wrth benodi aelodau o uwch-dimau rheoli a dirprwyon. Cefnogwyd hyn gan ddata gweinyddol Llywodraeth Cymru: yn 2014 hysbysebwyd tair o swyddi gweigion ar gyfer penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid ar draws Cymru, gyda chyfanswm o bump o geisiadau ar gyfer y swyddi hyn.
- 6.28 Yn hanner yr awdurdodau lleol a fu'n rhan o'r astudiaethau ardal nododd swyddogion eu bod yn ymwybodol o anawsterau recriwtio i ysgolion Cymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan wahanol gyfranwyr (penaethiaid, uwch reolwyr ysgolion a rhanddeiliaid cenedlaethol) yn ategu hyn a chyfeiriwyd at brinder athrawon o fewn y gweithlu addysg Gymraeg mewn sawl pwnc yn y sector uwchradd: Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yn y sector uwchradd. Nodwyd hefyd bod prinder arweinwyr/uwch-reolwyr yn y sectorau cynradd ac uwchradd.
- 6.29 Cododd penaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg nifer o sylwadau mewn perthynas â chyflenwad ymarferwyr iaith Gymraeg. Nodwyd bod toriadau yn nifer yr Athrawon Bro wedi cael effaith niweidiol ar allu ysgolion i ddarparu gwersi Cymraeg i safon uchel. Adroddodd nifer o benaethiaid

bod athrawon wedi cymryd cyfrifoldeb am arwain gwersi Cymraeg, ond heb fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol. Mae'r dystiolaeth yn gyson â chanfyddiadau adroddiad *Un iaith i bawb* a nododd: '*dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod gan bob ysgol gynradd ac uwchradd niferoedd digonol o athrawon a chanddynt gymwysterau i addysgu Cymraeg, a'i bod yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod pob athro Cymraeg ail iaith wedi cael hyfforddiant priodol ar fethodoleg ac felly'n gymwys i addysgu'r pwnc*' (Llywodraeth Cymru, 2013c:38).

- 6.30 Dengys y data ansoddol a gyflwynwyd yn yr arolwg bod cefnogaeth ymysg mwyafrif penaethiaid ysgolion cynradd Saesneg i wella darpariaeth iaith Gymraeg. Maent yn cefnogi'r weledigaeth i hybu dwyieithrwydd ond teimla lleiafrif nad yw'r gefnogaeth na'r adnoddau yn eu lle i wireddu'r weledigaeth hon. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â chapasiti rhai ysgolion cynradd Saesneg i ddarparu Cymraeg ail iaith, sydd yn bwnc statudol o fewn y cwriwlwm, i'r safon angenrheidiol (materion sydd wedi codi yn adroddiad *Un iaith i bawb* a chyhoeddiadau Estyn. Gweler Pennod 8 am drafodaeth bellach).
- 6.31 Adroddwyd bod ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn wynebu anawsterau wrth benodi athrawon Cymraeg ac wrth ddod o hyd i athrawon cyflenwi sy'n medru addysgu'r Gymraeg. Mae hyn yn gyson â'r data yn Nhabl 14 sy'n dangos gostyngiad yn nifer yr athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.

'Mae'n mynd yn fwyfwy anodd i recriwtio unrhyw athrawon Cymraeg [ail iaith], heb sôn am athrawon o safon uchel yn y Gymraeg. Yn fy marn i, mae hyn yn creu pryder ac mae angen rhoi sylw iddo fel mater brys.'
(Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg) [Cyfieithiad]

Hyfforddiant a rhaglenni i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu cyfrwng Cymraeg

- 6.32 Mae'r adrannau isod yn crynhoi'r gwahanol ddarpariaethau a grantiau sy'n cefnogi hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg ymysg ymarferwyr.

Grant y Gymraeg mewn Addysg

- 6.33 Sefydlwyd Grant y Gymraeg mewn Addysg ym mis Ebrill 2012 drwy gyfuno arian a ddarparwyd yn flaenorol gan wahanol gynlluniau grant.²³ Yn wreiddiol, dosbarthwyd y Grant i'r awdurdodau lleol i'w weinyddu. Fodd bynnag, ond yn dilyn sefydlu'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, ers Ebrill 2014 mae'r Grant wedi cael ei ddosbarthu gan yr Adran Addysg a Sgiliau i'r consortia i'w weinyddu. Yn 2014 lefel y Grant oedd £5.3m a nododd y Canllawiau ar gyfer y flwyddyn honno bod disgwyl i awdurdodau lleol gyfrannu o leiaf 33 y cant o arian cyfatebol. Nodwyd yn ogystal bod disgwyl i gonsortia ddirprwyo o leiaf 50 y cant o'r grant i ysgolion yn 2014–15, gan dargedu'r dyraniadau mewn ffyrdd sydd fwyaf tebygol o gefnogi deilliannau CSGAau a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Ceir tri chategori o weithgareddau cymwys y gellir eu hariannu drwy Grant y Gymraeg mewn Addysg: y categorïau hyn yw Cymraeg iaith gyntaf, cyfrwng Cymraeg a Chymraeg ail iaith. Mae gwella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn faes gweithgarwch yn y tri chategori.
- 6.34 Nododd y Canllawiau y dylid targedu'r gyfran ddirprwyedig i ysgolion mewn ffordd '*strategol a phwrpasol*'. Ategwyd hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru: nodwyd y bu ymdrech bwriadus, wrth weinyddu'r Grant, i sicrhau bod partneriaid gweithredu (consortia ac awdurdodau lleol yn arbennig) yn clymu'r Grant i nodau ac amcanion strategol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 6.35 Defnyddir y Grant i gefnogi ystod eang o weithgareddau a chysiau. Yn yr awdurdodau lleol a fu'n rhan o'r astudiaethau ardal adroddwyd bod y Grant wedi cefnogi: cysiau hyfforddiant i ymarferwyr i wella sgiliau iaith Gymraeg; cymunedau dysgu proffesiynol sydd wedi datblygu a rhannu arferion da o ran addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; cysiau hyfforddiant i ymarferwyr i hyrwyddo methodolegau addysgu Cymraeg (yn y sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg).

²³ Cyfunwyd y canlynol: Y Gronfa Ysgolion Gwell gynt (Maes Blaenoriaeth 2); grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer athrawon bro; a grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer prosiectau peilot addysg drochi ar gyfer hwyrdyfodiaid a dilyniant ieithyddol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

- 6.36 Adroddwyd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia bod y Grant wedi bod yn ffocws ar gyfer gweithredu mewn ffordd fwy cydweithredol, gyda chonsortia yn blaenoriaethu dyraniadau i gefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at amcanion CSGAau ac amcanion y Strategaeth.
- 6.37 Mae trefniadau craffu gan gonsortia i gefnogi'r broses o weinyddu'r Grant: adroddodd awdurdodau lleol bod swyddogion y consortia yn monitro gwariant gan awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn sicrhau cyswllt rhwng gweithgareddau a Chynlluniau Strategol Lleol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn yr astudiaethau ardal, mae'r prosesau cynllunio a chraffu a gyflwynwyd yn ystod oes y Strategaeth wedi golygu bod CSGAau a chynlluniau Grant wedi'u halinio.
- 6.38 Gwelwyd newidiadau i drefniadau ariannu ar gyfer y flwyddyn 2015/16. Cyfunwyd 11 o wahanol ffrydiau cyllido o Ebrill 2015 i greu un prif grant, y Grant Gwella Addysg (GGA). Mae'r broses o weithredu CSGAau yn dal i gael ei chefnogi trwy gyllid ar gyfer Grant y Gymraeg mewn Addysg sydd wedi cael ei drosglwyddo i'r GGA newydd ar gyfer ysgolion o 2015-16.

Darpariaeth hyfforddiant i ymarferwyr a darparwyr

- 6.39 Mae ystod eang o ddarpariaethau hyfforddiant ar gael i gefnogi a chryfhau capasiti'r gweithlu addysg Gymraeg. Yn ogystal â'r gefnogaeth a ddarperir trwy GGA, mae'r gefnogaeth a'r hyfforddiant arall a gynigir yn cynnwys hyfforddiant i gefnogi gweithrediad y cwricwlwm, cefnogaeth mewn perthynas ag arweinyddiaeth, methodolegau dysgu ac addysgu, hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, hyfforddiant a gweithgarwch i gefnogi cydweithio ymysg ymarferwyr a chynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus. Nid yw'r gwerthusiad wedi ceisio meintoli'r holl gyrsgiau a ddarperir. Cynigir isod grynodedd o'r prif ffynonellau o hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr.

- **Darpariaeth a gefnogir gan ysgolion:** mae'n ofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu Hyfforddiant Mewn Swydd ar gyfer athrawon ym mhob blwyddyn ysgol. Mae'r gweithgareddau hyfforddi hyn yn rhan bwysig o'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Darperir yr

hyfforddiant hwn yn rheolaidd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

- **Grantiau cenedlaethol eraill Llywodraeth Cymru** (e.e. Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, sydd bellach yn rhan o'r Grant Gwella Addysg – gweler uchod) sy'n darparu arian i'r consortia rhanbarthol i'w galluogi i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys darparu cyfleoedd DPP.
- **Hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar:** Cam wrth Gam yw cangen hyfforddi Mudiad Meithrin. Mae'n darparu hyfforddiant sy'n arwain at Ddiploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (CCLD) i'r rheini sy'n dymuno gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.
- **Cynllun Sabothol:** mae'r Cynllun Sabothol yn parhau i ddarparu cyfnodau dwys o hyfforddiant iaith a methodoleg i ymarferwyr ar ystod o lefelau ac mewn lleoliadau ar draws Cymru (gweler Adran 6.40 isod).
- **Cefnogaeth Sgiliaith:** mae Sgiliaith yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid addysg bellach a thiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith. Mae'r cyrsiau'n canolbwyntio ar gefnogi methodolegau addysgu dwyieithog a chodi ymwybyddiaeth i gyrff llywodraethu ac uwch-dimau rheoli'r colegau addysg bellach. Mae Sgiliaith yn gweithio mewn partneriaeth â Colegau Cymru, sydd hefyd yn darparu cyfleoedd i diwtoriaid gydweithio er budd datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- **Hyfforddiant gan randdeiliaid a chyrrff addysg eraill:** cynigir hyfforddiant achlysurol i gefnogi gweithrediad cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gan CYDAG a chan undebau athrawon.²⁴

²⁴ Mae CYDAG (Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg) yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i hyrwyddo a datblygu pob agwedd ar addysg ddwyieithog. Gwna hyn drwy hyrwyddo cydweithredu, drwy drefnu gweithgareddau i gefnogi datblygiad proffesiynol, drwy fod yn gyfrwng ar gyfer trafod addysg ddwyieithog a thrwy gyfathrebu dyheadau a phryderon ei haelodau i'r sefydliadau a'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol.

Y Cynllun Sabothol


6.40 Fel y nodwyd uchod, cwblhawyd astudiaeth o'r Cynllun Sabothol yn 2014, er mwyn deall traweffaith y Cynllun ar allu ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgolion a'u colegau. Casglwyd yn yr *Adolygiad o'r Cynllun Sabothol* bod y cynllun wedi datblygu sgiliau iaith Gymraeg a meithrin hyder yr ymarferwyr hynny a fynychodd gyrsiau. Mae'r Cynllun wedi esblygu dros amser wrth i Lywodraeth Cymru addasu a mireinio'r dulliau o ddarparu a chyflwyno cyrsiau newydd ar gyfer gwahanol grwpiau targed (e.e. cwrs lefel mynediad ar gyfer cynorthwywyr dosbarth). O ganlyniad, gwelwyd newid i broffil cyfranogwyr wrth i'r cyrsiau apelio at ystod ehangach o ymarferwyr (cynorthwywyr dosbarth a niferoedd uwch o gyfranogwyr o'r sector addysg bellach). Fodd bynnag, noda'r adroddiad bod angen tynhau ar y broses o gynllunio a recriwtio i'r Cynllun Sabothol, ac y dylai awdurdodau a chonsortia rhanbarthol wneud cyswllt rhwng y rheiny sydd yn mynychu'r cyrsiau a sut y disgwylir iddynt gyfrannu tuag at flaenoriaethau strategol lleol.

Barn penaethiaid ar hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg

6.41 Roedd ychydig dros hanner ymatebwyr yr arolwg penaethiaid yn cytuno (20 y cant) neu'n cytuno i raddau (31 y cant) bod yr hyfforddiant sydd ar gael i gefnogi sgiliau iaith Gymraeg yn diwallu anghenion eu sefydliad hwy (gweler Ffigur 15). Dengys y data rai amrywiadau ar draws y gwahanol sectorau. Roedd 19 y cant o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cytuno bod yr hyfforddiant sydd ar gael iddynt yn addas, gyda 41 y cant yn cytuno i raddau. Roedd ymateb penaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn llai cadarnhaol: cytunodd 16 y cant bod yr hyfforddiant yn cwrdd â'u hanghenion gyda'r un gyfran (16 y cant) yn cytuno i raddau. Roedd cyfran uwch o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn anghytuno (24 y cant) neu'n anghytuno i raddau (22 y cant). Ceir patrwm gwahanol mewn ymatebion gan benaethiaid ysgolion cynradd. Roedd canran ychydig yn uwch o benaethiaid ysgolion cynradd Saesneg yn cytuno neu'n cytuno i raddau bod hyfforddiant yn diwallu eu

hanghenion, na'r ganran gyfatebol o benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Ffigur 15: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae hyfforddiant i'r gweithlu yn diwallu anghenion ein sefydliad ni o ran cefnogi sgiliau iaith Gymraeg'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

6.42 Yn yr awdurdodau lleol a fu'n rhan o astudiaethau ardal y gwerthusiad nododd mwyafrif penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg bod angen hyfforddiant parhaus i gynnal a gwella sgiliau Cymraeg. Adroddodd rhai penaethiaid eu bod yn defnyddio Grant y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi mynediad at gyrsiau. Mewn ymateb i gwestiynau agored yn yr arolwg penaethiaid, nododd rhai penaethiaid eu bod yn cynllunio gweithgareddau hyfforddiant a gloywi iaith ar gyfer eu staff – gan gynnwys staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nododd lleiafrif o benaethiaid eraill bod cyfyngiadau ariannol a ffactorau eraill (e.e. diffyg capasiti mewn ysgolion i ddarparu hyfforddiant; methu rhyddhau ymarferwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant allanol) yn cyfyngu ar allu ysgolion i fuddsoddi mewn gwella sgiliau'r gweithlu presennol.

6.43 Roedd penaethiaid ysgolion yn yr awdurdodau lleol a fu'n rhan o astudiaethau ardal yn cefnogi cynlluniau hyfforddiant i ymarferwyr gan

gynnwys y Cynllun Sabothol; fodd bynnag, roedd barn ymysg lleiafrif o benaethiaid bod angen ymyriadau mwy 'pell-gyrhaeddol' er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa a gwella ansawdd darpariaeth hyfforddiant. Cynigiodd rhai penaeithiaid y dylid ystyried sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg yn agored i bob aelod staff neu sicrhau bod athrawon sy'n rhugl yn y Gymraeg yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

- 6.44 Ategwyd y pwyntiau uchod gan y lleiafrif o benaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg a ymatebodd i gwestiynau agored yn yr arolwg penaeithiaid. Nododd un pennaeth bod angen: cynnydd yn y lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn HCA, cyrsiau sabothol rheolaidd wedi'u targedu'n ofalus, cyrsiau gloywi wedi'u cydlynu gan awdurdodau lleol/consortia a chymorth gan gymheiriaid o fewn ysgolion. Cyfeiriodd pennaeth arall at bwysigrwydd hyfforddiant sy'n sicrhau safonau iaith Gymraeg uchel ymysg athrawon gan mai athrawon yw'r unig gyswllt y caiff plant gyda'r iaith Gymraeg mewn nifer o gymunedau.
- 6.45 Mewn ymateb i gwestiynau agored yn yr arolwg penaeithiaid, adroddodd rhai penaeithiaid ysgolion cyfrwng Saesneg bod y Cynllun Sabothol i ymarferwyr wedi bod yn werthfawr wrth gefnogi datblygiad sgiliau. Nododd y penaeithiaid hyn fod y cyrsiau yn 'ardderchog', 'dwys' ac 'effeithiol' a'u bod wedi llwyddo i fagu hyder ymarferwyr a gwella ansawdd darpariaeth. Adroddodd rhai penaeithiaid bod diddordeb gan ymarferwyr mewn mynychu cyrsiau pellach er mwyn datblygu sgiliau iaith ymhellach, tystiolaeth sy'n cefnogi'r astudiaeth a gwblhawyd ar y Cynllun Sabothol fel rhan o'r rhaglen ymchwil hon. Nododd penaeithiaid eraill bod y Cynllun Sabothol yn fuddiol ond nad yw'n gallu datblygu sgiliau iaith Gymraeg mwyafrif yr athrawon gan nad oedd modd i'w hysgolion ryddhau staff am gyfnodau mor hir.
- 6.46 Cyfeiriodd rhai penaeithiaid ysgolion cyfrwng Saesneg at brinder capasiti a diffyg safonau iaith ymysg y gweithlu yn eu hymatebion i gwestiynau agored yn yr arolwg penaeithiaid. Mewn rhai ysgolion Saesneg, nododd penaeithiaid bod staff adran y Gymraeg yn cynnig cefnogaeth i wella sgiliau eu cydweithwyr. Nododd rhai penaeithiaid bod angen i ysgolion

arwain ar y broses o sicrhau ansawdd gyda chefnogaeth strategol gan Llywodraeth Cymru a sefydliadau hyfforddiant i fuddsoddi yn sgiliau'r gweithlu addysg.

Casgliadau ar y gweithlu

- 6.47 Nod y Strategaeth oedd adeiladu capasiti a sgiliau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o ymarferwyr ar draws pob cyfnod addysg a hyfforddiant. Gwelwyd twf yn nifer a chanran y myfyrwyr sy'n cwblhau cwrs HCA ac yn medru addysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Strategaeth.
- 6.48 Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod y Strategaeth yn uniongyrchol wedi gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol i fas critigol y gweithlu cyfrwng Cymraeg nac wedi esgor ar newidiadau sylfaenol i gyflenwad y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hanner y penaeithiad a gyfrannodd i'r gwerthusiad o'r farn nad oes digon o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg. Mae'r gronfa o ymarferwyr yn brin iawn mewn rhai pynciau yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg ac adrodda penaeithiad eu bod yn parhau i brofi anawsterau wrth lenwi rhai swyddi gweigion.
- 6.49 Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i bennu nifer y llefydd ar raglenni Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru. Nid oes dystiolaeth i awgrymu bod y model hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o strategaeth bwrpasol i flaengynllunio er mwyn cefnogi twf yn y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg ar y raddfa y mae'r Strategaeth wedi ymrwymo iddi.
- 6.50 Mae'n bwysig nodi bod y dystiolaeth ynglŷn â'r cyflenwad a'r galw am ymarferwyr o fewn y sector cyfrwng Cymraeg yn anghyflawn gan nad yw'r dulliau a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth ar sgiliau iaith y gweithlu yn gynhwysfawr nac yn systematig ar hyn o bryd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg i wella'r broses o gasglu data systematig ar sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg ond nid yw'r prosesau hyn eto'n weithredol.

Dengys data bod nifer yr ymgeiswyr i swyddi yn y sector cyfrwng Cymraeg yn sylweddol is na'r sector cyfrwng Saesneg a bod nifer y ceisiadau ar gyfartaledd i swyddi gweigion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi haneru ers 2010.

- 6.51 Mae safonau iaith ar draws y gweithlu yn bryder i rai arweinyddion a phenaethiaid ysgolion a cholegau. Cesglir bod angen sicrhau y rhoddir sylw i safonau iaith mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon a hyfforddiant parhaus er mwyn codi safon iaith ymarferwyr sydd eisoes o fewn y gyfundrefn addysg.
- 6.52 Mae'r Cynllun Sabothol, sy'n darparu cyfnodau o astudio dwys i ymarferwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, yn brosiect sydd wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol i unigolion ac ysgolion. Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y Cynllun Sabothol a Nod Strategol 4 ac mae penaethiaid ac ymarferwyr yn ei ystyried yn brosiect gwerthfawr. Fodd bynnag, un elfen yn unig o'r broses o gefnogi *'gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant'* (Nod Strategol 4 y Strategaeth) yw'r Cynllun Sabothol. Mae'n cynnig cyfle i lenwi bylchau mewn sgiliau iaith ac ennyn hyder ymysg nifer o ymarferwyr gyda rhywfaint o Gymraeg ond mae angen trefniadau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus 'prif-ffrwd' sy'n sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr rhugl o'r radd flaenaf er mwyn cefnogi twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 6.53 Mae angen sicrhau bod gweithredoedd a'r cyllid cysylltiedig i gynyddu a chefnogi sgiliau'r gweithlu yn rhan integredig o gynlluniau strategol ar lefel leol a, lle'n briodol, ar lefel darparwr. Casglwyd yn yr adroddiad ar y Cynllun Sabothol nad oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r Cynllun fel modd o gefnogi blaenoriaethau a bennir yn y CSGAau yn ddigon cyson.
- 6.54 Dengys y data bod sgiliau Cymraeg nad ydynt yn cael eu defnyddio o fewn y gweithlu ar hyn o bryd. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth fod y 'capasiti ychwanegol' hwn yn cael ei drafod wrth gynllunio niferoedd. Dylai dealltwriaeth o feysydd arbenigedd a lleoliaid yr athrawon cymwysedig

sy'n gallu addysgu'r Gymraeg/drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad ydynt yn gwneud hynny, fod yn wybodaeth bwysig wrth gynllunio niferoedd.

7 Cymorth canolog

- 7.1 Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r gweithredoedd sy'n berthnasol i Nod Strategol 5:

'Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.'

- 7.2 Mae'r Strategaeth yn cynnwys amcanion strategol sy'n cyfeirio at '*annog sefydliadau dyfarnu i ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg*'; '*gwella'r amrywiaeth o adnoddau cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg*'; a chefnogi '*datblygiadau technolegol newydd*' ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn cyfeirio at y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â'r materion hyn, gan ystyried a yw'r cymorth canolog sydd ar gael ar gyfer y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi twf yn y ddarpariaeth.

Cymwysterau

Cefndir

- 7.3 Ystyriwyd argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 (Llywodraeth Cymru, 2012a). Casglwyd yn yr adroddiad bod angen '*sicrhau llwybrau dilyniant clir drwy gyfrwng y Gymraeg*' ac y dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd erbyn 2015. Nododd yr adroddiad fod prinder staff, aseswyr a chymedrolwyr wedi cyfrannu at ddiffyg dewis cymwysterau galwedigaethol a bod angen cymorth parhaus ar gyrff dyfarnu er mwyn parhau i ehangu darpariaeth a dewisiadau i ddysgwyr.
- 7.4 Fel nodwyd ym Mhennod 3, argymhelliad canolog yr Adolygiad o Gymwysterau oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru.

- 7.5 O dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 nid oedd dyletswydd statudol ar gyrff dyfarnu i gynnig cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae Mesur y Gymraeg wedi creu fframwaith cyfreithiol a rheoliadol newydd i'r Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Caiff gyrff dyfarnu eu henwi yn y Mesur fel sefydliadau y gellid gosod safonau arnynt, felly gallai'r Mesur effeithio ar yr hyn a ddisgwylir gan gyrff dyfarnu o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.
- 7.6 Mae mwyafrif y gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru wedi'u lleoli yn Lloegr ac yn gweithredu ledled y DU. Mae dau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru - CBAC ac Agored Cymru – ac mae'r ddau sefydliad yn nodi yn eu datganiadau cenhadaeth eu bod yn ymrwymedig i ddarparu cymwysterau mewn amrywiaeth o feysydd pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.7 Fel nodwyd ym Mhennod 5, cyflwynwyd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gyda'r nod o sicrhau cwricwlwm sy'n cynnig dewis ehangach o bynciau o ansawdd uchel i ddysgwyr 14-19 oed ledled Cymru. Mae'r Rheoliadau a gyhoeddwyd i gefnogi gweithrediad y Mesur yn datgan bod yn rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnig lleiafswm o 25 cwrs lefel 2 i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru. Mae'n rhaid i dri o'r cyrsiau hyn fod yn gyrsiau galwedigaethol. O dan y Rheoliadau mae'n rhaid sicrhau 30 o ddewisiadau i ddysgwyr 16-18 mlwydd oed, a rhaid i bump o'r rhain fod yn gyrsiau galwedigaethol.

Cymwysterau cyffredinol

- 7.8 Mae'r rhaglen Cymorth Grant i Gymwysterau cyfrwng Cymraeg 14-19 yn cynnig cymorth ariannol i gyrff dyfarnu ac mae'n talu costau sy'n ychwanegol at gostau cynnig y cymwysterau cyfrwng Saesneg. Cynigir y Grant i gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol er mwyn eu galluogi i gynnig eu cymwysterau yn Gymraeg am yr un gost i ymgeiswyr â chymwysterau Saesneg.
- 7.9 Cafodd cymwysterau TGAU newydd eu cyflwyno ym Medi 2015. Cyhoeddwyd manylebau yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd yn unol

ag argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau 14-19 (Llywodraeth Cymru, 2012a) a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013.

- 7.10 Adroddodd swyddogion Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru y cyfwelwyd â hwy yn ystod y gwerthusiad eu bod yn parhau i weithio gyda chyrff dyfarnu i sicrhau y bydd y cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol newydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymwysterau galwedigaethol

- 7.11 Darperir cymwysterau galwedigaethol yn bennaf gan y cyrff dyfarnu yn Lloegr nad ydynt yn darparu gwasanaeth dwyieithog fel mater o drefn. Yn debyg i'r sefyllfa yng nghyd-destun cymwysterau cyffredinol a amlinellwyd uchod (7.6), mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth grant i gyrff dyfarnu er mwyn eu hannog i ymateb i alwadau gan ganolfannau am gyfleoedd asesu galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.²⁵ Gall unrhyw gorff dyfarnu gyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol pan fyddant yn dod yn ymwybodol bod galw am gyfleoedd cyfrwng Cymraeg gan ganolfannau ac ymgeiswyr. Mae Llywodraeth Cymru yn talu'r costau sy'n ychwanegol at gostau cyfrwng Saesneg, ar yr amod bod tystiolaeth o alw a sicrwydd ansawdd priodol.²⁶

Tystiolaeth gan randdeiliaid ar gymwysterau

- 7.12 Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at ddatblygiadau newydd o safbwynt cyflwyno cymwysterau newydd, yn cynnwys: cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu ar lefelau 1 i 3 i ddatblygu ac adrodd ar hyfedredd dwyieithog. Ystyria rhai rhanddeiliaid y bydd sefydlu Cymwysterau Cymru yn cynnig cyfle i osod gofynion ar gyrff dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru i sicrhau argaeledd cymwysterau yn y Gymraeg.
- 7.13 Nododd nifer o randdeiliaid eu bod yn disgwyl gweld cynnydd yn y galw am brentisiaethau (gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg), yn dilyn y

²⁵ Bydd Cymwysterau Cymru yn rheoli'r grant o Fedi 2015.

²⁶ Adrodda swyddogion Llywodraeth Cymru bod cyfanswm blynyddol o £120,000 wedi bod ar gael drwy'r grant dros y blynyddoedd diweddaraf.

cynnydd a welwyd mewn niferoedd prentisiaid yn y blynyddoedd diweddar. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dyfarnu grantiau i gyrff dyfarnu wrth iddynt ddatblygu cymwysterau yn y Gymraeg i gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Nododd rhanddeiliaid y bydd angen cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngorau Sgiliau Sector, gyrff dyfarnu a darparwyr hyfforddiant er mwyn adnabod y galw am gymwysterau mewn meysydd newydd.


- 7.14 Adroddodd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru bod rhai gyrff dyfarnu wedi gweithredu'n rhagweithiol ac wedi *'arwain y ffordd ar ddarpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg'*. Nodwyd bod hyn yn deillio o frwdfrydedd ac ymrwymiad swyddogion maes unigol sydd wedi dwyn perswâd ar uwch-dimau rheoli cwmnïau i fuddsoddi mewn datblygu cymwysterau Cymraeg. Nid dyma'r sefyllfa yn gyffredinol, fodd bynnag, ym marn rhanddeiliaid a gyfrannodd i'r gwerthusiad. Adroddodd rhanddeiliaid bod angen gwella'r cynllunio strategol rhwng darparwyr a chyrff dyfarnu o ran datblygu cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.
- 7.15 Cyfeiriodd rhanddeiliaid yn ystod cyfweiliadau at yr angen i barhau i annog gyrff dyfarnu i ddarparu'r un lefel o gymorth i ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg ag sydd ar gael i gefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Cyfeiriodd sawl un at rôl hanfodol Cymwysterau Cymru wrth gefnogi datblygiadau a bod Safonau'r Gymraeg yn gyfle i *'osod gofynion clir ar Gyrff Dyfarnu wrth gefnogi datblygiad cymwysterau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg'* (rhanddeiliad cenedlaethol).
- 7.16 Nododd gyrff dyfarnu bod y broses o wneud cais am, a derbyn, grantiau gan Lywodraeth Cymru yn arafach nawr nag y bu yn y gorffennol.

'Mae'n cymryd yn hirach i wneud cais a derbyn grantiau (bach) ar gyfer, e.e., cyfieithu manylebau cymwysterau. Mae hyn yn gallu achosi oedi o safbwynt pryd mae cymwysterau ar gael yn y Gymraeg.' (Cynrychiolydd corff dyfarnu) [Cyfieithiad]

Barn penaethiaid mewn perthynas â chymwysterau

7.17 Mewn ymateb i gwestiwn ar gymwysterau yn yr arolwg penaethiaid, nododd mwyafrif y penaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg eu bod yn cytuno (24 y cant) neu'n cytuno i raddau (38 y cant) bod yr ystod o gymwysterau cyffredinol cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010. Lleiafrif bach a anghytunodd eu bod wedi gweld gwelliant. Nododd oddeutu traean o bennaethiaid sefydliadau addysg bellach eu bod yn cytuno i raddau bod yr ystod o gymwysterau wedi gwella, gyda chyfran mawr o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn cytuno na'n anghytuno.


Ffigur 16: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r ystod o gymwysterau cyffredinol cyfrwng Cymraeg (e.e. TGAU a Safon Uwch) wedi gwella ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

7.18 Roedd 65 y cant o bennaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cytuno neu'n cytuno i raddau eu bod wedi gweld cynnydd yn yr ystod o gymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg ers 2010 (gweler Ffigur 17 isod). Roedd tua chwarter yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau gyda'r datganiad hwn. Roedd canran is o bennaethiaid sefydliadau addysg bellach yn cytuno (i raddau) bod y dewis o gymwysterau galwedigaethol wedi gwella, gydag oddeutu traean yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau.

Ffigur 17: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r ystod o gymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

7.19 Cynigiodd penaethiaid ac ymarferwyr sylwadau pellach (drwy'r arolwg ac yn ystod ymweliadau ag ysgolion) ynghylch cymwysterau galwedigaethol a'r materion a godwyd amlaf ganddynt oedd:

- Adroddodd penaethiaid eu bod wedi gweld cynnydd yn y cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Fodd bynnag, mae prinder aseswyr a dilyswyr mewn rhai meysydd yn golygu nad oes dewis gan ddysgwyr ond cwblhau eu hasesiadau yn Saesneg. Mae hyn yn rhwystr i ehangu darpariaeth yn y Gymraeg.

'Mae diffyg adnoddau a chyfleoedd asesu yn cyfyngu gallu'r coleg i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg.' (Pennaeth sefydliad addysg bellach)
[Cyfieithiad]

- Trwy gydweithio a rhannu adnoddau (rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a cholegau) mae cyfleoedd i ehangu'r cynnig o gyrsiau/cymwysterau i ddysgwyr.


Adnoddau

- 7.20 Mae'r Gangen Comisiynu Adnoddau yn Uned y Gymraeg mewn Addysg yn gyfrifol am gomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer pob pwnc, oed a gallu o'r Cyfnod Sylfaen i bynciau 14-19 a Chymraeg i Oedolion. Mae'r adnoddau yn ddeunyddiau dosbarth i ddysgwyr nad yw'r farchnad fasnachol yn eu darparu, ac maent yn cael eu comisiynu trwy broses gaffael gan ddefnyddio fframwaith o gontractwyr sydd wedi'u cymeradwyo neu drwy broses dendro sengl.²⁷
- 7.21 Cynhaliwyd *Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru (Adolygiad o Adnoddau)* fel rhan o'r rhaglen ymchwil i gefnogi'r gwerthusiad o'r Strategaeth. Holwyd cwestiynau ar adnoddau cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg hefyd yn yr arolwg penaethiaid.²⁸
- 7.22 Dengys y dystiolaeth o'r *Adolygiad o Adnoddau* bod ymarferwyr yn cydnabod bod y dewis o adnoddau wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd ac y gwelwyd gwelliannau o ran ansawdd adnoddau ac ehangder y dewis. Serch hynny, dengys y dystiolaeth o'r adolygiad bod prinder dewis mewn nifer o feysydd, sef adnoddau electronig a rhyngweithiol yn y Gymraeg (gan gynnwys clipiau fideo), adnoddau cyfoes cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac adnoddau ar gyfer y sector addysg bellach. Mae'r dystiolaeth o'r arolwg penaethiaid yn cefnogi'r canfyddiadau hyn o brinder mewn rhai meysydd. Roedd mwyafrif y penaethiaid yn cytuno (21 y cant) neu'n cytuno i raddau (37 y cant) bod yr ystod o adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010 (gweler Ffigur 18).

²⁷ Dyfarnwyd 295 o gytundebau gwerth £9.6m (amcangyfrif) gan Lywodraeth Cymru rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2014.

²⁸ Roedd yr adolygiad wedi ei gyfyngu i adnoddau a gynhyrchwyd ar gyfer y grŵp oedran 3-19.

Ffigur 18: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010'




Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

*Mae 'Holl ymatebwyr' yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig

7.23 Roedd mwyafrif y penaethiaid o'r farn bod y dewis o adnoddau ar gyfer yr iaith Gymraeg fel pwnc wedi gwella ers cyhoeddi'r Strategaeth. Roedd 23 y cant o bennaethiaid yn cytuno a 43 y cant yn cytuno i raddau bod yr ystod o adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r iaith Gymraeg fel pwnc (iaith gyntaf neu ail iaith) wedi gwella ers 2010. Roedd pedwar y cant yn anghytuno a naw y cant yn anghytuno i raddau gyda'r datganiad hwn (gweler Ffigur 19).

Ffigur 19: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r iaith Gymraeg fel pwnc (iaith gyntaf neu ail iaith) wedi gwella ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

*Mae 'Holl ymatebwyr' yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig

- 7.24 Serch hynny, nododd ymarferwyr bod prinder adnoddau ar gyfer y sector addysg bellach, diffyg adnoddau rhyngweithiol, a diffyg dewis eang o adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn rhai pynciau yng Nghyfnod Allweddol 3. Cynigiodd 52 o benaethiaid sylwadau ar adnoddau cyfrwng neu iaith Gymraeg yn eu hymatebion holiadur. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn nodi anghenion neu'n cyfeirio at ddiffygion yn y dewis o adnoddau o fewn meysydd penodol. Fodd bynnag, cyfeiriodd tua thraean at welliant yn y dewis o adnoddau neu yn ansawdd yr adnoddau sydd ar gael ers 2010.
- 7.25 Casglodd yr *Adolygiad o Adnoddau* bod lle i symleiddio'r broses o rannu gwybodaeth ar adnoddau. Roedd ymarferwyr o'r farn y byddai un ffynhonnell gynhwysfawr ganolog o wybodaeth ar yr holl adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ddefnyddiol. Cefnogwyd hyn gan rai o'r sylwadau gan benaethiaid yn yr arolwg a nododd nad oedd yn hawdd canfod gwybodaeth ynglŷn â'r dewis o adnoddau sydd ar gael.
- 7.26 Cyfeiriodd *Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach* hefyd at yr angen i wella systemau ar gyfer rhannu adnoddau er

mwyn cefnogi tiwtoriaid yn y sector addysg bellach. Nododd yr adroddiad hwnnw bod prinder adnoddau yn medru bod yn broblem ac y byddai ffordd o fapio'r adnoddau sydd ar gael ar draws gwahanol bynciau yn y sector AB yn gymorth i ymarferwyr wrth ddeall yr hyn sydd ar gael a chyfleoedd posibl i rannu deunyddiau dysgu.

- 7.27 Cesglir bod y rhaglen gomisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i 'wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg'. Tra bod y broses o adnabod yr anghenion, comisiynu prosiectau a chyhoeddi adnoddau yn cymryd amser, mae'r rhaglen serch hynny yn caniatáu ymateb i flaenoriaethau strategol cenedlaethol.

Datblygiadau technolegol

- 7.28 Un amcan strategol sy'n gysylltiedig â Nod Strategol 5 yw '*sicrhau bod termau Cymraeg cyfoes wedi'u safoni ar gael i ategu pob agwedd ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*'. Yn 2011, dyfarnwyd grant i Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor i gwblhau prosiect tair blynedd i ddatblygu Termiadur Addysg ac adeiladu ar waith blaenorol a arweinwyd gan ACCAC. Datblygwyd Termiadur Addysg ar-lein sy'n darparu termau safonol i'w defnyddio mewn arholiadau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ac mewn adnoddau. Mae'r geiriadur termau ar gael ar-lein ers 2012²⁹ ac wedi ei chwilio bron i filiwn o weithiau ers ei gyhoeddi yn ôl Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2013-14. Crëwyd ap sydd ar gael i'w lawrlwytho ac erbyn 2014 roedd yr ap wedi'i osod ar dros 20,000 o ddyfeisiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y grant i gynnal a datblygu'r gwasanaeth ymhellach.
- 7.29 Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyd weithio rhwng Uned Technolegau Iaith a CBAC er mwyn sicrhau bod y termau safonol yn cael eu defnyddio'n gyson mewn papurau arholiad a chyhoeddiadau.
- 7.30 Gwelwyd datblygiadau technolegol eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Sefydlwyd Hwb,

²⁹ www.termiaduraddysg.org

Ystorfa Cynnwys Digidol Cenedlaethol sy'n gartref i gasgliad o adnoddau digidol.^{30 31}

- 7.31 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu'r RNIB i ddatblygu lleisiau synthetig Cymraeg, i'w defnyddio gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg sy'n ddall a rhannol ddall. Mae'r lleisiau, sydd ar gael am ddim i unigolion a sefydliadau anfasnachol, yn caniatáu i ddefnyddwyr ddarllen testun yn y Gymraeg. Adroddodd Llywodraeth Cymru bod ysgolion a cholegau yn gwneud defnydd o'r adnodd i gynorthwyo dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Casgliadau mewn perthynas â chymorth canolog

- 7.32 Dengys y dystiolaeth y bu gwelliant yn y cymorth canolog i'r sector addysg cyfrwng Cymraeg ers cyhoeddi'r Strategaeth. Mae gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi arwain at gynnydd yn y dewis o gymwysterau cyfrwng Cymraeg ac yn hynny o beth wedi cefnogi nodau'r Strategaeth. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod galw parhaus gan ymarferwyr am gymorth gan Lywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu i ddarparu cymwysterau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i gyrff dyfarnu sicrhau bod capasiti digonol ganddynt i ddarparu cymwysterau'n ddwyieithog, yn benodol aseswyr a chymedrolwyr gyda sgiliau Cymraeg.
- 7.33 Cesglir ei bod hi'n hollbwysig hefyd bod cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru yn blaengynllunio er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer datblygiad adnoddau cyfrwng Cymraeg i gyd-fynd â lansio cymwysterau newydd. Mae casgliad yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012) y dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd (ac felly yr adnoddau i'w cefnogi) fod ar gael yn y Gymraeg ar yr un pryd â rhai Saesneg hefyd yn gyson â'r canfyddiad hwn. Dengys y dystiolaeth o'r astudiaethau ardal a'r *Adolygiad o Adnoddau* bod cyfran

³⁰ Yn ogystal ag adnoddau newydd, mae Hwb yn cynnwys archif o adnoddau a oedd gynt ar wefan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (GCaD).

³¹ Mae gwerthusiad o raglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn digwydd yn ystod 2015 sydd yn ystyried dylanwad ac effeithiolrwydd Hwb. Disgwylir i adroddiad y gwerthusiad gael ei gyhoeddi yn 2016.

fawr o ymarferwyr yn teimlo mai parhau y mae'r angen i leihau'r amser rhwng cynhyrchu fersiynau Saesneg a Chymraeg o adnoddau.

- 7.34 Dengys y dystiolaeth mai rhaglen comisiynu adnoddau Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am yrru'r twf yn y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg. Cesglir bod y rhaglen comisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i *'wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg'*. Tra bod y broses o adnabod yr anghenion, comisiynu prosiectau a chyhoeddi adnoddau yn cymryd amser, mae'r rhaglen serch hynny yn caniatáu ymateb i flaenoriaethau strategol cenedlaethol. Er bod y rhaglen gomisiynu yn rhan ganolog o'r gwaith i gefnogi Nod Strategol 5, mae prinder dewis mewn nifer o feysydd yn parhau i fod yn broblem i benaethiaid ac ymarferwyr. Adroddwyd bod prinder adnoddau electronig a rhyngweithiol yn y Gymraeg, adnoddau cyfoes cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac adnoddau ar gyfer y sector addysg bellach.
- 7.35 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod galw parhaus am raglen comisiynu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddiwallu anghenion ymarferwyr a dysgwyr. Dengys y dystiolaeth bod ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i wynebu baich gwaith ychwanegol wrth baratoi adnoddau cyfrwng Cymraeg i lenwi bylchau.

8 Sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg

- 8.1 Ceir cydnabyddiaeth yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn *iaith fyw: iaith byw*, Strategaeth y Gymraeg 2012-17, o'r gydberthynas rhwng datblygu sgiliau yn y Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg a defnydd yr iaith yn gymdeithasol ac yn y gymuned. Cyfeiria'r Strategaeth at yr angen i sicrhau cyfundrefn '*sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog*' (Llywodraeth Cymru, 2010:15). Er nad yw'r Strategaeth yn diffinio beth yw bod yn 'wirioneddol ddwyieithog', awgryma hyn lefel o sgiliau a hyfedredd sy'n golygu bod pobl ifanc yn medru defnyddio'r iaith yn hyderus yn yr ysgol a thu hwnt. Nid yw mwyafrif y dysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn siarad yr iaith gartref ac maent felly'n caffael yr iaith drwy'r system addysg.³² Mae datblygiad parhaus sgiliau iaith Gymraeg pobl ifanc yn ddibynnol ar y modd y mae ysgolion yn meithrin y sgiliau hyn, ynghyd â hyder y bobl ifanc i ddefnyddio'r iaith. Mae'n glir felly bod y system addysg yn cael dylanwad allweddol ar botensial pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.
- 8.2 Mae'r bennod hon yn ymdrin â dau gwestiwn ymchwil sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau uchod. Yn gyntaf, a yw'r Strategaeth wedi hwyluso'r broses o wella safonau dysgu ac addysgu iaith Gymraeg? Yn ail, a yw sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y byd addysg a thu hwnt? Mae angen cydnabod y byddai cynnig ateb cynhwysfawr i'r ail gwestiwn yn golygu astudiaeth llawer ehangach na'r hyn y bu modd ei gwmpasu yn y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn codi cwestiynau allweddol ynghylch y berthynas rhwng gwella sgiliau yn y Gymraeg a defnyddio'r sgiliau hynny mewn cyd-destunau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

³² Yn seiliedig ar Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), Llywodraeth Cymru. Yn 2013/14 38 y cant o'r plant mewn ysgolion cynradd Cymraeg oedd yn siarad Cymraeg gartref (21,034 o ddysgwyr 5 oed neu drosodd). Y ffigur cyfatebol ddeng mlynedd yn ôl yn 2003/04 oedd 46 y cant (23,511 o ddysgwyr 5 oed neu drosodd).

8.3 Mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol i ddau o'r Nodau Strategol, sef:

Nod Strategol 3 (detholiad): Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn...;³³ ac hefyd

Nod Strategol 6: Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned

8.4 Yn y bennod hon, ceir trosolwg o ddata ar gyrhaeddiad mewn perthynas ag elfen o Nod Strategol 3, yn benodol sgiliau iaith Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) cyn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaethau ardal, cyfweiliadau rhanddeiliaid a'r arolwg penaethiaid.

Tystiolaeth mewn perthynas â Nod Strategol 3: Sgiliau iaith Gymraeg

Cyrhaeddiad a safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf

8.5 Dengys data Llywodraeth Cymru gynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 ers cyhoeddi'r Strategaeth (Tabl 15). Ni ellir priodoli'r cynnydd a welwyd mewn lefelau cyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i'r Strategaeth yn benodol gan fod nifer helaeth o ffactorau eraill yn dylanwadu ar gyrhaeddiad. Mae'r cynnydd mewn lefelau cyrhaeddiad ers 2010 yn adlewyrchu parhad o gynnydd mewn cyrhaeddiad o ran Cymraeg iaith gyntaf ers 1999. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd gradd A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi aros yn gyson yn ystod y pum mlynedd diwethaf (Tabl 15).

³³ Trafodir elfen arall Nod Strategol 3 ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

Tabl 15: Canran y dysgwyr yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r ganran yn cyrraedd gradd A*-C yng Nghyfnod Allweddol 4 (%)


Cyfnod Allweddol	Canran y dysgwyr (%)				
	2010	2011	2012	2013	2014
Cyfnod Allweddol 2: Canran yn cyrraedd lefel 4+	81.0	82.0	84.0	86.7	88.1
Cyfnod Allweddol 3: Canran yn cyrraedd lefel 5+	76.8	81.3	84.2	87.6	90.1
Cyfnod Allweddol 4: canran sy'n cyrraedd gradd A*-C	73.4	74.6	73.8	73.5	73.7

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Barn ymarferwyr a rhanddeiliaid ar safonau Cymraeg iaith gyntaf

8.6 Yn ystod yr astudiaethau ardal, roedd mwyafrif yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid o'r farn bod safonau addysgu a dysgu Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella ers 2010, yn gyson â'r data cyrhaeddiad uchod. Er nad oes modd priodoli'r gwelliant i'r Strategaeth, dengys data'r arolwg penaethiaid bod y mwyafrif o'r farn bod safonau addysgu a dysgu Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella ers 2010. Roedd bron i dri chwarter o benaethiaid (71 y cant) yn cytuno neu'n cytuno i raddau bod safonau wedi gwella, gyda lleiafrif (9 y cant) yn anghytuno neu'n anghytuno i raddau (gweler Ffigur 20).

Ffigur 20: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

* Mae holl ymatebwyr yn cynnwys data penaethiaid addysg bellach

8.7 Er bod y dystiolaeth yn dangos cynnydd yng nghyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (Tabl 15), awgryma'r dystiolaeth o'r astudiaethau ardal a'r arolwg penaethiaid mai ffactorau eraill sydd yn bennaf gyfrifol am ysgogi'r cynnydd yn hytrach na'r Strategaeth. Cyfeiriodd mwyafrif y penaethiaid ac ymarferwyr yn ystod yr astudiaethau ardal at y pwyslais cenedlaethol ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y ffocws ar safonau ac asesiadau PISA fel ffactorau sydd, yn eu tyb hwy, wedi gyrru gwelliannau mewn cyrhaeddiad yn gyffredinol, gan gynnwys cyrhaeddiad a safonau iaith Gymraeg. Ymysg y penaethiaid a anghytunodd â'r datganiad, cynigiodd lleiafrif sylwadau ansoddol yn nodi nad oeddent wedi gweld unrhyw gynnydd na newid arwyddocaol mewn safonau Cymraeg iaith gyntaf yn ystod y blynyddoedd ers lansio'r Strategaeth.

Ffactorau sy'n cefnogi ac yn llesteirio cynnydd mewn safonau Cymraeg iaith gyntaf a defnydd o'r Gymraeg

- 8.8 Cafwyd ystod o sylwadau gan benaethiaid ac ymarferwyr mewn perthynas â'r ffactorau sydd, yn eu barn hwy, yn cefnogi ac yn llesteirio cynnydd mewn safonau yn y Gymraeg ymysg dysgwyr a defnydd o'r Gymraeg (e.e. cefndir ieithyddol dysgwyr; cyrhaeddiad addysgiadol yn gyffredinol; y pwyslais a roddir gan ysgolion ar hybu defnydd o'r Gymraeg). Er bod y dystiolaeth yn dangos cynnydd o ran safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg, roedd nifer o benaethiaid ac ymarferwyr yn yr astudiaethau ardal yn ansicr a oedd hyn yn arwain at gynydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc.
- 8.9 Yn ystod yr astudiaethau ardal, trafodwyd dylanwad ffactorau diwylliannol-gymdeithasol ar safonau a defnydd yr iaith Gymraeg gan ddysgwyr. Nododd mwyafrif y rhanddeiliaid, penaeithiaid ac ymarferwyr bod codi safonau iaith a sicrhau defnydd iaith gyda chyfran helaeth o ddysgwyr yn dod o gartrefi di-Gymraeg yn her barhaus a oedd yn wynebu ymarferwyr. Nododd tua hanner yr ymarferwyr bod angen sicrhau rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau llafar iaith Gymraeg mewn ysgolion er mwyn gwella'r sgiliau hyn a magu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn tair o'r chwe ardal, roedd y sylwadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw mwyafrif y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg yn siarad yr iaith yn y cartref ac felly'r ysgol yw'r unig leoliad lle y mae nifer yn cael cyfle i glywed a defnyddio'r iaith. Ategwyd y sylwadau hyn gan ymarferwyr yn y tair ardal arall, fodd bynnag, lle'r oedd cyfran uwch o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg gartref. Awgryma hyn bod angen ystyriaeth bellach o sut y gellid cynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llafar Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn gwella safonau a hybu defnydd o'r iaith.
- 8.10 Yn ystod yr astudiaethau ardal, pwysleisiodd yr holl benaethiaid a mwyafrif yr ymarferwyr fod sgiliau iaith ymarferwyr yn ffactor hollbwysig wrth gynnal a gwella safonau iaith Gymraeg. Yn ystod yr astudiaethau ardal a'r arolwg penaeithiaid, mynegodd lleiafrif o benaethiaid bryderon ynghylch sgiliau iaith ymarferwyr (gan ategu'r dystiolaeth ym Mhennod 6).

8.11 Cyfeiriodd lleiafrif o benaethiaid ac ymarferwyr yn yr astudiaethau ardal a'r arolwg penaeithiaid at ffactorau eraill sydd, yn eu barn hwy, yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau iaith lafar a defnydd y Gymraeg:

- ethos ysgolion a'r graddau y mae ysgolion yn gweithio'n rhagweithiol i godi a chynnal safonau a chynllunio'n bwrpasol ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg;
- y disgwyliadau y mae ysgolion yn eu gosod o safbwynt gwella safonau a chyrhaeddiad, a chysondeb o ran egluro'r rhesymau dros ehangu defnydd anffurfiol iaith ymhlith dysgwyr;
- yr angen am barhad a chysondeb mewn safonau rhwng Cyfnodau Allweddol, yn enwedig rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Cyrhaeddiad a safonau mewn Cymraeg ail iaith

8.12 Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â safonau Cymraeg ail iaith (sydd wedi bod yn bwnc statudol ers 1988) yn cyflwyno darlun cymysg. Mae Adroddiadau Blynyddol Estyn wedi bod yn feirniadol o safonau Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 dros nifer o flynyddoedd. Gan gyfeirio at ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 yn Adroddiad Blynyddol 2013-14, daeth Estyn i'r casgliad nad oedd safonau mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella yn ystod y flwyddyn o dan sylw. Nododd yr adroddiad nad oedd dysgwyr yn hyderus i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar lafar nac yn ysgrifenedig.

'Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau llafaredd ac ysgrifennu Cymraeg ymhellach na gwersi Cymraeg. Nid oes hyder ganddynt ac maent yn amharod i gyfranogi mewn sgysiau byr ynglŷn â phynciau bob dydd.' (Estyn, 2015:63)

8.13 Rhoddwyd cryn sylw i gyrhaeddiad a safonau mewn Cymraeg ail iaith yn adroddiad *Un iaith i bawb* (Llywodraeth Cymru, 2013), adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013. Cyflwynodd yr adroddiad hwn gyfres o 24 argymhellid er mwyn ceisio mynd i'r afael â safonau a chyrhaeddiad isel yn y pwnc gan gynnwys yr angen i Gymraeg ail iaith '*gael yr un statws â phynciau craidd yn yr ysgolion*'. Cafodd yr adroddiad hwn sylw gan yr Athro Graham Donaldson yn yr adolygiad o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu, a

gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ar y ffordd ymlaen ar gyfer Cymraeg ail iaith ym mis Hydref 2015.

- 8.14 Mae'r darlun yng Nghyfnod Allweddol 3 ychydig yn fwy cadarnhaol na Chyfnod Allweddol 2 o safbwynt y cynnydd mewn safonau. Adrodda Estyn bod safonau mewn Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi gwella mewn blynyddoedd diweddar (Estyn, 2015:6). Mae data cyrhaeddiad yn cefnogi hyn: gwelwyd cynnydd cyson rhwng 2007-14 yng nghanran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefelau disgwylledig yng Nghyfnod Allweddol 3 (Tabl 16). Nid oes modd priodoli'r cynnydd yng nghyrhaeddiad Cymraeg ail iaith ers 2010 i'r Strategaeth, fodd bynnag.

Tabl 16: Canran y dysgwyr yn cyrraedd y lefel ddisgwylledig (lefel 5+) mewn Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, 2007-2014 (%)

	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Cyfanswm y dysgwyr yn cyrraedd y lefel ddisgwylledig	50.6	54.1	56.0	59.4	64.6	68.2	73.3	77.8

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 8.15 Mae Estyn yn cydnabod y cynnydd yn y ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylledig (Tabl 16) ond gan gyfeirio hefyd at y ffaith nad yw dysgwyr yn gyffredinol yn ymarfer nac yn datblygu eu Cymraeg yn ddigon aml o hyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth (Estyn, 2015:72).
- 8.16 Mae dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn dilyn cwrs TGAU byr neu'r cwrs llawn. Mae'r cwrs byr yn llai eang a cheir llai o oriau o addysgu. Adroddodd *Un iaith i bawb* (Llywodraeth Cymru, 2013c) ar y rhesymau pam y mae nifer o ysgolion yn dewis cynnig y cwrs TGAU Cymraeg ail iaith byr yng Nghyfnod Allweddol 4:
- gallai cynnig y cwrs byr yn hytrach na'r cwrs llawn gael ei ystyried yn un ffordd o ryddhau oriau cyswllt ar yr amserlen am fod ysgolion am gynnig ystod ehangach o opsiynau (e.e. opsiynau galwedigaethol/Bagloriaeth Cymru);

- mae'r nifer gyfyngedig o athrawon Cymraeg ail iaith arbenigol yn ei gwneud yn her i gynnig y cwrs TGAU llawn i fwy o ddysgwyr mewn mwy o ysgolion.

8.17 Mae nifer yr ymgeiswyr a gofrestrir ar gyfer y cwrs TGAU byr Cymraeg ail iaith yn uwch nag ar gyfer y cwrs llawn: yn 2014, cofrestrwyd 10,183 ar y cwrs llawn o gymharu ag 11,478 ar y cwrs byr.

8.18 Mae canran y dysgwyr sy'n ennill gradd A*-C mewn TGAU Cymraeg ail iaith wedi cynyddu yn raddol ond mae hyn yn seiliedig ar waelodlin isel. Mae Tabl 17 yn dangos y gwahaniaeth yng nghanran yr ymgeiswyr sy'n cael A*-C yn y cwrs llawn o gymharu â'r cwrs byr: 30 pwynt canran o wahaniaeth yn 2014.

Tabl 17: Data Cyfnod Allweddol 4 - canran y dysgwyr yn cyrraedd A*-C mewn Cymraeg ail iaith cwrs llawn a chwrs byr 2009 i 2014 (%)

	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Cwrs llawn	70	72	71	74	76	77
Cwrs byr	45	47	47	47	48	47

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

8.19 Wrth adrodd ar ddarpariaeth Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4, mae Estyn wedi cwestiynu effeithiolrwydd y cyrsiau TGAU wrth feithrin sgiliau iaith Gymraeg.

'Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd yn dda mewn ychydig o ysgolion yn unig.' (Estyn, 2014b:45)

'Nid yw cyrsiau TGAU mewn Cymraeg ail iaith yn cynhyrchu disgyblion dwyieithog na phobl ifanc sy'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.' (Estyn, 2014b:44)


Barn ymarferwyr a rhanddeiliaid ar safonau Cymraeg ail iaith

8.20 Yn ystod yr astudiaethau ardal nododd penaeithiaid, ymarferwyr a rhanddeiliaid safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r cynnydd mewn safonau Cymraeg ail iaith ers 2010. Nid oedd barn glir gan fwyafrif yr ymarferwyr yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (sef mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn yr astudiaethau ardal) gyda nifer yn nodi nad oedd hyn yn

berthnasol iddynt. Mewn ysgolion dwyieithog, roedd mwyafrif y penaethiaid ac ymarferwyr o'r farn bod safonau wedi gwella o fewn eu hysgolion hwy. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid cenedlaethol yn feirniadol o safonau Cymraeg ail iaith, gan nodi nad oedd safonau wedi gwella yn eu tyb nhw.

- 8.21 Yn eu hymatebion i'r arolwg roedd dros hanner (58 y cant) o benaethiaid yn cytuno neu'n cytuno i raddau gyda'r datganiad 'Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith wedi gwella ers 2010'. Gwerth nodi ymatebion penaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg yn Ffigur 21, isod. Atebodd oddeutu tri chwarter o benaethiaid ysgolion Saesneg gan gytuno neu gytuno i raddau bod safonau Cymraeg ail iaith wedi gwella yn y pum mlynedd diwethaf. Ychydig iawn o benaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg a anghytunodd (neu anghytunodd i raddau) gyda'r datganiad (4 y cant o benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a 7 y cant o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg).

Ffigur 21: Ymatebion penaethiaid i'r datganiad: 'Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith wedi gwella ers 2010'



Ffynhonnell: Arolwg penaethiaid (Arad 2015)

*Mae 'Holl ymatebwyr' yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig

Ffactorau sy'n cefnogi ac yn llesteirio cynnydd mewn safonau Cymraeg ail iaith

8.22 Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi edrych yn fanwl ar y cynnydd a welwyd wrth gynllunio darpariaeth Cymraeg ail iaith ers cyhoeddi adroddiad *Un iaith i bawb* (Llywodraeth Cymru, 2013c). Fodd bynnag, yn ystod yr astudiaethau ardal a'r arolwg penaethiaid, cyfeiriodd penaethiaid at nifer o faterion sy'n berthnasol i ymdrechion i godi safonau Cymraeg ail iaith. Roedd penaethiaid yn awyddus i dynnu sylw at y cynnydd a'r datblygiadau cadarnhaol a welwyd yn eu hysgolion. Gan na chynhaliwyd ymweliadau ag ysgolion cyfrwng Saesneg yn ystod y gwerthusiad, mae mwyafrif y dystiolaeth yn y paragraffau isod yn seiliedig ar ymweliadau ag ysgolion dwyieithog yn yr astudiaethau ardal ac ymatebion ansoddol penaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg i gwestiynau agored yn yr arolwg penaethiaid. Dylid cydnabod mai lleiafrif o benaethiaid a gynigiodd ymatebion ansoddol i'r arolwg.

8.23 Yn ystod yr astudiaethau ardal, cyfeiriodd yr holl benaethiaid a mwyafrif yr ymarferwyr mewn ysgolion dwyieithog at bwysigrwydd cefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r consortia addysg rhanbarthol wrth ddarparu Cymraeg ail iaith (e.e. datblygu a rhannu deunyddiau dysgu a chynlluniau gwaith). Tra bod mwyafrif y penaethiaid a'r ymarferwyr yn yr astudiaethau ardal wedi cyfeirio at enghreifftiau o gefnogaeth a oedd yn werthfawr, mynegodd y mwyafrif bryderon bod llai o gefnogaeth ar gael erbyn hyn oherwydd toriadau i gyllidebau a phryderon ynghylch faint o gefnogaeth oedd ar gael gan staff awdurdodau lleol a chonsortia. Ategwyd y dystiolaeth hon yn yr ymatebion i gwestiynau agored yr arolwg penaethiaid, gyda lleiafrif yn nodi nad ydynt yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan yr awdurdod lleol i ddatblygu darpariaeth. Yn gysylltiedig â hynny, mynegodd lleiafrif o benaethiaid bryderon y bydd lleihad yn y gefnogaeth gan Athrawon Bro o ganlyniad i doriadau cyllidol yn arwain at gwmp mewn safonau dros amser.

'Mae'r Awdurdod Lleol wedi colli ei ymgynghorydd yn y Gymraeg ac mae hyn yn destun gofid. Nid yw'r gwasanaeth datblygu rhanbarthol yn darparu cymorth penodol ar gyfer addysgu yng Nghymru.' [Cyfieithiad]

(Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg) [Cyfieithiad]

- 8.24 Cyfeiriodd yr holl benaethiaid ac ymarferwyr ysgolion dwyieithog yn yr astudiaethau ardal at heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth geisio codi safonau Cymraeg ail iaith. Ategwyd nifer o'r sylwadau hyn yn yr ymatebion i'r arolwg penaeithiaid. Nododd lleiafrif o benaethiaid bod ail adrodd agweddau o'r cwricwlwm Cymraeg ail iaith ar ddechrau Cyfnod Allweddol 3 yn cael effaith niweidiol ar agweddau dysgwyr tuag at y pwnc. Nododd y penaeithiaid hynny bod hyn yn arwain at ddiffyg dilyniant yn y ddarpariaeth (Cymraeg ail iaith) rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.
- 8.25 Wrth ymateb i gwestiynau agored yn yr arolwg penaeithiaid, nododd lleiafrif o benaethiaid cynradd bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi cynnig rhagor o gyfleoedd i blant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Adroddodd lleiafrif bach o benaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg eu bod yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn ffordd drawsgwricwlaidd ar draws ystod o feysydd dysgu. Cyfeiriodd lleiafrif o benaethiaid a gynigiodd ymatebion i gwestiynau agored yr arolwg at bwysau amser o fewn y cwricwlwm oherwydd gorfod gweithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a datblygiadau eraill ar draws y cwricwlwm. Adroddodd y penaeithiaid hynny eu bod yn ei chael hi'n anodd neilltuo 'amser priodol' ar gyfer darpariaeth Cymraeg ail iaith. Mae safbwyntiau'r lleiafrif hyn o benaethiaid yn codi cwestiynau ynglŷn a sut y mae rhai penaeithiaid yn gweld statws Cymraeg ail iaith ac i ba raddau y maent yn perchnogi'r pwnc.

'Byddai'r pwyslais ar godi safonau mewn addysgu a dysgu Cymraeg Ail iaith yn ganmoladwy pe na bai nifer fawr o newidiadau arwyddocaol eraill yn digwydd ar yr un pryd, ee gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, newidiadau i asesu a'r cwricwlwm mewn pynciau eraill. Fel arfer, mae gormod yn cael ei weithredu ar yr un pryd ... a'r perygl ydy bod mentrau gwerthfawr yn cael eu hanwybyddu yn hytrach na chael y swm angenrheidiol o amser a sylw i'w galluogi i ymsefydlu.'

(Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg) [Cyfieithiad]

- 8.26 Cynigiodd lleiafrif o benaethiaid ymatebion i gwestiynau agored yn yr arolwg yn nodi bod cyswllt uniongyrchol, yn eu barn nhw, rhwng ansawdd a chynnydd sgiliau iaith Gymraeg ac ansawdd yr addysgu. Nododd rhai ei bod yn anodd penodi a chadw staff Cymraeg ail iaith o ansawdd uchel. Adroddodd lleiafrif bach o benaethiaid ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr arolwg mai un her sylfaenol wrth geisio codi lefelau cyrhaeddiad mewn Cymraeg ail iaith yw agweddau negyddol dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 tuag at y pwnc.
- 8.27 Er nad yw'r gwerthusiad hwn wedi archwilio darpariaeth Cymraeg ail iaith mewn manylder, mae'r dystiolaeth eilaidd a adolygwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymarferwyr a rhanddeiliaid yn gyson â chanfyddiadau adroddiad *Un iaith i bawb* (Llywodraeth Cymru, 2013c). Awgryma'r dystiolaeth bod y gwendidau yn narpariaeth Cymraeg ail iaith ar draws y Cyfnodau Allweddol yn parhau, ac ni welwyd cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r argymhellion allweddol.

Prosiectau Cymraeg ail iaith

- 8.28 Fel rhan o raglen weithredu'r Strategaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido dau brosiect i gefnogi sgiliau Cymraeg ail iaith mewn ysgolion. Mae'r cyntaf o'r rhain, sef prosiect *Cymraeg Bob Dydd*, yn anelu i ymestyn defnydd y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae'r ail brosiect yn darparu cyrsiau i athrawon Cyfnod Allweddol 2 (CA2) mewn dwy ardal rhwng 2013 a 2016. Cwlbhawyd adolygiadau o'r ddau brosiect fel rhan o'r gwerthusiad hwn a chyhoeddwyd yr adroddiadau ym mis Ionawr 2016.
- 8.29 Awgryma'r dystiolaeth bod y prosiectau peilot Cymraeg ail iaith sydd wedi'u cyflwyno fel rhan o raglen weithredu'r Strategaeth wedi eu croesawu gan ymarferwyr a dysgwyr. Awgryma'r dystiolaeth bod ymyraethau yn seiliedig ar gyrsiau preswyl/trochi yn debygol o arwain at fwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau ieithyddol tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, dylid nodi mai prosiectau peilot cymharol fach a adolygwyd fel rhan o'r rhaglen ymchwil

hon ac nid ydynt wedi eu gweithredu ar raddfa digon mawr i fesur eu cyfraniad at gyflawni nodau'r Strategaeth.

Tystiolaeth mewn perthynas â Nod Strategol 6: sgiliau iaith Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned

8.30 Yn ystod yr astudiaethau ardal, holwyd dysgwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid ynglŷn â'r cyfleoedd oedd ar gael i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ysgol y tu hwnt i addysg ffurfiol, a thu hwnt i'r ysgol yn y gymuned. Yn ogystal, gofynnwyd cwestiynau fel rhan o'r arolwg penaethiaid ar y defnydd anffurfiol ac achlysurol o'r Gymraeg o'r Gymraeg gan ddysgwyr. Cyflwynir y dystiolaeth o'r ffynonellau hyn isod.

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol

8.31 Yn ystod yr astudiaethau ardal, nododd mwyafrif yr ymarferwyr, rhanddeiliaid, dysgwyr a'r rhieni ei bod yn anodd cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr o fewn yr ysgol. Codwyd y pwynt hwn ar draws y chwe ardal ond yn fwy aml yn y tair ardal oedd â chanrannau uwch o ddysgwyr o gartrefi di-Gymraeg. Nododd mwyafrif yr ymarferwyr yn y tair ardal honno nad oedd dysgwyr, yn eu tyb hwy, yn gwneud digon o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol i ddatblygu eu sgiliau llafar. Cefnogwyd y safbwynt hwnnw gan nifer o ymarferwyr yn y tair ardal arall yn ogystal â mwyafrif y rhanddeiliaid cenedlaethol. Gan gydnabod fod y dystiolaeth hon yn seiliedig yn rhannol ar ganfyddiad ymatebwyr ynghylch ymddygiad ieithyddol dysgwyr, awgryma hyn bod angen ystyried ymhellach ddulliau o gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu sgiliau llafar dysgwyr – yn enwedig dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg.

8.32 Yn ystod grwpiau trafod yr astudiaethau ardal, roedd mwyafrif y dysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion eu hysgolion i gynnal gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol. Roedd hyn yn fwy amlwg mewn tair o'r ardaloedd lle nad oedd canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, roedd dysgwyr mewn ardaloedd â

chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg hefyd yn gwerthfawrogi ymdrechion eu hysgol i gynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg gan nodi nad oedd gweithgareddau cyfatebol ar gael mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- 8.33 Adroddwyd yn ystod yr astudiaethau ardal bod gwreiddio'r iaith Gymraeg fel rhan o hunaniaeth dysgwyr ac annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i sefyllfaoedd ffurfiol yn galw am ymdrech ychwanegol ar ran athrawon. Nododd rhai ymarferwyr mewn gwahanol ardaloedd sylwadau yn cyfeirio at y 'cyfrifoldeb' sydd ar ysgolion i annog defnydd o'r iaith Gymraeg ar y buarth a thu hwnt i furiau'r ysgol. Mae'r Strategaeth yn cydnabod yr angen i sgiliau iaith Gymraeg gael eu hatgyfnerthu yn y gymuned neu gan deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio yn uniongyrchol at *gyfrifoldeb* ysgolion i sicrhau hyn. Gan ategu sylwadau tebyg gan rai ymarferwyr ar draws y chwe ardal, nododd un pennaeth yn yr astudiaethau ardal amheuaeth a yw polisi cenedlaethol yn cydnabod yn ddigonol y '*gwerth ychwanegol y mae athrawon ysgolion Cymraeg yn [ei ddarparu]*' er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg.
- 8.34 Mae'r sylwadau yn codi cwestiynau ynghylch swyddogaethau ysgolion wrth gynnig cyfleoedd i sicrhau defnydd y Gymraeg. Fel y nodwyd yn adroddiad interim y gwerthusiad hwn, mewn rhai ardaloedd sy'n bennaf ddi-Gymraeg, yr ysgol i bob pwrpas yw'r 'gymuned Gymraeg'. Adroddwyd sylwadau tebyg gan fwyafrif yr ymarferwyr mewn tair o'r chwe astudiaeth ardal (ardaloedd â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg). Nododd un pennaeth, er enghraifft, mai '*ychydig iawn o weithgareddau allgyrsiol neu gymdeithasol*' oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac oherwydd hyn, yr ysgol sy'n mynd ati i gynnig clybiau ar ôl-ysgol a gweithgareddau allgyrsiol i annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.
- 8.35 Mewn tair o'r astudiaethau ardal (ardaloedd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg) roedd ymarferwyr yn fwy tebygol o nodi cysylltiadau'r ysgolion â mudiadau allanol (e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith a Chlybiau Ffermwyr Ifanc) nag yn y tair ardal arall. Pwysleisiodd mwyafrif yr ymarferwyr (a rhai dysgwyr) ar draws yr astudiaethau ardal bod y cyfleoedd a gynigir gan fudiadau o'r fath yn bwysig er mwyn dangos bod y

Gymraeg yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol. Dengys y dystiolaeth bod ysgolion yn awyddus i feithrin y cysylltiadau hyn er mwyn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd a gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr yn y Gymraeg.

- 8.36 Yn eu hymatebion i gwestiynau agored ac ansoddol yr arolwg penaethiaid, cynigiodd rhai penaethiaid sylwadau mewn perthynas â defnydd dysgwyr o'r iaith Gymraeg, gan gyfeirio at enghreifftiau o brosiectau unigol oedd yn gweithredu o fewn eu hysgol. Cynigiodd lleiafrif o benaethiaid ysgolion cyfrwng Gymraeg sylwadau ar gynllun Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI) gan nodi bod y prosiect, yn eu barn nhw, wedi cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr.³⁴

'Mae prosiect PCAI wedi bod yn fuddiol. Dylid parhau i gefnogi cynlluniau fel hyn, gydag ystyriaeth i gymhwyso egwyddorion cynllunio ieithyddol yn y sector cynradd yn ogystal.' (Pennaeth ysgol uwchradd cyfrwng Gymraeg)

- 8.37 Cynigiodd lleiafrif o benaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg sylwadau ar y defnydd anffurfiol ac achlysurol o'r Gymraeg o fewn yr ysgol yn eu hymatebion i'r arolwg penaethiaid. Pwysleisiodd rhai penaethiaid bod eu hysgolion nhw yn cymryd camau i annog yr holl ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol o fewn yr ysgol. Cyfeiriodd penaethiaid at ymdrechion i gefnogi ethos Gymraeg gref o fewn yr ysgol, cynnal gweithgareddau dwyieithog a chyflogi athrawon sy'n medru hyrwyddo'r iaith.

'Fel ysgol, rydym wedi gwneud ymrwymiad clir i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd o'r Meithrin i Flwyddyn 6. Mae ein dogfennaeth yn ddwyieithog (yn amlieithog) ac mae'r staff yn defnyddio'r iaith ymysg ei gilydd i ddangos ei phwysigrwydd.' (Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg) [Cyfieithiad]

³⁴ Mae'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, sydd yn weithredol ers 2007, yn anelu at gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg yn arbennig ymysg dysgwyr nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn naturiol na'n rheolaidd. Fel rhan o'r prosiect, y dysgwyr eu hunain sy'n cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hysgolion.

8.38 Cyhoeddwyd *Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15* gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2015.³⁵ Ymhlith canfyddiadau allweddol yr arolwg ceir y canlynol:

- bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nag yn unrhyw le arall;
- bod pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser, neu bron bob amser, yn yr ysgol nag ydynt o wneud hynny gyda'u ffrindiau neu gartref;
- bod cyswllt clir rhwng rhuglder ac amllder defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r canfyddiadau hyn, law yn llaw â'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad, yn codi cwestiynau allweddol ynghylch rôl y gyfundrefn addysg o ran datblygu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr a chynnig cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith.

Casgliadau mewn perthynas â sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg

8.39 Mae tystiolaeth yn dangos cynnydd mewn cyrhaeddiad a safonau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith fel pynciau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 sy'n gyson â'r tueddiadau yn y data cyn cyhoeddi'r Strategaeth yn 2010. Ni cheir tystiolaeth bod y Strategaeth wedi cael dylanwad uniongyrchol ar ansawdd darpariaeth a safonau. Awgryma'r dystiolaeth o'r astudiaethau ardal a'r arolwg penaethiaid mai'r pwyslais cenedlaethol ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, asesiadau PISA ac ar wella safonau yn gyffredinol, gan gynnwys cyrhaeddiad a safonau iaith Gymraeg, sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am ysgogi'r newidiadau yn hytrach na'r Strategaeth. Nododd ymarferwyr yn ystod yr astudiaethau ardal bod amcanion y Strategaeth yn gyson â fframweithiau polisi ac arolygu ehangach ond nid yw'n 'gyrru' ymdrechion i wella safonau nac yn '*dylanwadu'n uniongyrchol ar ddarpariaeth yn yr ystafell ddosbarth*' (pennaeth ysgol uwchradd).

8.40 Dengys tystiolaeth y gwerthusiad bod safonau Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella ers 2010 yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, gyda'r data cyrhaeddiad

³⁵ Llywodraeth Cymru 2015, *Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*

yn dangos cynnydd. Bu data cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 yn gymharol gyson dros yr un cyfnod. Ar y cyfan, felly, mae'r data cyrhaeddiad yn gadarnhaol ac adlewyrchwyd hyn yng nghanlyniadau'r arolwg penaethiaid a'r astudiaethau ardal, gyda'r mwyafrif o ymarferwyr o'r farn bod safonau Cymraeg iaith Gyntaf wedi gwella. Fel nodwyd uchod, fodd bynnag, nid oes modd priodoli'r cynnydd hwn i'r Strategaeth.

- 8.41 Darlun cymysg a geir o'r dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â safonau Cymraeg ail iaith. Ar yr un llaw, dengys data cyrhaeddiad y bu gwelliant yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 ers 2010 ac adlewyrchir hynny yng nghanlyniadau'r arolwg penaethiaid gyda'r mwyafrif o benaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg yn cytuno bod safonau wedi gwella. Fodd bynnag, dengys y data bod y gwelliant hwn yn seiliedig ar waelodlin isel. Casglwyd tystiolaeth ansoddol a oedd yn mynegi beirniadaeth ynglŷn â safonau Cymraeg ail iaith yn yr arolwg penaethiaid ac yn yr holl astudiaethau ardal. Bu cryn feirniadaeth yn ogystal o safonau Cymraeg ail iaith ar draws y Cyfnodau Allweddol mewn cyhoeddiadau eraill yn ystod cyfnod y gwerthusiad (Estyn, 2012-13; Llywodraeth Cymru, 2013c).
- 8.42 Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi edrych yn fanwl ar y cynnydd a welwyd wrth gynllunio darpariaeth Cymraeg ail iaith ers cyhoeddi adroddiad *Un iaith i bawb* (Llywodraeth Cymru, 2013c). Adolygwyd dau brosiect peilot sydd wedi'u cyflwyno fel rhan o raglen weithredu'r Strategaeth, ac awgryma'r dystiolaeth bod y prosiectau peilot hyn wedi eu croesawu gan ymarferwyr a dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau yn ein galluogi i ddangos eu traweffaith, ac nid yw'r prosiectau wedi eu gweithredu ar raddfa digon mawr i fesur eu cyfraniad at gyflawni nodau'r Strategaeth.
- 8.43 Cafwyd tystiolaeth i awgrymu nad yw'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llafar bob amser mewn ffordd sy'n eu galluogi i'w defnyddio mewn ystod eang o sefyllfaoedd cymdeithasol a chyd-destunau mwy anffurfiol eraill. Dengys y dystiolaeth bwysigrwydd ysgolion wrth ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i addysg ffurfiol. Mae'r dystiolaeth yn dangos pwysigrwydd allweddol y rôl hon mewn ardaloedd lle nad oes canran uchel o siaradwyr Cymraeg lle gwelir ysgolion fel canolbwynt y 'gymuned

Gymraeg'. Er mwyn meithrin siaradwyr Cymraeg sy'n hyderus i ddefnyddio eu sgiliau llafar yn y gymuned a'r gweithle, cesglir bod angen cynnig rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer sgiliau llafar mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

9 Casgliadau ac argymhellion

1. Gwreiddio gweledigaeth y Strategaeth

- 9.1 Dengys tystiolaeth y gwerthusiad hwn bod cefnogaeth i weledigaeth a nodau'r Strategaeth ymysg y swyddogion (cenedlaethol a lleol), rhanddeiliaid ac ymarferwyr sydd wedi ymwneud â hi. Cafwyd ymateb cadarnhaol ganddynt i'r ymrwymiad at dwf y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg ac at sicrhau bod y system addysg yn cefnogi cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae'r ffaith bod gweledigaeth genedlaethol ar gyfer addysg Gymraeg wedi'i ffurfioli a'i mynegi wedi bod o gymorth i rai sefydliadau ac unigolion wrth gynllunio i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. Bu gweledigaeth, nodau a deilliannau'r Strategaeth yn ffocws ar gyfer trafodaethau ar gynllunio darpariaeth o fewn Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac ar lefel leol.
- 9.2 Serch hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw gweledigaeth y Strategaeth wedi'i gwreiddio mewn ffordd gyson ar draws yr holl bartneriaid gweithredu ac ar hyd gwahanol haenau'r gyfundrefn addysg, o Lywodraeth Cymru lawr i awdurdodau lleol a darparwyr. Er bod cefnogaeth eang i'r Strategaeth a chydabyddiaeth o'r weledigaeth ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg, nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod y weledigaeth wedi treiddio mewn ffordd sydd wedi gyrru newidiadau arwyddocaol i'r ffordd y mae partneriaid yn cynllunio darpariaeth. Mae'r Strategaeth wedi methu sicrhau'r blaengynllunio effeithiol ar draws y gwahanol gyfnodau addysg a hyfforddiant i wireddu'r deilliannau a thargedau a gyflwynwyd yn 2010.
- 9.3 Cesglir mai un o'r rhesymau mwyaf amlwg am hyn yw'r newidiadau cyson a phellgyrhaeddol i'r tirlun polisi addysg yng Nghymru yn ystod y cyfnod ers cyhoeddi'r Strategaeth. Nid yw'r Strategaeth wedi bod yn flaenoriaeth amlwg i randdeiliaid yn wyneb y sylw a roddwyd i adolygiadau polisi, rhanbartholi trefniadau gwella ysgolion a'r pwysau ar godi safonau. Gellid casglu, felly, nad yw gweledigaeth y Strategaeth yn ddigon gwydn neu wedi'i phrif ffrydio'n ddigonol i wrthsefyll dylanwad datblygiadau allanol eraill. Tanlinella hyn yr angen i sicrhau datblygiad polisi integredig, fel bod

newidiadau i'r gyfundrefn addysg yn ystyried ymrwymïadau presennol tuag at ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyfrannu tuag at gyflawni nodau'r Strategaeth. Mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun datblygiadau polisi cyfredol. Er enghraifft dylai Llywodraeth Cymru a'i phartnerïaid, wrth ymateb i argymhellion adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* Yr Athro Donaldson ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal a'i hatgyfnerthu.

- 9.4 Rheswm arall pam nad yw'r Strategaeth wedi'i gwreiddio yw'r amrywiadau yn lefel y sylw a roddwyd iddi gan wahanol bartnerïaid gweithredu. Mae rhai awdurdodau lleol a darparwyr blaengar wedi gweithio i sicrhau cyswllt rhwng gweledigaeth a nodau'r Strategaeth a'u cynlluniau strategol sefydliadol. Ar y llaw arall, gwelwyd diffyg arweinyddiaeth i flaengynllunio ar gyfer cefnogi'r twf parhaus mewn addysg cyfrwng Cymraeg ymysg nifer o awdurdodau lleol a darparwyr.
- 9.5 Gan gofio mai gosod cyfeiriad strategol hirdymor yw nod y Strategaeth, cesglir bod angen ail-ddatgan y weledigaeth ac ymrwymiad i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan bwysleisio'r cyfraniad allweddol sydd gan yr holl bartnerïaid ar draws Cymru i'w gynnig er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.
- 9.6 Mae'r gwerthusiad wedi canfod y bu gwelliannau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol a rhai partnerïaid gweithredu eraill yn cynllunio i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, nid yw'r camau a gymerwyd hyd yn hyn wedi sicrhau twf ar y raddfa a ddymunir gan Lywodraeth Cymru (gweler 'Cynnydd yn erbyn targedau' 9.10-9.15). Dengys y dystiolaeth nad yw'r cynllunio ar sail ymateb i'r galw, sef un o egwyddorion y Strategaeth, o anghenraid yn sicrhau twf yn y ddarpariaeth.
- 9.7 Wrth ail-ddatgan ei gweledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei disgwyliadau ar bartnerïaid gweithredu i flaengynllunio'n bwrpasol i gynyddu darpariaeth a, lle'n briodol, symbylu twf yn y galw er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg. Yr her i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod ei gweledigaeth yn cael ei pherchnogi'n llawn gan bartnerïaid a'i

gweithredu gyda phenderfyniad ar hyd holl haenau'r gyfundrefn addysg ledled Cymru.

Argymhelliad 1: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno datganiad polisi sy'n cadarnhau ac yn atgyfnerthu ei gweledigaeth ar gyfer twf parhaus addysg cyfrwng Gymraeg. Dylai'r datganiad o weledigaeth hwn bwysleisio'r dyletswydd sydd ar yr holl bartneriaid i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg.

2. Deilliannau a thargedau'r Strategaeth

- 9.8 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth gyda chyfres o dargedau ar gyfer 2015 a 2020, gan gydnabod bod y gwaith o dyfu addysg cyfrwng Gymraeg yn agenda hirdymor. Gwelwyd twf yn y gyfundrefn addysg cyfrwng Gymraeg yn ystod y blynyddoedd ers cyhoeddi'r Strategaeth. Fodd bynnag, bu'r cynnydd yn erbyn targedau gwreiddiol y Strategaeth ar gyfer 2015 yn amrywiol (gweler adran 3 isod).
- 9.9 Mae targedau'r Strategaeth yn cyflawni dau ddiben. Yn gyntaf, maent yn cynnig mesuriadau o gynnydd yn Rhaglen Weithredu'r Strategaeth ac yn rhan bwysig o'r system atebolrwydd a chraffu. Cyn cyhoeddi'r Strategaeth, nid oedd targedau cenedlaethol ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Gymraeg yn bodoli. Yn ail, mae elfen ddyheadol i'r targedau: maent yn gosod cyfeiriad i bartneriaid sy'n rhan o'r broses cynllunio darpariaeth. Clywyd yn ystod y gwerthusiad bod partneriaid gweithredu (awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a darparwyr) o'r farn bod y Strategaeth – yn benodol bodolaeth y deilliannau a thargedau – wedi bod yn arf i hwyluso datblygiadau.

3. Cynnydd yn erbyn y targedau

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- 9.10 Bu cynnydd yn nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd ers cyhoeddi'r Strategaeth, gyda'r ffigur

yn codi i'r lefel uchaf erioed. Serch hynny mae'r ganran wedi cwmpo'n fyr o'r targed ar gyfer 2015 ac mae targed 2020 yn ymddangos yn heriol iawn heb ymyriadau a gweithredu pellgyrhaeddol.

Tabl 18: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg (iaith gyntaf), 2009-2014

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
%	21.0%	21.8%	21.9%	21.9%	22.4%	22.2%	25%	30%
Canlyniad: Cynnydd yn erbyn gwaelodlin 2009 ond yn cwmpo'n fyr o darged 2015. Y data ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf yn dangos cwmp yn erbyn y targed.								

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blyneddol y Strategaeth 2014-15

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

- 9.11 Gwelwyd cynnydd graddol yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (iaith gyntaf), er ei bod yn ymddangos yn annhebygol y caiff targed 2015 ei gyrraedd. Mae'r gyfundrefn addysg Gymraeg yn parhau i golli cyfran sylweddol o ddysgwyr rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Dengys y data bod y gostyngiad mwyaf yn yr awdurdodau lleol gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Byddai sicrhau bod canrannau uwch o ddysgwyr yn parhau mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn cael effaith sylweddol ar gynnydd yn erbyn y deilliant hwn.

Tabl 19: Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg, 2009-2014

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
%	15.9%	16.0%	16.3%	16.8%	17.0%	17.1%	19%	23%
Canlyniad: Cynnydd graddol yn erbyn gwaelodlin 2009 ond yn cwmpo'n fyr o darged 2015.								

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blyneddol y Strategaeth (2014-15)

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

- 9.12 Ceir dau set o ddangosyddion yn y Strategaeth i fesur cynnydd yn erbyn Deilliant 3; mae'r rhain yn cyfeirio at ganrannau dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Cyrhaeddwyd targedau 2015 ar gyfer y dangosyddion hyn dair blynedd yn gynnar ond gwelwyd llithriad yn y canrannau yn 2013. Gwelwyd niferoedd cynyddol o ddysgwyr yn astudio pynciau galwedigaethol megis cyrsiau BTEC, yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac awgrymwyd bod prinder aseswyr cyfrwng Cymraeg a diffyg adnoddau ar gyfer rhai pynciau wedi cael peth dylanwad ar y canrannau hyn.

Tabl 20: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, 2009-2014

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
%	80.9%	79.5%	81.0%	85.3%	81.6%	79.3%	84%	88%
Canlyniad: Cyrhaeddwyd y targed yn gynnar ond ni chafodd y lefel ddisgwyliedig ei chynnal a gwelwyd gostyngiad yn y ganran ers 2012.								

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15

Tabl 21: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, 2009-2014

							Targedau	
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
%	58.4%	59.7%	62.2%	64.9%	55.5%	52.5%	62%	68%
Canlyniad: Cyrhaeddwyd y targed yn gynnar ond ni chafodd y lefel ddisgwyliedig ei chynnal a gwelwyd gostyngiad yn y ganran ers 2012.								

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

- 9.13 Gwelwyd cynnydd yng nghanran y gweithgareddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, a chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer 2015. Noder,

fodd bynnag, bod y data a adroddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r deilliant hwn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar y cyd. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith yn sylweddol is.

Tabl 22: Gweithgareddau addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fesul sector, 2009-2014

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	Targedau	
							2015	2020
Ysgolion	17.0%	17.1%	21.0%	17.4%	20.1%	20.5%	18%	20%
Sefydliadau AB	6.1%	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%	8.5%	7%	10%
Dysgu seiliedig ar waith	1.8%	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%	3.0%	2.5%	4%
Canlyniad: Targedau wedi'u cyrraedd. Fodd bynnag, mae'r data a adroddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r deilliant hwn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar y cyd. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith yn sylweddol is.								

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg

- 9.14 Mae dangosyddion Deilliant 5 yn cyfeirio at gyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch iaith gyntaf ac ail iaith. Mae'r cynnydd yn erbyn y ddau ddangosydd wedi cwmpo'n fyr o'r targedau a osodwyd gyda llai o ddysgwyr yn dewis astudio'r pynciau hyn na phan gyhoeddwyd y Strategaeth.

Tabl 23: Dangosydd 5a: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o gofrestrïadau TGAU Cymraeg iaith, ddwy flynedd yn gynharach, 2004-2014

						Targedau	
2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
6.7%	6.7%	6.8%	5.5%	5.9%	5.3%	7%	9%
Canlyniad: Gostyngiad yn y ganran ers gwaelodlin 2009.							

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15

Tabl 24: Dangosydd 5b: Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch ail iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach, 2004-2014

						Targedau	
2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2020
2.9%	2.4%	2.6%	2.3%	1.9%	1.8%	3.5%	4%
Canlyniad: Gostyngiad yn y ganran ers gwaelodlin 2009.							

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth 2014-15

- 9.15 Wrth edrych ar gynnydd yn erbyn y targedau, gwelir nad yw'r Strategaeth wedi arwain at y newid disgwyliedig yn nifer yr asesiadau, gweithgareddau dysgu a chofrestriadau cyfrwng Cymraeg. Yn wir, yn achos nifer o'r dangosyddion mae'r darlun yn llai cadarnhaol na phan gyhoeddwyd y Strategaeth. Gellir cwestiynu pa mor realistig oedd cyflawni targedau 2015. Prif bwyslais y Strategaeth yw cryfhau'r mecanwaith cynllunio, cynorthwyo'r broses o adeiladu capasiti y sector cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i bartneriaid a darparwyr. Nid yw camau datblygiadol o'r natur hwn o reidrwydd yn arwain yn y tymor byr at gynnydd yn y ddarpariaeth ar draws y gwahanol gyfnodau addysg, sef yr hyn y mae deilliannau a dangosyddion y Strategaeth yn canolbwyntio arno. Bydd mesur cynnydd yn erbyn y targedau yn debygol o fod yn ymarferiad mwy arwyddocaol yn y cyfnod hyd at 2020 wrth i weithrediad y CSGAau symud ymlaen.

Argymhelliad 2: i Lywodraeth Cymru

Dylid adolygu'r targedau cenedlaethol ar gyfer 2020 a'u cynnwys fel rhan o'r datganiad polisi ar addysg cyfrwng Cymraeg. Dylid cynnwys is-dargedau ar lefel ranbarthol ar gyfer deilliannau lle bo hynny'n briodol.

4. Gweithredu'r Strategaeth

- 9.16 Yn ogystal ag amlinellu gweledigaeth a deilliannau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Strategaeth yn cynnwys Rhaglen Weithredu sy'n

gosod disgwyliadau ar bartneriaid, gan gynnwys mudiadau cenedlaethol, awdurdodau lleol, darparwyr addysg a hyfforddiant a fforymau ardal.

- 9.17 Bu'r Strategaeth yn ddefnyddiol fel offeryn polisi i rai o swyddogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid wrth godi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ymysg gwahanol gynulleidfaoedd. Mae'r gweithdrefnau newydd a gyflwynwyd yn sgil y Strategaeth, gan gynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a threfniadau monitro cysylltiedig, wedi cyfrannu tuag at godi proffil addysg cyfrwng Cymraeg.
- 9.18 Er mwyn cefnogi'r broses weithredu, cyflwynwyd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n gosod trefniadau cynllunio ar sail statudol. Mae hyn yn gam pwysig sydd yn sicrhau bod seilwaith cynllunio hirdymor mewn lle.
- 9.19 Ar draws holl elfennau'r gwerthusiad hwn, tanlinellwyd pwysigrwydd ewyllys, ymagwedd ac ymrwymiad unigolion mewn rolau allweddol wrth gefnogi gweithrediad y Strategaeth. Tra bod mecanweithiau cynllunio wedi'u cryfhau, mae arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Addysg, aelodau etholedig, uwch swyddogion a phenaethiaid sefydliadau addysg yn parhau i ddylanwadu'n gryf ar effeithiolrwydd a thraweffeithiau'r gweithredu. Mae sicrhau gweithredu effeithiol yn gofyn am arweinyddiaeth a pherchnogaeth ar hyd gwahanol haenau'r gyfundrefn addysg, o Lywodraeth Cymru, i awdurdodau lleol a darparwyr. Cesglir y gallai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a darparwyr) fod wedi dangos mwy o arweinyddiaeth er mwyn gyrru gweithrediad y Strategaeth yn rhagweithiol ac fel elfen prif ffrwd o'r gyfundrefn addysg.
- 9.20 Mae rhyngberthynas allweddol rhwng y Strategaeth a pholisïau eraill ym maes addysg. Yn ystod y gwerthusiad cafwyd enghreifftiau sydd yn awgrymu nad yw addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnwys bob tro fel ystyriaeth integredig ym mholisïau addysg Llywodraeth Cymru. Dylid sicrhau bod anghenion penodol y sector addysg cyfrwng Cymraeg, a'r ymrwymiad i gefnogi'r sector, yn cael eu hystyried wrth i raglenni a strategaethau eraill gael eu cynllunio.

Argymhelliad 3: i Lywodraeth Cymru

Dylai arweinyddion hŷn o fewn Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyried yn greiddiol ar hyd y broses o gynllunio a gweithredu polisïau addysg. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth ofalus o gyfraniad a thraweffaith tebygol polisïau ar y deilliannau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt yn y Strategaeth.

Argymhelliad 4: i bartneriaid gweithredu

Dylai awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a darparwyr addysg a hyfforddiant sicrhau bod

- a) arweinyddion yn arddel gweledigaeth y Strategaeth a'u bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â nodau a deilliannau'r Strategaeth;
- b) nodau a deilliannau'r Strategaeth yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o'u cynlluniau strategol sefydliadol.

5. Cynllunio darpariaeth

- 9.21 Mae'r gwerthusiad wedi canfod y bu gwelliannau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol a rhai partneriaid gweithredu eraill yn cynllunio i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, nid yw'r camau a gymerwyd hyd yma wedi sicrhau twf ar y raddfa a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gysylltiedig â'r mater o gynllunio darpariaeth ar sail 'ymateb i'r galw gwybodus ymhlith rhieni', sef un o egwyddorion y Strategaeth.
- 9.22 Fel y trafodwyd yn adroddiad interim y gwerthusiad, mae'r egwyddor hon yn codi cwestiwn allweddol ynghylch y gwahaniaeth rhwng (i) cynllunio er mwyn ymateb i'r galw a (ii) cynllunio gyda'r bwriad clir o gynyddu darpariaeth a symbylu twf yn y galw. Ceir ystyriaeth ychwanegol ynghylch a yw'r egwyddor o gynllunio darpariaeth mewn ymateb i'r galw yn sail addas ar gyfer cynllunio ym mhob sector, gan gynnwys y sector addysg bellach, lle mae lefel y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn isel yn hanesyddol.

Cynllunio darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg

- 9.23 Mae sicrhau twf darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn gam hollbwysig yn y broses o gynyddu addysg Gymraeg yn y cyfnodau statudol. Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi cwblhau adolygiad manwl o ddylanwad y Strategaeth ar ddarpariaeth cyn-statudol. Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth nad yw darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cwrdd â'r galw mewn nifer o ardaloedd. Mae'r sefyllfa hon yn tanseilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau twf addysg cyfrwng Cymraeg.
- 9.24 Er gwaethaf rhai eithriadau mewn ardaloedd blaengar, nid yw CSGAau yn cyflwyno strategaethau clir ar gyfer cynyddu mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n hollbwysig bod rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Mudiad Meithrin a grwpiau sy'n cynrychioli llais rhieni, yn medru dylanwadu ar y CSGAau a chefnogi'r broses o adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynyddu pwyntiau mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar.

Argymhelliad 5: i Lywodraeth Cymru

Dylid sicrhau bod pob awdurdod yn gosod targedau ar gyfer tyfu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a'u cynnwys yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Argymhelliad 6: i Lywodraeth Cymru

Dylid cynnal astudiaeth benodol ar gynllunio darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar, gan ganolbwyntio ar y materion isod:

- asesu i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg fel rhan integredig o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg;
- y camau sydd eu hangen er mwyn i awdurdodau a phartneriaid gweithredu sicrhau llwybrau dilyniant clir ar gyfer teuluoedd o'r cyfnod cyn-statudol i ysgolion;
- canllawiau/dulliau y gellid eu defnyddio ar lefel leol i symbylu galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar;
- yr amrywiadau yn y ffordd y mae awdurdodau yn casglu gwybodaeth am y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o Asesiadau o

Ddigonolrwydd Gofal Plant;

- y blaenoriaethau a'r gofynion wrth ddatblygu'r gweithlu blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

Cynllunio darpariaeth yn y cyfnod statudol

- 9.25 Dengys tystiolaeth gan awdurdodau lleol bod y Strategaeth wedi esgor ar drefn gynllunio fwy strwythuredig a gwelwyd tystiolaeth o ymagwedd fwy cydlynus wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws chwech astudiaeth ardal y gwerthusiad.
- 9.26 Mae gosod CSGAau ar sail statudol wedi bod yn ddatblygiad pwysig mewn cyd-destun lleol ac yn genedlaethol. Cryfhau'r seilwaith cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg oedd un o amcanion allweddol y Strategaeth ac mae'r CSGAau yn ganolbwynt i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wrth drafod, paratoi a gweithredu i gynyddu darpariaeth. Mae'r trefniadau adrodd a monitro hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn medru dal awdurdodau lleol yn atebol am eu cynlluniau gweithredu ar lefel leol.
- 9.27 Fodd bynnag, er gwaetha'r sylw ychwanegol a roddwyd i brosesau cynllunio mae'r dystiolaeth yn codi amheuan ynglŷn â chapasiti awdurdodau lleol i lunio a gweithredu cynlluniau strategol a fydd yn arwain at dwf addysg cyfrwng Cymraeg. Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid a phenaethiaid bod gwahanol lefelau o ymrwymiad (yn y gwahanol awdurdodau) tuag at lunio a gweithredu cynlluniau cadarn ac uchelgeisiol. Mae rhai awdurdodau lleol yn araf i ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.
- 9.28 Mae *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru)* yn nodi'n glir y gofynion ar awdurdodau lleol wrth ymgynghori ar eu Cynlluniau. Serch hynny, nid oes cysondeb yn y ffordd y mae awdurdodau yn ymgynghori gydag ysgolion, darparwyr a rhanddeiliaid lleol. Mae lle i gryfhau'r ffordd y mae nifer o awdurdodau yn sicrhau mewnbyn partneriaid i'r broses o lunio'r Cynlluniau.

Argymhelliad 7: i awdurdodau lleol

Dylai awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad cynhwysfawr ac agored wrth ddiwygio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y dyfodol, yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau perthnasol.

- 9.29 Ers cyhoeddi'r Strategaeth, rhoddodd Llywodraeth Cymru bwyslais ar sicrhau bod partneriaid gweithredu (awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a darparwyr) yn sefydlu prosesau cynllunio strategol cadarn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae partneriaid gweithredu yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gweinyddol sydd arnynt i ymgymryd â chynllunio darpariaeth. Ni roddwyd yr un lefel o sylw, hyd yma, i fonitro ansawdd a thraweffeithiau gweithredu'r cynlluniau. Y cam nesaf i Uned y Gymraeg mewn Addysg yw sicrhau bod trefniadau cadarn yn bodoli i graffu ar ansawdd ac effeithiolrwydd y gweithredoedd ac ymyriadau gan awdurdodau lleol, darparwyr a phartneriaid gweithredu eraill.

Argymhelliad 8: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol ar gynnydd ac effeithiolrwydd gweithredu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Byddai'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i adnabod yr awdurdodau hynny sydd wedi llwyddo i dyfu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a herio awdurdodau sydd wedi tan berfformio yn erbyn eu cynlluniau a thargedau lleol. Gallai'r adroddiad hwn fod yn gyfrwng i rannu arferion da wrth weithredu'r cynlluniau.

- 9.30 Gwelwyd enghreifftiau o ddiffyg cysylltiad rhwng amcanion y Strategaeth a chynlluniau ehangach. Mae angen gwella'r cydgysylltiad rhwng nodau'r Strategaeth a CSGAau a pholisïau a gweithdrefnau lleol perthnasol eraill, megis polisïau cludiant a chynlluniau blynyddoedd cynnar. Mae angen i Lywodraeth Cymru gyfleu'r neges hon i arweinyddion yn yr awdurdodau lleol gan fod tystiolaeth bod penderfyniadau a wneir gan rai awdurdodau yn tanseilio cynlluniau statudol awdurdodau lleol i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 9: i awdurdodau lleol

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod penderfyniadau, polisiâu a gweithdrefnau addysg lleol yn adlewyrchu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a bod hyn yn cael ei gyfleu yng nghynnwys a gweithrediad eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynlluniau perthnasol eraill.

- 9.31 Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i golli nifer sylweddol o ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo i addysg uwchradd. Dengys y data bod cyfran o ddysgwyr yn trosglwyddo o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i astudio mewn ffrydiau Saesneg neu ddwyieithog ac yn dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae bodolaeth ysgolion dwyieithog yn ffactor bwysig yn y patrymau dilyniant a welir yng Nghymru: mae'r cyfraddau dilyniant isaf yn yr ardaloedd lle mae'r nifer uchaf o ysgolion dwyieithog.

Argymhelliad 10: i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i flaenoriaethu gwella cyfraddau dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd y Cyfnodau Allweddol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn:

- a) dylid sicrhau bod gan swyddogion a chynllunwyr polisi lleol ddealltwriaeth o'r rhesymau y tu ôl i benderfyniadau rhieni a phlant i newid cyfrwng;
- b) dylid gosod targedau clir ar gyfer cynyddu'r ganran o ddysgwyr sy'n parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg hyd at Gyfnod Allweddol 4 yn yr ardaloedd hynny gyda'r cyfraddau dilyniant isaf.

Cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19

- 9.32 Gwelwyd newidiadau niferus i ddarpariaeth addysg a hyfforddiant 14-19 ers cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae gweithredu'r Mesur wedi cefnogi nod y Strategaeth o gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ôl-14 drwy ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio cwricwlâ lleol sy'n hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae gwaith y Rhwydweithiau Rhanbarthol 14-19 a'r fforymau cyfrwng Cymraeg trawsffiniol wedi arwain at well cydweithio rhwng darparwyr ar weithgareddau i rannu arfer dda a datblygu'r gweithlu mewn rhai ardaloedd. Dengys data y bu cynnydd yn nifer y pynciau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigiwyd yn holl ranbarthau Cymru ers gweithrediad y Mesur.

- 9.33 Ymddengys bod y cydweithio rhwng ysgolion wedi gwella mewn nifer o ardaloedd. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn ganlyniad i'r sefyllfa ariannol y mae ysgolion yn ei hwynebu (sy'n gorfodi rhagor o gynllunio strategol er mwyn rhannu adnoddau), yn hytrach na dylanwad y Strategaeth. Adroddwyd bod cystadleuaeth niweidiol rhwng ysgolion a cholegau yn parhau mewn sawl ardal.
- 9.34 Cyflwynwyd fframwaith cyllido newydd yn y flwyddyn academiaidd 2014/15 sy'n cyllido sefydliadau ar sail rhaglenni, yn hytrach na chymwysterau, gan osod pwyslais arbennig ar ansawdd y dysgu a'r deilliannau i ddysgwyr. Mae'r fframwaith yn parhau i neilltuo cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n gynnwys ar hyn o bryd i ddeall pa effaith y bydd y trefniadau cyllido newydd yn ei chael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd angen monitro sut y mae darparwyr yn addasu i'r fframwaith newydd, gan edrych yn benodol ar ei ddylanwad ar allu sefydliadau i gynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth a rhaglenni dysgu cyfrwng Cymraeg.
- 9.35 Mae'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi cefnogi'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach ac wedi arwain at gynnydd yn y sylw a roddir i gefnogi'r Gymraeg mewn colegau. Llwyddodd yr Hyrwyddwyr, drwy weithio gydag uwch-dimau rheoli a phartneriaid eraill, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gynyddu darpariaeth. Gwelwyd rhai datblygiadau mewn gwahanol sefydliadau ond casglwyd nad oedd canlyniadau'r gwaith datblygiadol eto i'w weld yn llawn. Casglwyd hefyd mai un o wendidau'r broses gynllunio yn y sector addysg bellach yw diffyg cynlluniau gweithredu ar lefel sefydliadol. Nid yw'r gweithredu'n ddigon pwrpasol a strategol er bod cefnogaeth i nodau'r Strategaeth ymysg penaethiaid. Yn sgil hyn, ychydig iawn o gynnydd a

welwyd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach yn ystod oes y Strategaeth.

Argymhelliad 11: i sefydliadau addysg bellach

Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau bod ganddynt gynlluniau gweithredu i ddatblygu darpariaeth Gymraeg sy'n gyfredol ac sy'n nodi eu meysydd blaenoriaeth yn glir. Dylai cynlluniau strategol y sefydliadau nodi sut y byddant yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y colegau i gefnogi twf yn y sector.

Argymhelliad 12: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cydberthynas a chysondeb rhwng CSGAau a chynlluniau gweithredu darpariaeth cyfrwng Cymraeg sefydliadau addysg bellach. Lle nad yw hyn yn digwydd, dylai Llywodraeth Cymru gynnig gwelliannau i'r cynlluniau er mwyn hwyluso cynnydd tuag at ddeilliant 4 y Strategaeth, sef 'mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith'.

9.36 Mae'r modd y caiff y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 ei fesur yn anghyson ar hyn o bryd, gan ddibynnu'n ormodol ar wybodaeth ymarferwyr yn hytrach na dulliau cyson o gofnodi dewis iaith astudio dysgwyr. Datblygwyd system newydd cenedlaethol o ymgeisio am lefydd yn y sector addysg bellach (y broses ymgeisio gyffredin), fydd yn cynnig y cyfle i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector. Gallai hyn wella prosesau cynllunio sefydliadau gan adnabod y galw yn gynharach.

Argymhelliad 13: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 mewn modd mwy systematig. Dylid archwilio sut y gellid sicrhau bod dysgwyr yn mynegi eu dewis iaith astudio fel rhan o broses ymgeisio gyffredin newydd.

Cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

- 9.37 Dengys y dystiolaeth ddarlun cymysg o ran newidiadau i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag ADY ers cyhoeddi'r Strategaeth. Gwelwyd enghreifftiau yn rhai o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy lle mae cefnogaeth arbenigol wedi ei datblygu, gyda gyda rhai awdurdodau yn blaengynllunio er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg mewn canolfan anghenion dwys benodedig. Fodd bynnag, gwelwyd hefyd enghreifftiau hefyd o ddiffyg capasiti i gefnogi dysgwyr ag ADY mewn ardaloedd eraill. Un o sgil-ffeithiau'r diffyg cefnogaeth arbenigol yw'r pwysau ychwanegol ar ymarferwyr wrth iddynt geisio ymateb i anghenion dysgwyr mewn modd adweithiol. Clywyd enghreifftiau anecdotaidd bod diffyg cefnogaeth wedi arwain at ddysgwyr yn trosglwyddo o'r sector cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.
- 9.38 Gwelwyd cryn amrywiaeth yng nghynnwys y CSGAau hefyd, gyda rhai enghreifftiau o awdurdodau lleol blaengar yn datblygu canolfannau ADY newydd, rhannu adnoddau ar draws ysgolion a sicrhau cydweithio rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth arbenigol tra bod eraill yn dueddol o roi mwy o bwyslais ar gefnogaeth yn yr ysgolion unigol. Awgryma'r dystiolaeth bod angen ymchwil pellach i'r maes hwn yn benodol er mwyn ystyried sut y dylai cefnogaeth i ddysgwyr ag ADY ddatblygu yng nghyd-destun twf cyffredinol o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 14: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad pellach mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r adolygiad ystyried pa arferion da sy'n bodoli ar lefel leol a rhanbarthol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y maes.

6. Y Gweithlu

- 9.39 Nod y Strategaeth oedd adeiladu capasiti a sgiliau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o ymarferwyr ar draws

pob cyfnod addysg a hyfforddiant. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y Strategaeth wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i fàs critigol y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.

- 9.40 Mae trefniadau yn eu lle ers cyn cyhoeddi'r Strategaeth sy'n darparu cefnogaeth werthfawr i ddarpar-athrawon ac ymarferwyr cymwysedig. Mae'r cymhellion ariannol ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant athrawon yn y Gymraeg yn gyfraniad pwysig i gefnogi'r gweithlu a gwelwyd twf yn nifer a chanran y myfyrwyr sy'n cwblhau cwrs HCA ac sy'n medru addysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 9.41 Mae'r dystiolaeth ynglŷn â'r cyflenwad a'r galw am ymarferwyr yn y sector yn anghyflawn gan nad yw'r dulliau a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth yn gynhwysfawr nac yn systematig ar hyn o bryd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg i wella'r broses o gasglu data systematig ar sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg ond nid yw'r prosesau hyn eto'n weithredol. Adroddwyd pryderon ynghylch y cyflenwad o ymarferwyr gyda sgiliau Cymraeg gan benaethiaid ysgolion a cholegau. Cafwyd tystiolaeth bod nifer yr ymgeiswyr i swyddi yn y sector cyfrwng Cymraeg yn sylweddol is na'r sector cyfrwng Saesneg. Adroddir bod prinder mewn rhai pynciau yn y sector uwchradd a diffyg cynorthwywyr dosbarth gyda sgiliau Cymraeg o safon uchel.

Argymhelliad 15: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn datblygu dull cynhwysfawr a systematig i asesu'r cyflenwad a'r galw am ymarferwyr cyfrwng Cymraeg o fewn y sector. Dylai hyn arwain at gynllunio mwy strategol ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol a chefnogi'r broses o gynyddu'r cyflenwad ac ansawdd ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg.

- 9.42 Mae'r Cynllun Sabothol, sy'n darparu cyfnodau o astudio dwys i ymarferwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg, yn brosiect sydd wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol i unigolion ac ysgolion. Mae angen sicrhau bod gweithredoedd a'r cyllid cysylltiedig i

gynyddu a chefnogi sgiliau'r gweithlu yn rhan integredig o gynlluniau strategol lleol a, lle'n briodol, ar lefel darparwr. Casglwyd yn yr *Adolygiad o'r Cynllun Sabothol* nad oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r Cynllun fel modd o gefnogi blaenoriaethau a bennir yn y CSGAau.

Argymhelliad 16: i Lywodraeth Cymru

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd bwrpasol a strategol dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i adnabod dangosyddion ar gyfer llwyddiant y Cynllun sydd yn cefnogi blaenoriaethau eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

9.43 Yn sgil newidiadau i drefniadau cyllido darperir arian i'r consortia rhanbarthol drwy'r Grant Gwella Addysg i'w galluogi i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r Grant yn ffynhonnell bwysig ar gyfer cefnogi ystod eang o weithgareddau yn cynnwys hyfforddiant i gefnogi gweithrediad y cwricwlwm, cefnogaeth mewn perthynas ag arweinyddiaeth, methodolegau dysgu ac addysgu, hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, hyfforddiant a gweithgarwch i gefnogi cydweithio ymysg ymarferwyr a chynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'n hollbwysig bod cyllid a chefnogaeth ddigonol ar gael i gefnogi nodau'r Strategaeth a thargedau CSGAau lleol.

Argymhelliad 17: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r cyllid a ddarperir fel rhan o weithdrefnau'r Grant Gwella Addysg newydd i'r sector cyfrwng Cymraeg. Dylid sicrhau bod lefel y cyllid a ddyrennir i gonsortia ac awdurdodau lleol ar gyfer hyfforddiant i'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn eu galluogi i gwrdd â thargedau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac ymateb i flaenoriaethau wrth gynyddu darpariaeth.

7. Cymorth canolog

9.44 Mae'r gwerthusiad wedi canfod y bu gwelliant yn y cymorth canolog i'r sector addysg cyfrwng Cymraeg ers cyhoeddi'r Strategaeth. Mae gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi arwain at gynnydd

yn y dewis o gymwysterau cyfrwng Cymraeg ac yn hynny o beth wedi cefnogi nodau'r Strategaeth. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod galw parhaus gan ymarferwyr am gymorth gan Llywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu i ddarparu cymwysterau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen i gyrff dyfarnu sicrhau bod capasiti digonol ganddynt i ddarparu cymwysterau'n ddwyieithog, yn benodol aseswyr a chymedrolwyr gyda sgiliau Cymraeg.

- 9.45 Mae'n angen i gyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru flaengynllunio er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg i gyd-fynd â lansio cymwysterau newydd. Mae casgliad yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012) y dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd fod ar gael yn y Gymraeg ar yr un pryd â rhai Saesneg yn gyson â'r canfyddiad hwn. Dengys y dystiolaeth o'r astudiaethau ardal a'r *Adolygiad o Adnoddau* bod cyfran sylweddol o ymarferwyr yn teimlo nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd.

Argymhelliad 18: i Gymwysterau Cymru

Dylai Cymwysterau Cymru gydweithio â chyrff dyfarnu i sicrhau bod cefnogaeth gyfartal ar gael i ddysgwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg ac nad ydynt o dan anfantais o gymharu â'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr yn y sector cyfrwng Saesneg.

- 9.46 Rhaglen gomisiynu adnoddau Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am yrru'r twf yn y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg. Cesglir bod y rhaglen gomisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i '*wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg*' (Llywodraeth Cymru, 2010:18). Tra bod y broses o adnabod yr anghenion, comisiynu prosiectau a chyhoeddi adnoddau yn cymryd amser, mae'r rhaglen serch hynny yn caniatáu ymateb i flaenoriaethau strategol cenedlaethol. Cesglir bod y rhaglen gomisiynu yn rhan ganolog o'r gwaith i gefnogi Nod Strategol 5. Fodd bynnag, mae prinder dewis mewn nifer o feysydd yn parhau i fod yn broblem i benaethiaid ac ymarferwyr. Adroddwyd bod prinder adnoddau

electronig a rhyngweithiol yn y Gymraeg, adnoddau cyfoes cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac adnoddau ar gyfer y sector addysg bellach.

- 9.47 Mae galw parhaus am raglen gomisiynu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddiwallu anghenion ymarferwyr a dysgwyr. Dengys y dystiolaeth bod ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i wynebu baich gwaith ychwanegol wrth baratoi adnoddau cyfrwng Cymraeg i lenwi bylchau.

Argymhelliad 19: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu rhaglen gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod y rhaglen yn darparu adnoddau mewn modd amserol ar gyfer cefnogi gofynion y cwricwlwm a chymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 20: i Lywodraeth Cymru

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i rannu adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er mwyn hwyluso hyn, dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog ymarferwyr pwnc i fanteisio ar gyfleoedd i greu rhwydweithiau pwnc ar lein (e.e. drwy Hwb+).

8. Sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg

- 9.48 Mae tystiolaeth yn dangos bod peth cynnydd mewn cyrhaeddiad a safonau Cymraeg fel pwnc yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 sy'n gyson â'r tueddiadau yn y data cyn cyhoeddi'r Strategaeth yn 2010. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y Strategaeth wedi cael dylanwad uniongyrchol amlwg ar ansawdd darpariaeth a safonau yn y Gymraeg. Awgryma'r dystiolaeth o'r astudiaethau ardal a'r arolwg penaethiaid mai'r pwyslais cenedlaethol ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, asesiadau PISA ac ar wella safonau yn gyffredinol, gan gynnwys cyrhaeddiad a safonau iaith Gymraeg, sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am ysgogi'r newidiadau yn hytrach na'r Strategaeth. Tra bod amcanion y Strategaeth yn gyson â fframweithiau polisi a threfniadau arolygu ehangach nid yw, serch hynny

yn gyrru ymdrechion i wella safonau nac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddarpariaeth ar lawr gwlad.

- 9.49 Mae'r dystiolaeth yn cyfleu darlun cymysg o ran safonau Cymraeg ail iaith. Ar yr un llaw, dengys data cyrhaeddiad y bu gwelliant yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 ers 2010 ac adlewyrchwyd hynny yng nghanlyniadau'r arolwg penaethiaid gyda'r mwyafrif o benaethiaid ysgolion cyfrwng Saesneg yn cytuno bod safonau wedi gwella. Ar y llaw arall, dengys y data bod y gwelliant hwn yn seiliedig ar waelodlin isel. Casglwyd tystiolaeth ansoddol a oedd yn mynegi beirniadaeth ynglŷn â safonau Cymraeg ail iaith yn yr arolwg penaethiaid ac yn yr holl astudiaethau ardal. Bu cryn feirniadaeth yn ogystal o safonau Cymraeg ail iaith ar draws y Cyfnodau Allweddol mewn cyhoeddiadau eraill yn ystod cyfnod y gwerthusiad (Estyn, 2012-13; Llywodraeth Cymru, 2013).
- 9.50 Awgryma'r dystiolaeth bod y prosiectau peilot Cymraeg ail iaith sydd wedi'u cyflwyno fel rhan o raglen weithredu'r Strategaeth wedi eu croesawu gan ymarferwyr a dysgwyr. Nid yw'r adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn ein galluogi i ddangos traweffaith y prosiectau hyn, ond awgryma'r dystiolaeth bod ymyraethau yn seiliedig ar gyrsiau preswyl/trochi yn debygol o arwain at fwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau ieithyddol tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- 9.51 Cafwyd tystiolaeth i awgrymu nad yw'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llafar bob amser mewn ffordd sy'n eu galluogi i'w defnyddio mewn ystod eang o sefyllfaoedd cymdeithasol a chyd-destunau mwy anffurfiol eraill. Mae sicrhau'r cyfleoedd hyn yn bwysig er mwyn gwella sgiliau iaith a meithrin siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n defnyddio'r iaith yn y gymuned. Dengys y dystiolaeth bwysigrwydd ysgolion wrth ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i addysg ffurfiol. Mae'r dystiolaeth yn dangos pwysigrwydd allweddol y rôl hon mewn ardaloedd lle nad oes canran uchel o siaradwyr Cymraeg lle gwelir ysgolion fel canolbwynt y gymuned Gymraeg. Er mwyn meithrin siaradwyr Cymraeg sy'n hyderus i ddefnyddio eu sgiliau llafar yn y gymuned a'r gweithle, cesglir bod angen cynnig

rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer sgiliau llafar mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Argymhelliad 21: i Lywodraeth Cymru

Fel rhan o ddatganiad polisi i atgyfnerthu neges y Strategaeth, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yr angen am weithredoedd ychwanegol i ddatblygu a chryfhau sgiliau llafar Cymraeg yn y sector cyfrwng Cymraeg. Dylai'r gweithredoedd hyn ganolbwyntio ar wella sgiliau ar gyfer paratoi dysgwyr ar gyfer y gweithlu. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut i gyflwyno cyfleoedd newydd o'r fath mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Atodiadau

Atodiad 1: Llyfryddiaeth

Cyhoeddiadau gan gyrff cyhoeddus

Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru (2007) Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (2014) Gwerthusiad o'r Cynnydd a Wnaed gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Estyn (2013a) Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.

Estyn (2013b) Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir.

Estyn (2014a) Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog.

Estyn (2014b) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2012-2013.

Estyn (2015) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2013-2014.

Furlong, J. (2015) Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru (2009) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad.

Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Llywodraeth Cymru (2011a) Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Llywodraeth Cymru (2011b) Codi safonau ysgol.

Llywodraeth Cymru (2012a) Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru (2012b) Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-2017.

Llywodraeth Cymru (2012c) Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf ar yr iaith Gymraeg.

Llywodraeth Cymru (2013a) *Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – canllawiau.*

Llywodraeth Cymru (2013b) *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg.*

Llywodraeth Cymru (2013c) *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.*

Llywodraeth Cymru (2013d) *Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion.*

Llywodraeth Cymru (2013e) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg: Adroddiad blynyddol 2012–13.*

Llywodraeth Cymru (2013f) *Cynllun Gweithredu'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.*

Llywodraeth Cymru (2013g) *Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.*

Llywodraeth Cymru (2013h) *Cod Trefniadaeth Ysgolion.*

Llywodraeth Cymru (2013i) *Adeiladu Dyfodol mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.*

Llywodraeth Cymru (2014a) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012.*

Llywodraeth Cymru (2014b) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg: Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru.*

Llywodraeth Cymru (2014c) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg: Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach.*

Llywodraeth Cymru (2014d) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg: Adroddiad blynyddol 2013–14.*

Llywodraeth Cymru (2014e) *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol: canllawiau.*

Llywodraeth Cymru (2014f) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 Canllawiau ar y cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4.*

Llywodraeth Cymru (2015a) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.*

Llywodraeth Cymru (2015b) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014–15*.

Mudiad Meithrin (2015) *Adroddiad Blynyddol 2014-2015*.

Robert Hill Consulting (2013) *Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol*.

Tabberer, R. (2013) *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru*.

Deddfwriaeth

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/contents/enacted/welsh>

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1). Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/enacted/welsh>

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, Rhif 3048 (Cy. 307). Ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3048/contents/made/welsh>

Cyhoeddiadau eraill perthnasol a adolygwyd

Roberts, G. a Williams, C. (gol) (2003), *Addysg Gymraeg Addysg Gymreig*. Prifysgol Bangor.

Thomas, H.S. (2010), *Brwydr i Baradwys? Y Dylanwadau ar Dwf Ysgolion Cymraeg De-ddwyrain Cymru*. Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, I.W. (gol.) (2002) *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000*. Y Lolfa.

Atodiad 2: Canllaw cwestiynau a ddefnyddiwyd yn ystod cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

Cyflwyniad

Fel rhan gychwynnol o'r Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, bwriedir cynnal cyfweiliadau gyda sefydliadau / unigolion blaenllaw ym maes addysg Gymraeg. Bydd y trafodaethau hyn yn canoli ar y canlynol:

- A oes tystiolaeth o gynnydd yn erbyn nodau'r Strategaeth?
- Pa mor briodol ydy nodau ac amcanion y Strategaeth?
 - Barn ar unrhyw nodau strategol neu flaenoriaethau eraill y dylai fod yn rhan o Strategaeth Genedlaethol ar gyfer addysg Gymraeg.

Thema	Cwestiynau cyffredinol	Cwestiynau atodol
CEFNDIR	1. Beth yn fras yw eich rôl chi? 2. I ba raddau y mae'r Strategaeth yn effeithio ar / gysylltiedig â gwaith eich sefydliad chi? 3. A oeddech chi'n teimlo bod angen Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg? Pam?	• A wnaethoch chi gyfrannu tuag at ddatblygiad y Strategaeth (e.e. trwy'r broses ymgynghori)? • Pa lefel o ymwybyddiaeth o'r Strategaeth sydd o fewn eich sefydliad a /neu eich sector? • I ba raddau oedd y Strategaeth yn adeiladu ar waith blaenorol o fewn eich sefydliad chi?
GWELEDIGAETH Y STRATEGAETH	4. Beth yw eich barn ar y weledigaeth ar gyfer y Strategaeth? [Gweler isod] Y weledigaeth <i>Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.</i> <i>Addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, gyda dilyniant ieithyddol cadarn drwy bob cyfnod addysg, sy'n cynnig yr amodau gorau ar gyfer meithrin dinasgyddion dwyieithog y dyfodol.</i>	• Ydy'r weledigaeth hon dal yn briodol? • Petai'r Strategaeth yn cael ei pharatoi heddiw, a fydddech yn awgrymu gweledigaeth wahanol / pwyslais gwahanol?
NODAU'R STRATEGAETH	NODER: Mae'r nodau yn Atodiad A: byddwn yn cylchredeg y nodau i randdeiliaid cyn y cyfarfod. 5. Beth yw eich barn ar y nodau sydd wrth wraidd y Strategaeth?	• A ydynt yn addas / yn briodol yn eich barn chi? Oes yna nodau eraill fyddai wedi bod yn fwy priodol? • Oedd y nodau yn ddigon uchelgeisiol / yn rhy uchelgeisiol? • A ydynt yn gyraeddadwy? Os na, beth ydy'r prif rwystrau yn eich profiad chi?

		- Beth yw eich argraffiadau o'r gwaith a wnaed yn erbyn y nodau hyn hyd yma? - Beth yw'r ffactorau sy'n llesteirio neu'n helpu i wireddu nodau ac amcanion y Strategaeth? (e.e. polisi addysg ehangach / ffactorau eraill)
DEILLIANNAU	<i>NODER: Mae'r deilliannau yn Atodiad B: byddwn yn cylchredeg y nodau i randdeiliaid cyn y cyfarfod.</i> 6. Beth yw eich barn ar ddeilliannau'r Strategaeth?	- A oes cynnydd i'w weld hyd yma yn erbyn y deilliannau hyn? - Beth yw eich argraffiadau ar y cynnydd a welwyd hyd yma yn erbyn y targedau a osodwyd? - A ydy'r deilliannau yn gyraeddadwy? - A fyddai'r cynnydd hwn wedi digwydd pe na bai'r strategaeth yn bodoli? - A ydy'r deilliannau yma yn briodol?
CYNLLUNIO DARPARIAETH	7. Beth yw eich barn ar y modd y mae'r Strategaeth yn cefnogi cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg?	- A oes cynnydd wedi'i weld hyd yma mewn perthynas â chynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg? - Allwch feddwl am unrhyw enghreifftiau penodol? - A fyddai'r cynnydd hwn wedi digwydd pe na bai'r Strategaeth genedlaethol yn bodoli? - Beth yw'r prif ffactorau sydd yn hwyluso / rhwystro newidiadau mewn cynllunio darpariaeth? (e.e. ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol, ar lefel ysgol?)
DILYNIANT	8. Beth yw eich barn ar y modd y mae'r Strategaeth yn cefnogi dilyniant rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant?	- A oes cynnydd wedi'i weld hyd yma mewn perthynas â chefnogi dilyniant? - A fyddai'r cynnydd hwn wedi digwydd pe na bai'r strategaeth genedlaethol yn bodoli? - Beth yn eich barn chi yw'r ffactorau allweddol wrth geisio hwyluso dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg?
SGILIAU IAITH	9. Beth yw eich barn ar y modd y mae'r Strategaeth yn cefnogi cynnydd mewn sgiliau iaith yn y Gymraeg ar draws pob cyfnod addysg?	A oes cynnydd wedi'i weld hyd yma mewn perthynas â chefnogi sgiliau iaith yn y Gymraeg?

		• A fyddai'r cynnydd hwn wedi digwydd pe na bai'r strategaeth genedlaethol yn bodoli? • Beth yw'r prif ffactorau sydd yn hwyluso / rhwystro datblygiad sgiliau iaith yn y Gymraeg?
GWEITHLU	10. Beth yw eich barn ar y modd y mae'r Strategaeth yn cefnogi datblygiad gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg?	• A oes cynnydd wedi'i weld hyd yma mewn perthynas â sicrhau gweithlu sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg? • A fyddai'r cynnydd hwn wedi digwydd pe na bai'r strategaeth genedlaethol yn bodoli? • Beth yw'r prif ffactorau sydd yn hwyluso / rhwystro hyn?
CYMORTH CANOLOG	11. Beth yw eich barn ar y modd y mae'r Strategaeth yn gwella dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg? (e.e. adnoddau, defnydd technoleg).	• A oes cynnydd wedi'i weld hyd yma mewn dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg? • A fyddai'r cynnydd hwn wedi digwydd pe na bai'r strategaeth genedlaethol yn bodoli? • Beth yw'r prif ffactorau sydd yn hwyluso / rhwystro hyn?
TEULUOEDD A'R GYMUNED	12. Beth yw eich barn ar y modd y mae'r Strategaeth yn cyfrannu tuag at atgyfnerthu sgiliau iaith Cymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.	• A ydy'r amcan hwn yn briodol? (h.y. ydy hi'n briodol bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ceisio dylanwadu ar sgiliau iaith mewn teuluoedd a chymuned?) • Beth ddylai'r cyswllt fod rhwng y strategaeth hon â'r Strategaeth iaith Gymraeg, <i>laith Fyw: laith Byw</i>.
SYLWADAU PELLACH / CYFFREDINOL	13. A oes unrhyw sylwadau pellach gennych chi ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg?	

Atodiad 3: Sefydliadau a rhanddeiliaid cenedlaethol a gyfrannodd i'r gwerthusiad

Sefydliad	Cynrychiolwyr
ATL Cymru	X 1
Coleg Cymraeg Cenedlaethol	X 1
ColegauCymru	X 3
Comisiynydd y Gymraeg	X 1
CYDAG	X 2
Estyn	X 4
Ffederasiwn Cyrff Dyfarnu Cymru (FAB Wales)	X 6
Grŵp Trawsbleidiol y Gymraeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru	X 2
Mudiad Meithrin	X 1
Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD)	X 1
Niace Dysgu Cymru	X 1
Llywodraeth Cymru	X 10
Rhieni dros Addysg Gymraeg	X 2
UCAC	X 2

Atodiad 4: Astudiaethau ardal: manylion yr astudiaethau ac offerynnau ymchwil

Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno rhagor o wybodaeth ar yr astudiaethau ardal a fu'n rhan o'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Awgrymwyd yn yr adroddiad *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2011) y byddai astudiaethau ardal yn:

ychwanegu dimensiwn ansoddol i ddadansoddi data meintiol er mwyn rhoi asesiad mwy gwrthrychol a chytbwys o effeithiau'r Strategaeth ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr [astudiaethau yn] arwain at ddealltwriaeth o'r heriau a wynebwr wrth ymateb i'r Strategaeth (yn cynnwys y rheiny y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth ymateb i agendâu awdurdodau lleol a'r rheiny mae'r gymuned addysg a hyfforddiant mwy eang yn eu hwynebu wrth ymateb i'r agenda rhanbarthol). (Llywodraeth Cymru, 2011:22)

Roedd y tîm ymchwil yn cytuno bod astudiaethau o'r fath yn cynnig cyfle i gasglu tystiolaeth bwysig i gefnogi'r data a gafwyd drwy ddulliau eraill y rhaglen ymchwil, yn cynnwys yr arolwg o benaethiaid a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.

Sampl

Cytunwyd ar fframwaith sampl o er mwyn cefnogi'r broses o ddewis trawsdoriad o ardaloedd ar gyfer yr astudiaethau ardal. Dewiswyd ardaloedd a oedd yn cynrychioli pob un o ranbarthau Cymru (Gogledd Cymru, De Orllewin a Chanolbarth Cymru, Canol De Cymru, De Ddwyrain Cymru) ac yn cynrychioli trawsdoriad o ffactorau a newidynnau, sef:

- Proffil ieithyddol;
- Natur yr awdurdod lleol (gwledig/trefol); a
- Strwythur darpariaeth ôl-16 (nifer uchel/isel o ysgolion â 6ed dosbarth).

Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr ysgolion, rhieni a dysgwyr a gyfrannodd i'r astudiaethau ardal. Ymwelwyd â dwy ysgol uwchradd ym mhob ardal gyda nifer yr ysgolion cynradd yn amrywio.

	Nifer yr ysgolion	Nifer y rhieni	Nifer y dysgwyr
Ardal 1	4	6	24
Ardal 2	5	4	44
Ardal 3	5	9	24
Ardal 4	6	4	34
Ardal 5	6	4	51
Ardal 6	4	0	22
Cyfanswm	30	27	199

Canllawiau cwestiynau

Ceir isod y canllawiau cwestiynau lled-strwythuredig a ddefnyddiwyd yn ystod cyfweiliadau gydag ysgolion, rhieni a dysgwyr. Nid oedd yn bosib holi pob cwestiwn ar y canllawiau gyda rhai cyfranwyr a bu'n rhaid blaenoriaethu / cwtogi ar y themâu a drafodwyd.

CANLLAW CWESTIYNAU: Ymweliadau ag ysgolion

Fel rhan o'r Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae Arad yn cynnal ymweliadau i ysgolion cynradd ac uwchradd mewn chwech ardal. Nod yr astudiaethau yw cynnal ymchwil dwys ar lefel leol i addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn ystyried dylanwad a thraweffeithiau'r Strategaeth ar ddarpariaeth, cynllunio a chyrhaeddiad dysgwyr.

Yr amcanion yw:

- i. Ateb y cwestiwn ymchwil allweddol - I ba raddau y mae'r Strategaeth wedi dylanwadu ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon?
- ii. Caniatáu i'r tîm ymchwil gasglu tystiolaeth ansoddol yn bennaf sydd yn egluro cynnydd a heriau wrth weithredu nifer o nodau ac amcanion y Strategaeth mewn gwahanol gyd-destunau;
- iii. Casglu tystiolaeth a barn gan sampl o gynulleidfa'r Strategaeth, gan gynnwys
 - a. Tystiolaeth gan benaethiaid ysgolion a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol er mwyn deall natur partneriaethau a phrosesau cynllunio lleol.
 - a. Casglu tystiolaeth gan ymarferwyr, dysgwyr a'r gymuned ehangach i gasglu barn ar addysg Gymraeg a phroffil addysg Gymraeg yn gyffredinol.

Adran	Nodiadau ar y themâu	Canllaw cwestiynau
CEFNDIR		1. Beth yw eich rôl chi yn yr ysgol ac ers pryd ydych chi yn y swydd? 2. Beth yw maint yr ysgol? 3. Pa grŵp oedran ydych yn ei ddysgu? (os yn berthnasol) 4. Beth yw cyfrwng iaith yr ysgol? (Cymraeg, dwy-ffrwd, dwyieithog). 5. (Cynradd) Pa ysgol(ion) uwchradd y mae'r ysgol yn bwydo? 6. (Uwchradd) Beth yw'r ysgolion cynradd sydd yn bwydo'r ysgol?
YMWYBYDDIAETH O'R STRATEGAETH		7. Ydych chi'n ymwybodol bod gan Lywodraeth Cymru Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg? ○ Os ydych, a ydych chi wedi darllen y Strategaeth? ○ Beth yw eich barn ar y Strategaeth? ○ Beth yw eich barn ar y nodau sydd wrth wraidd y Strategaeth? ○ Ydy'r nodau yn ddigon uchelgeisiol / yn rhy uchelgeisiol?
<i>Arad i esbonio ein bod ni wedi adnabod cyfres o themâu i lywio'r ymchwil. Y cyntaf o'r rhain yw Cynllunio Darpariaeth ac mae gweddill y drafodaeth yn dilyn y themâu hyn.</i>		
CYNLLUNIO DARPARIAETH	Yn cyfeirio at y ffordd y mae addysg Gymraeg yn cael ei: - threfnu - hyrwyddo - datblygu	8. Beth yw eich barn ar y modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynllunio yn lleol? 9. A oes unrhywbeth wedi newid yn y ffordd y mae addysg Gymraeg yn cael ei chynllunio yn y blynyddoedd diwethaf (y 3-5 mlynedd diwethaf)? ○ [Os 'oes' yw'r ateb] Beth sydd wedi newid yn y ffordd y mae ACC yn cael ei gynllunio? ○ Pa effaith y mae'r newidiadau hyn wedi cael? ○ Beth sydd wedi gyrru / achosi'r newidiadau hyn? <i>[Arad i gynnig enghreifftiau os oes angen: galw rhieni; gwybodaeth am addysg Gymraeg; cynllunio ar lefel rhanbarthol]</i> 10. Ydych chi'n ymwybodol o'r Cynlluniau

		Strategol y Gymraeg mewn Addysg? ○ <i>[Os ydw]</i> A wnaethoch chi gyfrannu at y broses o lunio'r Cynllun Lleol? ○ <i>[Os na]</i> A fydddech chi wedi dymuno cael y cyfle i gyfrannu at y broses o gynllunio darpariaeth yn lleol? 11. Pa agweddau o'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg sydd yn cael eu cynllunio'n effeithiol? A pha agweddau sydd yn llai effeithiol? 12. A oes digon o gyfleoedd yn lleol i bobl dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd y camau addysg (e.e. o addysg feithrin / addysg cyn-statudol i'r cyfnodau statudol)? 13. A oes darpariaeth addas ar gyfer hwyr-ddyfodiaid yn lleol? ○ h.y. gan gynnwys darpariaeth i unigolion sydd am drosglwyddo'n hwyr i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg. <i>Cwestiynau mewn perthynas â'r Mesur Dysgu a Sgiliau (i'w holi i'r ysgolion uwchradd)</i> Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009 yn gosod pwyslais ar ddarparu dysgu yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau dewis eang i ddysgwyr 14-19 oed. 14. A ydy'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi newid y ffordd y cynllunir y cwricwlwm yn eich ysgol chi? 15. A ydy'r ystod o gyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn eich ysgol/yn lleol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf? ○ <i>[Os ydy]</i> Beth yn eich barn chi sydd wedi arwain at y cynnydd hwn? 16. A ydych chi wedi gweld unrhyw effeithiau eraill yn lleol wrth i ysgolion a cholegau gydweithio'n agosach? ○ Os ydych, beth yw'r effeithiau hyn? 17. A ydy trefniadau teithio i ddysgwyr wedi newid yn sgil newidiadau i'r arlwy o gyrsiau sydd ar gael? ○ Os ydynt, pa effaith y mae hyn wedi ei gael ar ddysgwyr?

DILYNIANT	Dilyniant addysg Gymraeg rhwng cyfnodau addysg	18. Sut ydych chi'n cefnogi dilyniant rhwng eich ysgol chi a'r ysgol uwchradd / gynradd? [Gweithgareddau pontio; annog rhieni i barhau ag addysg Gymraeg i'w plant] 19. A oes cyfleoedd digonol i ddysgwyr i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol hon? 20. Beth yn eich barn chi yw'r ffactorau allweddol wrth geisio hwyluso dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg?
SGILIAU IAITH	Datblygiad sgiliau ar lafar ac yn ysgrifenedig.	Un o nodau'r Strategaeth yw "sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn". 21. Sut ydych chi'n ceisio sicrhau bod hyn yn digwydd yn eich ysgol chi? 22. Beth yw'r prif ffactorau sydd yn effeithio ar ddatblygiad sgiliau iaith yn eich profiad chi? ○ Beth yw eich barn ar y pwyslais a roddir ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ar draws y cwricwlwm? ○ Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer hybu defnydd anffurfiol o'r iaith Gymraeg o fewn eich ysgol? (gan gynnwys annog defnydd o'r iaith rhwng dysgwyr)
TEULUOEDD a'r GYMUNED	Cyfleoedd y tu allan i'r ysgol i ddefnyddio'r iaith	23. Ydych chi'n ymwybodol o gyfleoedd i ddysgwyr neu deuluoedd i ddefnyddio / ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol? ○ Ydy hwn yn bwysig? Pam? ○ A oes cyswllt rhwng yr ysgol a mudiadau eraill sydd yn cefnogi'r Gymraeg yn lleol?
GWEITHLU	Sicrhau gweithlu digonol i gefnogi addysg Gymraeg	24. Yn eich profiad chi, a oes nifer ddigonol o ymarferwyr sydd yn medru addysgu yn y Gymraeg ar gael? ○ Ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau wrth recriwtio? ○ A oes unrhyw fylchau penodol yn y gweithlu? [Pynciau; cyfnodau allweddol?] ○ Sut ydych chi wedi delio gydag unrhyw broblemau wrth recriwtio?

		25. Beth yw eich barn ar yr hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr i gefnogi'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg? ○ A oes unrhyw newid wedi bod i'r hyfforddiant sydd ar gael mewn perthynas ag addysg Gymraeg? ○ Ydy'r hyfforddiant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?
CYMORTH CANOLOG	Adnoddau Cefnogaeth yr Awdurdod (ar y Gymraeg) Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol	26. Beth yw eich barn ar y cymorth canolog sydd ar gael i'ch ysgol chi i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg? (e.e. adnoddau, defnydd technoleg, cymorth gan athrawon bro, cymorth timau arbenigol/Anghenion Dysgu Ychwanegol). ○ A ydy lefel y cymorth wedi newid? Os ydy, ym mha ffordd? ○ Beth yw'r ffactorau sydd wedi achosi/gyrru'r newid. 27. Oes unrhyw gymorth (yn gysylltiedig ag addysg Gymraeg) y byddech chi'n ei ddymuno nad sydd ar gael i chi ar hyn o bryd?
SYLWADAU PELLACH		28. A oes unrhyw sylwadau pellach gennych chi ar addysg Gymraeg yn lleol neu ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg?

CANLLAW CWESTIYNAU: Rhieni

1. CYFLWYNIADAU A CHEFNDIR

- Dywedwch eich enw, ble ydych chi'n byw ac oedran eich plant.
- A ydych yn deall Cymraeg? Pwy sy'n siarad Cymraeg gartref?

2. BARN GYFFREDINOL

- Beth yw'r ddelwedd (neu beth yw canfyddiadau pobl) o addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol?
- Beth yw'r ddelwedd o addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon?

3. DEWISIADAU ADDYSG

- Beth wnaeth ddylanwadu ar eich penderfyniad i yrru eich plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg?
- Beth yw eich barn ar ansawdd cyffredinol yr addysg mae eich plentyn yn ei derbyn?

4. YMWHYDDIAETH A GWYBODAETH

- A oes digon o wybodaeth i rieni yn yr ardal hon am opsiynau cyfrwng Cymraeg?
- A wnaethoch dderbyn unrhyw wybodaeth am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg?
- A yw dysgwyr / rhieni yn derbyn gwybodaeth am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol ... yn y gweithle / addysg bellach / y brifysgol?

5. YR AWDURDOD LLEOL A CHYNLLUNIO

- Yn yr ardal hon, a yw'r awdurdod lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg?
- Yn yr ardal hon, a yw'r awdurdod lleol yn marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol?
- Yn yr ardal hon ydych chi'n credu bod yr awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o lefel y galw am addysg cyfrwng Cymraeg?

6. MATERION PENODOL

Teithio

- Beth yw'r teithiau teithio-i'r-ysgol nodweddiadol yn yr ardal hon? Ydyn nhw'n rhesymol? A oedd hyn yn ffactor wrth ddewis ysgolion?

Dewis o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

- A oes gennych unrhyw sylwadau ar y dewis o bynciau sydd ar gael yn ysgol eich plentyn? A oes unrhyw bynciau nad ydynt yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg yr hoffech i'ch plentyn gael y cyfle i astudio?

Hwyrddyfodiaid

- A oes cyfleoedd yn lleol ar gyfer teuluoedd di-Gymraeg i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg os ydynt yn symud i mewn i'r ardal (h.y. pan fydd y plentyn yn hŷn na 4)?

Diolch a gorffen

CANLLAW CWESTIYNAU: cyfweiliadau gyda dysgwyr / myfyrwyr

Cyflwyniad

[Esbonio pwrpas yr ymchwil a pham ein bod yn ymweld â'r ysgol. Nodi ein bod wedi bod yn siarad gyda phobl ifanc ledled Cymru]

1. Ydy'r ffaith eich bod chi'n derbyn addysg Gymraeg yn bwysig i chi?
 - Os ydy, pam?
2. A oes yna fanteision i fedru siarad Cymraeg?
 - *[I blant hŷn]* Ydy eich agwedd at yr iaith Gymraeg wedi newid dros amser?
 - Oes unrhywbeth rydych chi'n ffeindio'n anodd ynglŷn â derbyn eich addysg drwy gyfrwng y Gymraeg? Os oes, beth?
3. Ydy'r holl bynciau ar gael yn y Gymraeg? *[Uwchradd yn bennaf]*
 - Os na, beth sydd ddim ar gael?
 - *[14-19]* Ydych chi'n gorfod teithio i ysgol / coleg / campws arall i dderbyn rhai gwersi? Beth yw eich barn ar y trefniadau hyn? Ydy hyn yn anhawster /yn gyfle i gwrdd â dysgwyr eraill?
4. Sgiliau iaith
 - Sut mae'r ysgol yn cefnogi eich sgiliau chi yn y Gymraeg?
 - Sut mae'ch sgiliau Cymraeg yn cymharu a'ch sgiliau Saesneg, er enghraifft?
5. Dilyniant
 - A ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig parhau i dderbyn addysg Gymraeg nes eich bod yn gorffen addysg?
 - Tan pryd y byddwch chi am barhau i dderbyn addysg Gymraeg (coleg, prifysgol?)
6. Pa gyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol?
 - Ydych chi'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau neu glybiau yn y Gymraeg y tu allan i'r ysgol?
 - Pam / pam ddim.
7. Ydych chi'n gwybod pa waith yr hoffech ei wneud ar ôl gadael ysgol?
 - A yw'r ffaith eich bod yn siarad Cymraeg yn fantais yn y swyddi hynny?
 - Ydych chi'n meddwl y byddech chi'n defnyddio eich sgiliau Cymraeg yn y swyddi hynny?

Atodiad 5: Arolwg penaethiaid

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu ein dull ar gyfer cynnal yr arolwg penaethiaid a gwblhawyd fel rhan o werthusiad llawn y Strategaeth.

Pwrrpas yr arolwg

Pwrrpas yr arolwg oedd casglu data meintiol yn bennaf ar ganfyddiadau penaethiaid ysgolion (cynradd ac uwchradd), colegau addysg bellach (AB), ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion o ran cynnydd yn erbyn nodau strategol y Strategaeth.

Cwmpas yr arolwg

Gwahoddwyd holl benaethiaid ysgolion a cholegau Cymru (poblogaeth yr arolwg) i gymryd rhan yn yr arolwg.³⁶ Mae Tabl A1 isod yn dangos nifer yr ysgolion a cholegau oedd o fewn cwmpas yr arolwg ac mae Tabl A2 yn dangos nifer y penaethiaid oedd o fewn poblogaeth yr arolwg. Roedd 54 o benaethiaid yn gyfrifol am ddwy ysgol neu fwy, fel y gwelir yn Nhabl A3, felly roedd gwahaniaeth rhwng poblogaeth yr arolwg (h.y. nifer y penaethiaid) a nifer yr ysgolion.

Tabl A1: Nifer yr ysgolion yng nghwmpas yr arolwg penaethiaid

	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfanswm
Ysgolion cynradd	447**	909	1,356
Ysgolion uwchradd*	54***	162	216
Colegau AB			15
Ysgolion arbennig			42****
Unedau cyfeirio disgyblion			33****
Cyfanswm	501	1071	1,662

*Yn cynnwys pedair ysgol ganol

**Yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol

***Yn cynnwys ysgolion dwyieithog math BA, BB ac BC

****Yn seiliedig ar wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru

³⁶ Yn seiliedig ar gysylltu â phenaethiaid pob ysgol a oedd yn ymddangos ar fas data Llywodraeth Cymru o fanylion cyswllt ysgolion yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2014. Gweler <http://llyw.cymru/statistics-and-research/address-list-of-schools/?lang=cy>

Tabl A2: Fframwaith sampl yr arolwg: niferoedd y penaethiaid

	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfanswm
Penaethiaid cynradd	411**	889	1300
Penaethiaid uwchradd*	54***	159	213
Penaethiaid Colegau AB			15
Penaethiaid ysgolion arbennig			38****
Penaethiaid unedau cyfeirio disgyblion			33****
Cyfanswm	465	1048	1599

*Yn cynnwys pedair ysgol ganol

**Yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol

***Yn cynnwys ysgolion dwyieithog math BA, BB ac BC

****Yn seiliedig ar wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru

Tabl A3: Dosbarthiad y penaethiaid: gwahaniaeth rhwng poblogaeth yr arolwg a nifer yr ysgolion.

	Uwchradd Cymraeg*	Uwchradd Saesneg*	Cynradd Cymraeg	Cynradd Saesneg	Ysgolion Arbennig	Unedau cyfeirio disgyblion	Addysg Bellach	Cyfanswm
Nifer penaethiaid sydd â gofal mwy nag un ysgol/ sefydliad	0	3	31	17	3	0	0	54
Nifer ysgolion/ sefydliadau sy'n rhannu pennaeth	-	6 (3 pennaeth â gofal 2 ysgol)	67 (26 pennaeth â gofal 2 ysgol 5 pennaeth â gofal 3 ysgol)	37 (15 pennaeth â gofal 2 ysgol 1 pennaeth â gofal 3 ysgol 1 pennaeth â gofal 4 ysgol)	7 (2 pennaeth â gofal 2 ysgol 1 pennaeth â gofal 3 ysgol)	-	-	117
Cyfanswm yr ysgolion/ sefydliadau	54	162	447	909	42	33	15	1,662
Cyfanswm y penaethiaid	54	159	411	889	38	33	15	1,599

*Yn cynnwys ysgolion canol

**Yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol

***Yn cynnwys ysgolion dwyieithog math BA, BB ac BC

****Yn seiliedig ar wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru

Dull sampl

Defnyddiwyd cyfuniad o ddull cyfrifiad a sampl cwota ar gyfer yr arolwg. Gwahoddwyd yr holl benaethiaid o fewn y boblogaeth (dull cyfrifiad) i gwblhau'r arolwg. Dosbarthwyd dolen arlein i'r holiadur drwy e-bost uniongyrchol at y penaeithiaid ym mis Medi 2014. Roedd yr arolwg ar agor rhwng Medi a Thachwedd 2014. Yn ystod y cyfnod hwnnw, danfonwyd sawl nodyn atgoffa i benaethiaid nad oedd wedi ymateb er mwyn eu hannog i gwblhau'r holiadur.

Gosodwyd targedau ar gyfer nifer yr ymatebion yn y sampl cyfan ac is-samplau penodol (dull sampl cwota) er mwyn gallu dadansoddi'r data ar sail ystadegol gadarn (gweler 'dadansoddi'r data' isod). Roedd y targedau yn golygu bod angen cyfraddau ymateb uwch o fewn rhai sectorau nac eraill. Er mwyn cyrraedd y targedau, danfonwyd negeseuon atgoffa drwy e-bost at benaethiaid. Cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer ysgolion cynradd drwy'r dull hwn ond danfonwyd copïau papur allan at benaethiaid uwchradd a sefydliadau AB nad oedd wedi ymateb er mwyn cyrraedd is-samplau targed penodol ar gyfer y sectorau hynny. Cwblhawyd galwadau ffôn i benaethiaid ysgolion uwchradd a sefydliadau AB nad oedd wedi ymateb yn ogystal er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r arolwg a'u hannog i ymateb.

Sampl yr arolwg

Cwblhaodd 331 allan o 1,599 o benaethiaid yr arolwg sef cyfradd ymateb o 21 y cant (y sampl cyfan). Dengys Tabl A4 isod wybodaeth ar niferoedd yr ymatebwyr fesul sector a chyfrwng yr ysgol/sefydliad. Roedd y ganran a gwblhaodd yr arolwg fesul sector (yr is-samplau) fel a ganlyn:

• Cyfrwng Cymraeg	○ Cynradd – 24 y cant ○ Uwchradd – 63 y cant
• Cyfrwng Saesneg	○ Cynradd – 12 y cant ○ Uwchradd – 37 y cant
• Addysg Bellach – 80 y cant	
• Ysgolion Arbennig – 24 y cant	
• Unedau cyfeirio disgyblion – 24 y cant	

Tabl A4: Sampl yr arolwg: nifer (a chanran) yr ymatebwyr fesul sector a chyfrwng yr ysgol/sefydliad

	Cyfrwng Cymraeg			Cyfrwng Saesneg			Cyfanswm		
	Nifer y penaethiaid	Nifer (canran) wedi dechrau'r holiadur	Nifer (canran) wedi cwblhau'r holiadur	Nifer y penaethiaid	Nifer (canran) wedi dechrau'r holiadur	Nifer (canran) wedi cwblhau'r holiadur	Nifer y penaethiaid	Nifer (canran) wedi dechrau'r holiadur	Nifer (canran) wedi cwblhau'r holiadur
Cynradd	411	110 (27%)	98 (24%)	889	132 (15%)	111 (12%)	1,300	242 (19%)	209 (16%)
Uwchradd	54	46 (85%)	34 (63%)	159	86 (54%)	59 (37%)	213	132 (62%)	93 (44%)
Penaethiaid Colegau AB							15	12 (80%)	12 (80%)
Penaethiaid ysgolion arbennig*							38	11 (29%)	9 (24%)
Penaethiaid unedau cyfeirio disgyblion*							33	8 (24%)	8 (24%)
Cyfanswm	465	156 (33%)	132 (28%)	1,048	218 (21%)	170 (16%)	1,599	405 (25%)	331 (21%)

*Nid ydym yn adrodd ar yr is-samplau hyn yn unigol ond mae maint yr is-samplau yn gwneud ein sampl gyfan yn gynrychioliadol o'r boblogaeth o benaethiaid.

Dadansoddi'r data

Dadansoddwyd ymatebion y sampl cyfan o benaethiaid yn ogystal â'r is-samplau canlynol o benaethiaid:

- Cynradd cyfrwng Cymraeg
- Uwchradd cyfrwng Cymraeg
- Cynradd cyfrwng Saesneg
- Uwchradd cyfrwng Saesneg
- Addysg Bellach

Roedd y sampl cyfan yn cynnwys yr is-samplau uchod yn ogystal â phenaethiaid unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig. Roedd maint y sampl a'r is-samplau yn ein galluogi i adrodd canlyniadau'r arolwg ar sail cyfrwng hyder o 10 y cant a lefel hyder o 95 y cant.³⁷ Yn ystadegol, golyga hyn ein bod yn gallu datgan a sicrwydd o 95 y cant bod ymatebion ein sampl ac is-samplau o fewn 10 y cant i'r 'gwir' ganran ar gyfer y boblogaeth o benaethiaid.

Pwysoli'r data

Pwysolwyd y data yn y sampl cyfan er mwyn sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth fesul sector a chyfrwng ysgol y penaeithiaid. Gan ein bod wedi gosod targedau ar gyfer is-samplau penodol, roedd rhai sectorau lle'r oedd cyfran llai o benaethiaid yn y boblogaeth (e.e. penaeithiaid uwchradd cyfrwng Cymraeg) wedi eu gor-gynrychioli o fewn y sampl cyfan heb ei bwysoli. Defnyddiwyd dull pwysoli syml er mwyn addasu maint yr is-samplau hyn o fewn y sampl cyfan. Prif oblygiad hyn oedd cynyddu'r pwysau a roddwyd i ymatebion ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a lleihau'r pwysau a roddwyd i'r sectorau eraill.

Cyflwynir canlyniadau'r arolwg ar gyfer y sampl cyfan, felly, wedi eu pwysoli yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, cyflwynir canlyniadau'r arolwg ar gyfer yr is-samplau penodol heb eu pwysoli. Roedd yr union addasiadau a wnaethpwyd i

³⁷ Ni adroddir ar yr is-samplau o benaethiaid unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig gan fod y maint rhain yn fach. Mae ymatebion yr is-samplau hyn wedi eu cynnwys o fewn canlyniadau'r sampl cyfan fodd bynnag.

bwysoli'r canlyniadau yn amrywio fesul cwestiwn ond ceir disgrifiad bras o'r dull pwysoli isod.

Mae Tabl A5 isod yn dangos y gyfran o'r boblogaeth o benaethiaid oedd o fewn pob is-sampl. Ar gyfer pob cwestiwn, rhannwyd y cyfrannau hynny (cyfran y boblogaeth o fewn yr is sampl) â'r gyfran o'r ymatebwyr oedd o fewn yr is-samplau hynny (cyfran yr ymatebwyr o'r is sampl). Roedd hyn yn ein galluogi i gyfrifo ffactor ar gyfer lluosu canlyniadau bob is-sampl er mwyn eu pwysoli o fewn y sampl cyfan. Roedd y ffactor lluosu a'r cyfrannau ymateb yn amrywio fesul cwestiwn gan nad oedd bob ymatebydd wedi cwblhau bob un cwestiwn. Yn ogystal, roedd rhai cwestiynau wedi eu holi ar gyfer sectorau penodol yn unig.

Tabl A5: Cyfran y boblogaeth o fewn pob is-sampl

Sector	Cyfran o'r boblogaeth		
	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfanswm
Penaethiaid cynradd	0.26	0.56	0.81
Penaethiaid uwchradd*	0.03	0.10	0.13
Penaethiaid Colegau AB	0.00	0.00	0.01
Penaethiaid ysgolion arbennig	0.00	0.00	0.02
Penaethiaid unedau cyfeirio disgyblion	0.00	0.00	0.02
Cyfanswm	0.29	0.66	1.00

Strwythur yr holiadur

Roedd yr holiadur yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig wedi'u strwythuro o gwmpas nodau strategol y Strategaeth. Roedd nifer o'r cwestiynau yn seiliedig ar gynnwys y Strategaeth, gan ofyn barn penaeithiaid ar ddatganiadau sy'n berthnasol i'r nodau ac amcanion strategol.

Roedd rhai cwestiynau wedi'u cyfeirio at bob pennaeth a rhai at benaethiaid cynradd, uwchradd, cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg yn unig. Mae cwestiynau'r holiadur wedi eu cynnwys isod ynghyd â gwybodaeth ynghylch pa benaethiaid wnaeth dderbyn y cwestiynau hynny (h.y. fesul cyfrwng / sector).

Holiadur penaethiaid

Tudalen gyflwyniad

Cyflwyniad

Comisiynwyd Arad Research gan Lywodraeth Cymru i gwblhau gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2010. Fel rhan o'r gwerthusiad rydym yn casglu canfyddiadau penaethiaid ysgolion (cynradd ac uwchradd) a cholegau addysg bellach (AB) o ran cynnydd yn erbyn y nodau strategol y Strategaeth. Bydd y data yn cefnogi ac atgyfnerthu'r dystiolaeth ansoddol a gesglir trwy ddulliau ac elfennau eraill y gwerthusiad.

Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn llenwi'r holiadur hwn er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn barn cymaint o benaethiaid â phosib fel rhan o'n gwaith. Dylai gymryd tua 10 munud i'w gwblhau.

Byddwn yn trin pob ymateb yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn enwi ymatebwyr yn ein hadroddiad. Ni fyddwn ychwaith yn pasio ymatebion unigol ymlaen at unrhyw drydydd parti, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, nac yn eu defnyddio ar gyfer marchnata neu hyrwyddo.

Os yw'n well gennych gwblhau holiadur dros y ffôn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r holiadur hwn, cysylltwch â Arad ar 02920 440 552. Os ydych yn dymuno, mae modd i chi roi'r gorau i ateb yr holiadur arlein am gyfnod a dychwelyd i'w gwblhau yn hwyrach.

Os yw'n well gennych gwblhau'r holiadur hwn yn Saesneg, cliciwch fan hyn

If you would prefer to complete this questionnaire in English please click here

1. Cwestiynau proffil

Eich enw

Eich swyddogaeth (ee. athro/
pennaeth/pennaeth
blwyddyn)

Enw'r ysgol / coleg

Sector

Cynradd

☐

Uwchradd

☐

Addysg Bellach

☐

Ysgol arbennig

☐

Ysgol ganol

☐

Uned Cyfeirio Disgyblion

☐

[Gosodwyd ffiltir yn y fan hon i gyfeirio ymatebwyr at y cwestiynau priodol.]

Adroddiad terfynol

2. Cyfrwng yr ysgol (ysgolion yn unig)

Cyfrwng Cymraeg	
Dwy ffrwd	
Trawsnewidiol	
Dwyieithog – AB/BB/CB/CH	
Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	
Cyfrwng Saesneg yn bennaf	

[Gosodwyd ffiltr yn y fan hon i gyfeirio ymatebwyr at y cwestiynau priodol.]

3. Awdurdod lleol (ysgolion yn unig)	Blaenau Gwent Pen-y-bont ar Ogwr Caerffili Caerdydd Sir Gaerfyrddin Ceredigion Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Gwynedd Ynys Môn Merthyr Tudful Sir Fynwy Castell-nedd Port Talbot Casnewydd Sir Benfro Powys Rhondda Cynon Taf Abertawe Bro Morgannwg Torfaen Wrecsam
---	--

[Holwyd y cwestiynau isod i benaethiaid yn sectorau hynny sydd wedi eu dynodi gan y blychau wedi eu lliwio'n llwyd isod]

4. Cynllunio darpariaeth

Mae'r cwestiynau isod yn gofyn i chi fynegi barn ar y ffordd y cynllunnir darpariaeth addysg neu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Mae rhai o'r datganiadau yn gofyn i chi ystyried sut mae'r broses gynllunio wedi datblygu ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2010.

Atebwch y cwestiynau gan ystyried eich profiadau yn eich awdurdod lleol chi (neu eich rhanbarth ehangach lle bo hynny'n berthnasol).

I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- Cytuno; Cytuno i raddau; Anghytuno i raddau; Anghytuno; Ddim yn berthnasol

Datganiadau	Sector				
	Cynradd		Uwchradd		AB
	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	
Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi gwella yn yr awdurdod lleol ers 2010					
Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg					
Mae'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod 14-19 wedi gwella yn yr awdurdod lleol/rhanbarth ers 2010					
Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn effeithiol i'r galw gan rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg					
Mae darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi gwella ers 2010					

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion ynglŷn â chynllunio darpariaeth yn y blwch isod

--

5. Dilyniant a safonau ieithyddol

Mae'r cwestiynau isod yn gofyn i chi fynegi barn ar ddilyniant (h.y. y broses o alluogi dysgwyr i barhau i astudio y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg wrth symud drwy'r system addysg) a safonau ieithyddol.

Atebwch y cwestiynau gan ystyried eich profiadau yn eich awdurdod lleol chi (neu eich rhanbarth ehangach lle bo hynny'n briodol).

I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- Cytuno; Cytuno i raddau; Anghytuno i raddau; Anghytuno; Ddim yn berthnasol

Datganiadau	Sector				
	Cynradd		Uwchradd		AB
	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	
Mae dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010					
Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella ers 2010					
Mae safonau addysgu a dysgu Cymraeg ail iaith wedi gwella ers 2010					

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion ynglŷn â dilyniant a sgiliau ieithyddol yn y blwch isod

--

6. Gweithlu

Mae'r cwestiynau isod yn holi eich barn ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu.

Atebwch y cwestiynau isod yn seiliedig ar eich profiadau yn eich sector chi (h.y. cynradd, uwchradd neu addysg bellach).

I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- Cytuno; Cytuno i raddau; Anghytuno i raddau; Anghytuno; Ddim yn berthnasol

Datganiadau	Sector				
	Cynradd		Uwchradd		AB
	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	
Mae nifer ddigonol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd					
Mae nifer ddigonol o gynorthwywyr cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd					
Mae nifer ddigonol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd neu addysg bellach					
Mae nifer ddigonol o gynorthwywyr cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd neu addysg bellach					
Mae nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer yr iaith Gymraeg fel pwnc					
Mae hyfforddiant i'r gweithlu yn diwallu anghenion ein sefydliad ni o ran cefnogi sgiliau iaith Gymraeg					

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion gan gynnwys unrhyw fylchau penodol yn y cyflenwad o ymarferwyr i addysgu trwy gyfrwng y y Gymraeg isod

7. Cymorth canolog

Mae'r cwestiynau isod yn holi eich barn ar y cymorth canolog sydd ar gael i'ch ysgol neu goleg addysg bellach.

I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- Cytuno; Cytuno i raddau; Anghytuno i raddau; Anghytuno; Ddim yn berthnasol

Datganiadau	Sector				
	Cynradd		Uwchradd		AB
	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	
Mae'r ystod o gymwysterau cyffredinol cyfrwng Cymraeg (e.e. TGAU a Safon Uwch) wedi gwella ers 2010					
Mae'r ystod o gymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010					
Mae'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg wedi gwella ers 2010					
Mae'r ystod o adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r iaith Gymraeg fel pwnc (iaith gyntaf neu ail iaith) wedi gwella ers 2010					

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion ynglŷn â chymorth canolog yn y blwch isod

8. Defnydd o'r Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol

Mae'r cwestiynau isod yn gofyn i chi fynegi barn ar ddefnydd o'r Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol. Atebwch y cwestiynau gan ystyried profiadau dysgwyr yn eich ysgol neu goleg addysg bellach chi.

I ba raddau ydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- Cytuno; Cytuno i raddau; Anghytuno i raddau; Anghytuno; Ddim yn berthnasol

Datganiadau	Sector				
	Cynradd		Uwchradd		AB
	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	
Mae'r cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol wedi cynyddu ers 2010					
Mae cefnogaeth ddigonol ar gael i gefnogi defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol					
Mae defnydd anffurfiol o'r iaith Gymraeg gan ddysgwyr yn ein sefydliad ni wedi cynyddu ers 2010					
Un o rolau allweddol yr ysgol yw meithrin pobl ifanc sy'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol					

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch ymatebion yn y blwch isod

9. Blaenoriaethau ar gyfer Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol

Beth yn eich barn chi, yw'r blaenoriaethau ar gyfer unrhyw strategaeth newydd i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol?

10. Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach, nodwch hwy yn y blwch isod